

At: Aelodau'r Cyngor Sir

Dyddiad: Dydd Mercher, 8 Ebrill
2015

Rhif Union: 01824712589

ebost: dcc_admin@denbighshire.gov.uk

Annwyl Gyngorydd

Fe'ch gwahoddir i fynychu cyfarfod y **CYNGOR SIR, DYDD MAWRTH, 14 EBRILL 2015**
am **10.00 am** yn **SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN.**

Yn gywir iawn

G Williams

Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd

AGENDA

RHAN 1 – GWAHODDIR Y WASG A'R CYHOEDD I FOD YN BRESENNOL AR GYFER Y RHAN HON O'R CYFARFOD

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGANIAD CYSYLLTIAD (Tudalennau 5 - 6)

Dylai'r Aelodau ddatgan unrhyw gysylltiad personol neu gysylltiad sy'n rhagfarnu mewn unrhyw fater a nodwyd i'w ystyried yn y cyfarfod hwn.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Rhybudd o eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel materion brys yn unol ag Adran 100B (4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

4 DYDDIADUR Y CADEIRYDD (Tudalennau 7 - 8)

Nodi ymrwymadau dinesig a ymgwymerwyd gan Gadeirydd y Cyngor (copi ynghlwm).

5 COFNODION (Tudalennau 9 - 20)

Derbyn Cofnodion cyfarfod y Cyngor Sir a gynhaliwyd ar:-

- (i) 29 Ionawr 2015 (copi ynghlwm).
- (ii) 24 Chwefror 2015 (copi ynghlwm).

6 TREFNIADAU AR GYFER ETHOL CADEIRYDD AC IS-GADEIRYDD Y CYNGOR (Tudalennau 21 - 22)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (copi ynghlwm) yn argymhell bod y Cyngor yn cytuno y bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn gyngor 2015/16 yn cael eu hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 12 Mai 2015.

7 CYMERADWYO'R ACHOS BUSNES TERFYNOL AR GYFER AILDDATBLYGU YSGOL GLAN CLWYD (Tudalennau 23 - 58)

Ystyried adroddiad gan y Pennaeth Cefnogi Addysg a Chwsmeriaid (copi ynghlwm), yn argymhell cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol ar gyfer Ysgol Glan Clwyd.

8 PAPUR GWYN LLYWODRAETH CYMRU - DIWYGIO LLYWODRAETH LEOL: GRYM I BOBL LEOL (Tudalennau 59 - 62)

Ystyried adroddiad gan Bennaeth y Gyfraith, Adnoddau Dynol a'r Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) i geisio cymeradwyaeth y Cyngor i gyflwyno ymateb i'r ymgynghoriad ar y Papur Gwyn ar ran y Cyngor cyn y dyddiad cau, sef 28 Ebrill 2015 (atodiadau i ddilyn).

9 ADRODDIAD BLYNYDDOL PANEL ANNIBYNNOL CYMRU AR GYDNABYDDIAETH ARIANNOL 2015/2016 (Tudalennau 63 - 140)

Ystyried adroddiad gan y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (copi ynghlwm) i sicrhau bod y Cyngor yn ymwybodol o benderfyniadau'r Panel ar gyfer 2015/2016 o ran taliadau i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig.

10 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR (Tudalennau 141 - 144)

Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor (copi ynghlwm).

AELODAETH

Y Cynghorwyr

Y Cyngorydd Brian Blakeley
(Cadeirydd)

Y Cyngorydd Gwyneth Kensler (Is-
Gadeirydd)

Ian Armstrong
Raymond Bartley
Joan Butterfield
Jeanette Chamberlain-Jones
William Cowie
Ann Davies
James Davies
Meirick Davies
Richard Davies
Stuart Davies
Peter Duffy
Peter Arnold Evans
Hugh Evans
Bobby Feeley
Carys Guy
Huw Hilditch-Roberts
Martyn Holland
Colin Hughes
Rhys Hughes
Hugh Irving
Alice Jones
Huw Jones
Pat Jones

Geraint Lloyd-Williams
Jason McLellan
Barry Mellor
Win Mullen-James
Bob Murray
Peter Owen
Dewi Owens
Merfyn Parry
Paul Penlington
Pete Prendergast
Arwel Roberts
Gareth Sandilands
David Simmons
Barbara Smith
David Smith
Bill Tasker
Julian Thompson-Hill
Joe Welch
Cefyn Williams
Cheryl Williams
Eryl Williams
Huw Williams

COPIAU I'R:

Y Wasg a'r Llyfrgelloedd
Cynghorau Tref a Chymuned

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

DEDDF LLYWODRAETH LEOL 2000

Cod Ymddygiad Aelodau

DATGELU A CHOFRESTRU BUDDIANNAU

Rwyf i,
(enw)

*Aelod /Aelod cyfetholedig o
(*dileuer un)

Cyngor Sir Ddinbych

YN CADARNHAU fy mod wedi datgan buddiant ***personol / personol a sy'n rhagfarnu** nas datgelwyd eisoes yn ôl darpariaeth Rhan III cod ymddygiad y Cyngor Sir i Aelodau am y canlynol:-
(*dileuer un)

Dyddiad Datgelu:

Pwyllgor (nodwch):

Agenda eitem

Pwnc:

Natur y Buddiant:

(*Gweler y nodyn isod*)*

Llofnod

Dyddiad

Noder: Rhowch ddigon o fanylion os gwelwch yn dda, e.e. 'Fi yw perchennog y tir sy'n gyfagos i'r cais ar gyfer caniatâd cynllunio a wnaed gan Mr Jones', neu 'Mae fy ngŵr / ngwraig yn un o weithwyr y cwmni sydd wedi gwneud cais am gymorth ariannol'.

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

Eitem Agenda 4

<u>Dyddiad/Date</u>	<u>Digwyddiad/Event</u>	<u>Lleoliad/Location</u>
27.01.15	Seremoni coffâd yr Holocost Holocaust Commemoration Ceremony	Llanelwy/St Asaph
11.02.15	Seremoni Wobrwyo Chwaraeon Sports Awards Ceremony	Y Rhyl/Rhyl
20.02.15	Coffâd Ffoaduriaid Gwlad Belg Belgian Refugees Commemoration	Y Rhyl/Rhyl
26.02.15	Ymweliad Cyngor Ysgolion Cynradd Primary School Council Visit	Rhuthun/Ruthin
27.02.15	Seremoni Wobrwyo/Codi fflag Dydd Gwyl Dewi St David's Day Flag Flying/Presentation Ceremony	Rhuthun/Ruthin
27.02.15	Agoriad Swyddogol Ysgol Y Llys Official Opening of Ysgol Y Llys	Prestatyn
01.03.15	Agoriad Swyddogol Rheilffordd Dwyrain Corwen Official Opening of Corwen East Railway Line	Corwen
01.03.15	Cyngerdd Elusenol Maer Rhuddlan Mayor of Rhuddlan's Charity Concert	Rhuddlan
05.03.15	Croesawu/Welcoming Lesley Griffiths AC/AM	Y Rhyl/Rhyl
06.03.15	Cinio Elusenol Maer Llanelwy Mayor of St Asaph's Charity Dinner	Llanelwy/St Asaph
07.03.15	Cyngerdd Elusenol Maer Wrecsam Mayor of Wrexham's Charity Concert	Wrecsam/Wrexham
09.03.15	Seremoni Codi'r Fflag i'r Gymanwlad a Seremoni Coffâd Rhyfel Byd Cyntaf Commonwealth Flag Raising Ceremony and World War One Commemorative Ceremony	Rhuthun/Ruthin
11.03.15	Cyngerdd/Concert – Rhyl Music Club	Y Rhyl/Rhyl
12.03.15	Seremoni Cyflwyno Medal Ymerodraeth Prydeinig British Empire Medal Presentation Ceremony	Bodelwyddan
13.02.15	Cinio Elusenol Cadeirydd Cyngor Sir Y Fflint	Yr Wyddgrug/Mold
14.03.15	Cyngerdd/Concert – Talented Rhyl Youth	Y Rhyl/Rhyl
17.03.15	Cyflwyno plac i'r Ysgolion a gymerodd rhan yng Nhystadleuaeth Dydd Gwyl Dewi/Presentation of plaque to schools which took part in St David's Day competition	Ardal Rhuthun/Llangollen Ruthin/Lalngollen area

18.03.15	Cyflwyno plac i'r Ysgolion a gymerodd rhan yng Nhystadleuaeth Dydd Gwyl Dewi/Presentation of plaque to schools which took part in St David's Day competition	Ardal Dinbych/Denbigh area
19.03.15	Cyflwyno Blodau i Mr & Mrs Vaughn Thomas ar Benblwydd 60 Mlynedd eu priodas/Presentation of flowers to Mr & Mrs Vaughn Thomas on their 60 th Wedding Anniversary	Rhuthun/Ruthin
19.03.15	Ymweliad Cyngor Ysgolion/School Council Visit	Rhuthun/Ruthin
20.03.15	Croesawu Ken Skates AC/Welcoming Ken Skates AM	Rhuthun/Ruthin
20.03.15	Cinio Elusennol y Cadeirydd/Chairman's Charity Dinner	Llanelwy/St Asaph
23.03.15	Cyflwyno plac i'r Ysgolion a gymerodd rhan yng Nhystadleuaeth Dydd Gwyl Dewi/Presentation of plaque to schools which took part in St David's Day competition	Ysgol Llanbedr
25.03.15	Cyflwyno plac i'r Ysgolion a gymerodd rhan yng Nhystadleuaeth Dydd Gwyl Dewi/Presentation of plaque to schools which took part in St David's Day competition	Ardal Y Rhyl/Rhyl area
26.03.15	Seremoni Wobrwyo Cymunedol Uchel Siryf Clwyd High Sheriff of Clwyd's Community Presentation Ceremony	Cei Connah Connah's Quay
27.03.15	Cyflwyniad Coffaol Commemorative Presentation	Rhuthun/Ruthin
27.03.15	Cinio Elusennol Maer Prestatyn Mayor of Prestatyn's Charity Dinner	Prestatyn

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Dref, Rhuthun LL15 1YN, Dydd Iau, 29 Ionawr 2015 am 2.00 pm.

YN BRESENNOL

Y Cynghorwyr Raymond Bartley, Brian Blakeley (Cadeirydd), Jeanette Chamberlain-Jones, William Cowie, Ann Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Rhys Hughes, Hugh Irving, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd), Jason McLellan, Win Mullen-James, Bob Murray, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, David Simmons, Barbara Smith, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams a/ac Huw Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Y Prif Weithredwr (MM), Cyfarwyddwr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM), Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd a Swyddog Monitro (RGW), Pennaeth Cyllid ac Asedau (PM), Pennaeth Refeniw a Budd-daliadau a Gweinyddwr Pwyllgorau (CIW).

1 YMDDIHEURIADAU

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb oddi wrth y Cynghorwr(wyr) Joan Butterfield, James Davies, Meirick Davies, Hugh Evans, Carys Guy, Martyn Holland, Alice Jones, Geraint Lloyd-Williams, Barry Mellor, Peter Owen, Paul Penlington, David Smith a/ac Bill Tasker

Mynegodd y Cadeirydd ac Aelodau'r Cyngor eu cydymdeimlad i'r Arweinydd a'i deulu yn dilyn marwolaeth ei fam. Cafwyd munud o dawelwch fel arwydd o barch tuag at y Cynghorydd Margaret McCarroll a mam yr Arweinydd.

2 TEYRNGED I'R CYNGHORYDD MARGARET MCCARROLL

Rhoddodd y Cadeirydd deyrnged i'r gwaith a wnaed gan y Cynghorydd McCarroll yn ei rôl fel Cynghorydd, ac am y gwaith elusennol a wnaeth yn y Gymuned. Cadarnhaodd y Cyngor y farn a fynegwyd gan y Cadeirydd a'r Cynghorydd Pat Jones y byddai colled fawr ar ôl y Cynghorydd McCarroll.

3 DATGAN CYSYLLTIAD

Ni wnaeth unrhyw Aelod ddatgan cysylltiad personol na chysylltiad sy'n rhagfarnu ag unrhyw fusnes a oedd i'w ystyried yn y cyfarfod.

4 MATERION BRYN FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chodwyd unrhyw eitemau y dylid, ym marn y Cadeirydd, eu hystyried yn y cyfarfod fel mater o frys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol, 1972.

5 CYNLLUN LLEIHOU TRETH Y CYNGOR 2015/15

Cyflwynodd y Cyngorydd Julian Thompson-Hill adroddiad (a ddisbarthwyd yn flaenorol) ar fabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru Gyfan a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013 a Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor Cymru Gyfan a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) (Diwygio) 2015.

Eglurodd fod Deddf Diwygio Lles 2012 yn cynnwys darpariaethau i ddiddymu budd-dal treth y cyngor yn ei ffurf bresennol ar draws y DU. O 31 Mawrth 2013 daeth budd-dal treth y cyngor i ben ac mae'r cyfrifoldeb am ddarparu cefnogaeth ar gyfer treth y cyngor a'r arian sy'n gysylltiedig ag ef, wedi ei basio i Lywodraeth Cymru (LIC). Mae LIC, mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol yng Nghymru, wedi cyflwyno cynllun newydd i ddarparu cymorth treth y cyngor a fabwysiadwyd gan y Cyngor ym mis Ionawr 2013.

Roedd LIC wedi cymeradwyo'r ddwy set o reoliadau ar 14 Ionawr 2014 ac roedd gofyn mabwysiadu Rheoliadau newydd Cynlluniau Gostyngiadau Treth y Cyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau diwygio 2015, erbyn 31 Ionawr 2015.

Y Cynllun Arfaethedig 2015/16.

Wrth ystyried datblygu cynllun newydd ar gyfer 2015/16 roedd LIC wedi cytuno y dylai'r cynllun diwygiedig ddilyn y paramedrau canlynol:-

- Parhau gydag un cynllun a ddiffinnir yn genedlaethol i ddarparu lefel gyson o gymorth i hawlwyd yng Nghymru. Roedd uchafswm lefel y cymorth wedi'i osod ar 100%.
- Parhau i ddarparu nifer fach o elfennau dewisol, yn debyg i'r rhai sydd ar gael o dan y cynllun presennol, gan alluogi awdurdodau lleol i ymateb i'w hamgylchiadau lleol gwahanol, ar yr amod bod y costau o unrhyw amrywiad lleol yn cael eu hariannu yn lleol.
- Parhau i fod yn seiliedig ar ddiwygiad o'r system Budd-dal Treth y Cyngor flaenorol, tan 2016-17 fel bod risgiau gweithredol yn cael eu rheoli ac y gallai cymorth barhau i gael ei ddarparu.
- Mân ddiwygiadau i adlewyrchu cyflwyno Absenoldeb Rhiant a Rennir a thâl rhieni statudol a rennir a wnaeth ddisodli cyfnod tadolaeth ychwanegol a thâl tadolaeth statudol ychwanegol o 5 Ebrill 2015. Roedd darpariaethau trosiannol hefyd wedi'u darparu ar gyfer y rhai sy'n cael tâl tadolaeth ar 1 Ebrill 2015.
- Cafodd diwygiad ei gynnwys a oedd yn adlewyrchu newidiadau a wnaed i Reoliadau Budd-dal Tai i ddileu hawl awtomatig i Leihau Treth y Cyngor ar gyfer ceiswyr gwaith mewn Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE), sy'n gymwys ar hyn o bryd yn rhinwedd derbyn Lwfans Ceisio Gwaith yn Seiliedig ar Incwm. Roedd

diwygiadau i'r Rheoliadau Codiadau yn cael gwared ar fynediad i CTRS ar gyfer ceiswyr gwaith AEE. Fodd bynnag, roedd hyn ond yn berthnasol i'r rhai a oedd yn gwneud cais newydd am CTRS ar neu ar ôl 1 Ebrill 2015 neu sy'n stopio â bod yn gymwys i gael Lwfans Ceisio Gwaith yn seiliedig ar incwm am gyfnod ar ôl y dyddiad hwn, er enghraifft, os byddant yn mynd i mewn i gyflogaeth dros dro.

- Cafodd mân ddiwygiadau canlyniadol hefyd eu gwneud mewn perthynas â diffiniadau ynghylch Lwfans Cyflogaeth a Chymorth a chyfeiriadau at Gredyd Cynhwysol. Nid oedd Lwfans Cyflogaeth a Chymorth sy'n gysylltiedig ag incwm bellach yn cynnwys lwfansau cyfrannol sy'n seiliedig ar incwm ar wahân, yn hytrach dim ond lwfans cyfrannol a elwir yn 'lwfans cyflogaeth a chymorth'. Gwnaed diwygiadau hefyd i fewnosod cyfeiriadau at Gredyd Cynhwysol yn Rheoliadau 2013 lle roedd cyfeiriadau eisoes at fudd-daliadau eraill sy'n gysylltiedig ag incwm.

- Byddai'r ffigurau a ddefnyddir i gyfrifo hawl ymgeiswyr i leihau Treth y Cyngor yn cael eu huwchraddio yn unol â'r Budd-dal Tai, fel y nodwyd gan yr Adran Gwaith a Phensiynau (DWP).

Roedd Elfennau dewisol ar gyfer penderfyniad y Cyngor yn cynnwys:-

a) Y gallu i ymestyn y cyfnod talu estynedig safonol o 4 wythnos a roddir i bobl wedi iddynt ddychwelyd i'r gwaith, pan maent wedi bod yn derbyn budd-dal cymwys perthnasol am o leiaf 26 wythnos.

b) Disgresiwn i ddiystyru rhan o neu swm llawn pensiynau Anabledd Rhyfel a Phensiynau Gweddwon Rhyfel wrth gyfrifo incwm.

c) Y gallu i ôl-ddyddio, hyd at 6 mis, unrhyw ddyfarniadau Cymorth Treth y Cyngor ar gyfer cwsmeriaid o oedran gweithio fwy na'r cyfnod safonol o 3 mis cyn y cais.

Cadarnhaodd y Cyngorydd Thompson-Hill fod LIC wedi cynnal ymarfer ymgynghori ffurfiol ar y cynllun presennol a'r newidiadau posibl, gan ei alluogi i fod yn gost niwtral i Awdurdodau Lleol. Roedd sylwadau wedi eu gwneud gan nifer o sefydliadau, gan gynnwys Sir Ddinbych, gan awgrymu diwygiadau i'r cynllun.

Ar ôl ystyriaeth briodol, penderfynwyd parhau â'r cynllun fel y mae tan ar ôl etholiadau nesaf y cynulliad, gydag unrhyw ddiffyg rhwng y lleihad a roddir a'r grant penodol a dderbynnir, yn cael ei feddu gan yr Awdurdod Lleol. Roedd LIC hefyd wedi penderfynu y byddai'r lefelau cyllid ar gyfer y cynllun yn aros ar lefelau 2013/14, a oedd yn creu pwysau cyllidebol yn 2014/15 ac yn parhau i wneud hynny yn 2015/16. Bydd mabwysiadu'r cynllun yn helpu pobl ddiameddiffyn, gan sicrhau eu bod yn byw mor annibynnol ag sy'n bosib.

Byddai incwm grant yn cael ei golli trwy'r newidiadau i'r system Budd-daliadau Treth y Cyngor. Yn 2015/16, byddai'r Cyngor yn cael cyllid o £9.167m ar gyfer Cymorth Treth y Cyngor gan LIC. Fodd bynnag, y gwariant presennol oedd £9.5m, ac os byddai Sir Ddinbych yn cynyddu Treth y Cyngor o 3% ac y byddai'r Heddlu yn cynyddu Treth y Cyngor o 5%, y rhagolwg ar gyfer 2015/16 fyddai tua £9.8m. Byddai hyn yn arwain at ddiffyg o tua £663k ar gyfer 2015/16. Gall y diffyg un ai gynyddu neu leihau yn dibynnu ar y lefelau o Dreth y Cyngor a godir ar gyfer 2015/16 ac/neu unrhyw amrywiadau pellach ar lwyth achosion.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn:-

mabwysiadu Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor a Gofynion Rhagnodedig (Cymru) 2013, a Rheoliadau Gofynion Rhagnodedig (Cymru) (Diwygio) 2015, o ran blwyddyn ariannol 2015/16, a bod cymeradwyo 3 elfen ddewisol o'r cynllun, fel a ddangosir yn adran 4.1, yn cael ei barhau yn 2015/16.

Daeth y cyfarfod i ben am 2.20pm.

CYNGOR SIR

Cofnodion cyfarfod o'r Cyngor Sir a gynhaliwyd yn SIAMBR Y CYNGOR, NEUADD Y SIR, RHUTHUN LL15 1YN, Dydd Mawrth, 24 Chwefror 2015 am 10.00 am.

YN BRESENNOL

Cynghorwyr Brian Blakeley (Cadeirydd), Joan Butterfield, Jeanette Chamberlain-Jones, Bill Cowie, Ann Davies, Meirick Davies, Richard Davies, Stuart Davies, Peter Duffy, Hugh Evans, Peter Evans, Bobby Feeley, Huw Hilditch-Roberts, Martyn Holland, Rhys Hughes, Alice Jones, Huw Jones, Pat Jones, Gwyneth Kensler (Is-Gadeirydd), Geraint Lloyd-Williams, Jason McLellan, Win Mullen-James, Peter Owen, Paul Penlington, Arwel Roberts, Gareth Sandilands, Barbara Smith, David Smith, Bill Tasker, Julian Thompson-Hill, Joe Welch, Cefyn Williams, Cheryl Williams ac Eryl Williams

HEFYD YN BRESENNOL

Prif Weithredwr (MM); Cyfarwyddwyr Corfforaethol: Uchelgais Economaidd a Chymunedol (RM); Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cymdeithasol (NS); Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd (GW); Prif Gyfrifydd (RW); Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd (SP), a Gweinyddwr Pwyllgorau (KEJ)

1 YMDDIHEURIADAU

Cynghorwyr Ian Armstrong, Ray Bartley, Carys Guy, Colin Hughes, Hugh Irving, Barry Mellor, Dewi Owens, Merfyn Parry, David Simmons a Huw Williams

2 DATGAN CYSYLLTIAD

Datganodd yr aelodau canlynol gysylltiad personol gydag Eitem 6 ar y Rhaglen -

Y Cynghorydd Meirick Lloyd Davies - Llywodraethwr Ysgol Trefnant ac Ysgol Cefn Meiriadog

Y Cynghorydd Bobby Feeley - Llywodraethwr Ysgol Stryd y Rhos

Y Cynghorydd Huw Hilditch-Roberts - Rhiant a Llywodraethwr Ysgol Pen Barras

Y Cynghorydd Jason McLellan - Rhiant a Llywodraethwr Ysgol Bodnant

Y Cynghorydd Win Mullen-James - Llywodraethwr Ysgol Uwchradd y Rhyl ac Ysgol Christchurch

Y Cynghorydd Paul Penlington - Rhiant a Llywodraethwr Ysgol y Llys

Y Cynghorydd Julian Thompson-Hill - Llywodraethwr Ysgol Clawdd Offa

Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd mai dim ond â'r ysgolion hynny a grybwyllir yn yr adroddiad yr oedd angen i aelodau ddatgan cysylltiad.

3 MATERION BRYD FEL Y'U CYTUNWYD GAN Y CADEIRYDD

Ni chafwyd unrhyw faterion bryd.

4 COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2015.

Cywirdeb - Tudalen 10 Eitem Rhif 6 Cyllideb 2015/16 - Teimlai'r Cynghorydd Joan Butterfield y dylai'r cofnod gael ei ddiwygio i adlewyrchu'r drafodaeth ar y gyllideb yn llawn ac i nodi pa gynghorwyr a gynigiodd gynigion penodol. Dywedodd y Cynghorydd Paul Penlington mai ef oedd wedi cynnig bod modd ymdrin â'r pedwar argymhelliad ar wahân, nid y Cynghorydd Julian Thompson-Hill. Gofynnodd y Cynghorydd Meirick Davies bod "fel a ddangosir yn Atodiad 1" yn cael ei ychwanegu at benderfyniad 6(i) fel y cymeradwywyd yn y cyfarfod diwethaf ac er mwyn cysondeb gydag argymhelliad yr adroddiad.

Materion yn Codi - Tudalen 8 Eitem Rhif 6 Cyllideb 2015/16 - Dywedodd y Cynghorydd David Smith, ers y cyfarfod diwethaf, cafwyd ymatebion gan yr Aelodau Cynulliad Ken Skates (De Clwyd) ac Ann Jones (Dyffryn Clwyd) ynghylch symud cyllid Menter Benthycu Llywodraeth Leol (LGBI) a dyrannu cyllid ar gyfer ffordd liniaru'r M4. Roedd y ddau Aelod Cynulliad wedi dweud nad oedd LGBI wedi ei symud i ariannu ffordd liniaru'r M4. Gofynnodd y Cynghorydd Paul Penlington bod yr ymatebion yn cael eu darllen yn uchel yn llawn ac yn dilyn trafodaeth fer cytunwyd eu bod yn cael eu dosbarthu i'r aelodau yn y cyfarfod.

PENDERFYNWYD *cadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 3 Chwefror 2015 fel cofnod cywir a bod y Cadeirydd yn eu llofnodi, yn amodol ar yr uchod.*

5 TRETH Y CYNGOR 2015/16 A MATERION CYSYLLTIEDIG

Cyflwynodd yr Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau, y Cynghorydd Julian Thompson-Hill yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn ceisio cymeradwyaeth ar gyfer y penderfyniadau angenrheidiol i osod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2015/16. Cyfeiriodd yn benodol at -

- brif nodweddion y gyllideb fel a gymeradwywyd ar 3 Chwefror 2015
- sylwadau'r Swyddog Adran 151 ar gadernid amcangyfrifon y gyllideb a digonolrwydd y cronfeydd wrth gefn
- dadansoddiad o'r praeseptau gan Gynghorau Tref/Cymuned a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, ac
- argymhellion ar gyfer lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2015/16.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Eryl Williams at y penderfyniadau ariannol anodd a wnaed gan yr awdurdod a chododd bryderon fod Llywodraeth Cymru yn dyfarnu grantiau amrywiol ac arian i Gynghorau ar adeg mor hwyr yn y flwyddyn ariannol wrth osod toriadau llym ar yr un pryd. Roedd y canlyniad yn achosi anawsterau i Gynghorau sy'n cynllunio eu strategaethau ariannol ac ystyriwyd pe bai cyllid ar gael dylid ei ddyrannu o flaen llaw er mwyn helpu Gynghorau i gysgodi yn erbyn y toriadau gwaeth. Nododd yr aelodau ei bod yn arferol i Lywodraeth Cymru ddyfarnu arian yn 4/6 wythnos olaf y flwyddyn ariannol a gwnaethant gydnabod yr anawsterau ar gyfer cynllunio ariannol o ganlyniad i'r dull hwnnw, yn enwedig o ystyried y sefyllfa ariannol bresennol. Trafododd yr Aelodau y ffordd ymlaen ac roeddent yn teimlo ei fod yn fater ar gyfer archwilio adeiladol gyda'r bwriad o newid y ffordd yr oedd cyllid

yn cael ei ddyrannu er mwyn gwella rheolaeth ariannol. O ganlyniad, cytunwyd bod y mater yn cael ei drosglwyddo i'r Grŵp Cadeiryddion ac Is-Gadeiryddion Archwilio i gael ei amserlennu'n briodol ar gyfer archwilio. Roedd y Cynghorydd Stuart Davies yn awyddus i'r Gweinidog perthnasol gael ei alw i gyfrif, ond rhoddwyd gwybod nad oedd gan yr awdurdod unrhyw rym i alw Weinidog gerbron y pwyllgor archwilio. O ran y dyraniad diweddar o £1.5m i'w wario ar offer chwarae erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, rhoddodd y Cynghorydd Huw Jones sicrwydd bod trefniadau'n cael eu gwneud gyda'r bwriad o wario cyfran £48k Sir Ddinbych cyn gynted ag y bo modd.

Ystyriodd yr Aelodau y praeseptau gan y Cynghorau Tref / Cymuned a Chomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gofynnodd y Cynghorydd Bobby Feeley am ddadansoddiad o'r hyn a gyflawnwyd ac a fyddai'n debygol o gael ei gyflawni yn seiliedig ar swm praesept yr Heddlu. Cytunwyd i ysgrifennu at Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu ar gyfer y dadansoddiad hwnnw ynghyd â chopi o'r Cynllun Gweithredu a gynhyrchwyd ar gyfer y rhanbarth ac awgrymwyd hefyd y gallai aelodau geisio craffu ar y wybodaeth honno i ganfod beth oedd wedi ei gyflwyno ar gyfer y praesept. Cafodd yr Aelodau sicrwydd o ddatganiad y Swyddog Adran 151 lle ystyriodd fod cynigion y gyllideb yn synhwyrol ac yn gadarn ac yn ddigonol a phriodol o ran y balansau cyffredinol. Yn olaf, ystyriwyd y lefelau a argymhellir o Dreth y Cyngor a chyfeiriwyd at waith y Gweithgor Strategaeth Safleoedd Carafanau o ran y potensial i godi refeniw treth y cyngor ar gyfer blynyddoedd i ddod. Nodwyd unwaith y bydd y gwaith hwnnw wedi'i gwblhau y byddai'r canfyddiadau yn cael eu hadrodd yn ôl i'r Cyngor llawn.

Pleidleisiodd yr Aelodau ar argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn -

31 pleidlais o blaid, 0 yn erbyn a 0 yn ymatal.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cymeradwyo'r argymhellion canlynol yn unfrydol -

- (a) bod y Cyngor Sir, fel yr Awdurdod Bilio, yn ystyried y praeseptau a dderbyniwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a'r Cynghorau Tref / Cymuned a datgan lefelau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16;
- (b) bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16, yn unol ag Adrannau 32 i 34 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) a'r Rheoliadau Addasu Cyfrifiadau Angenrheidiol (Cymru) 2008 fel adran 3 Atodiad A;
- (c) bod y symiau a gyfrifwyd gan y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16, yn unol ag Adrannau 34 (2) i 36 (1) o Ddeddf Cyllid Llywodraeth Leol 1992 (y Ddeddf) fel adran 4 Atodiad A;
- (d) bod symiau Treth y Cyngor ar gyfer blwyddyn ariannol 2015/16 ar gyfer pob un o'r categorïau o anheddau fel a ddangosir yn Atodiad C yr adroddiad, a

- (e) *bod lefel y disgownt ar gyfer Dosbarth A, B ac C fel a ragnodir o dan Reoliadau Treth y Cyngor (Dosbarthau Rhagnodedig ar Anheddau) (Cymru) 2004 yn cael ei gosod ar sero ar gyfer blynyddoedd ariannol 2015/2016 a 2016/2017 trwy fod yn dymor y Cyngor hwn gyda'r cafeat bod hyn yn ddibynnol ar ddim newidiadau i ddeddfwriaeth neu amodau lleol.*

6 CYNLLUN CYFALAF 2014/15 - 2017/18 AC ARGYMHELLION Y GRŴP BUDDSODDI STRATEGOL

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau yr adroddiad (a ddosbarthwyd yn flaenorol) yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau am elfen 2014/15 y Cynllun Cyfalaf ac yn gofyn am gymeradwyaeth i'r Cynllun Cyfalaf 2015/16 ynghyd â phrosiectau a nodwyd ar gyfer eu cynnwys yn unol ag argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol a dyraniadau cyfalaf sy'n codi o gynigion adolygiad ardal cynradd Rhuthun. Aeth â'r aelodau drwy'r adroddiad gan dynnu sylw at yr adrannau canlynol -

- crynodeb o'r Cynllun Cyfalaf Cyffredinol a'r elfen Cynllun Corfforaethol
- crynodeb o brosiectau cyfalaf yn ôl maes gwasanaeth a chynlluniau unigol
- y wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau cyfalaf mawr
- argymhellion y Grŵp Buddsoddi Strategol gan gynnwys y rhesymeg y tu ôl i gyn-ddyrannu derbyniadau cyfalaf ar gyfer prosiectau penodol, a
- darpariaeth gynradd ardal Rhuthun – roedd cyllid yn ei le fel rhan o'r Cynllun Corfforaethol ond roedd angen cymeradwyaeth y Cyngor ar gyfer dyrannu gwirioneddol.

Ymatebodd y Cynghorydd Thompson-Hill i gwestiynau a godwyd ynghylch gwahanol agweddau ar y Cynllun Cyfalaf a dyraniadau penodol, gan gynnwys cynnydd gyda gwahanol gynlluniau. Roedd prif feysydd trafod yn canolbwyntio ar y canlynol -

- cyfeiriwyd at gymhlethdodau cyllid allanol a chytunwyd i gynnwys briffio i aelodau ar gyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall mewn sesiwn briffio'r Cyngor yn y dyfodol – roedd y swm o arian allanol a sicrhawyd ar gyfer prosiectau penodol wedi ei gynnwys yn adroddiadau cyllid misol y Cabinet
- gofynnwyd bod Aelodau Lleol yn cael eu gwneud yn gwbl ymwybodol o werthu asedau a derbyniadau cyfalaf a gynhyrchir yn eu hardaloedd
- o ran y rhaglen goleuadau stryd, eglurwyd mai bwriad y cynllun yw disodli llusernau presennol gyda llusernau LED ar sail debyg am debyg. Er bod y llusernau newydd yn darparu golau cyfeiriadol o ansawdd gwell gan leihau llygredd golau, derbyniwyd y byddai budd wrth adolygu darpariaeth bresennol i ganfod a oedd gostyngiad mewn ardaloedd penodol yn cael ei gyfiawnhau
- trafodwyd rhinweddau'r dyraniad dros dro o £1.615m i gyflwyno rhaglen o adfywio trefol drwy gyflenwad llety busnes modern ac roedd tua 7/8 o gynlluniau yn cael eu hystyried ar hyn o bryd, gan gynnwys Cil Medw. Cyfeiriwyd hefyd at y gwaith o drawsnewid yr hen westy Bee & Station yn ofod swyddfa a'r angen i'r fenter honno gael ei defnyddio'n llawn
- trafodwyd y rhesymeg y tu ôl i fuddsoddiad blaenorol, presennol ac yn y dyfodol mewn ysgolion penodol ynghyd â nod y Cyngor o wella safonau mewn addysg

ac adeiladau ar draws y sir gyfan a chydabyddiaeth o'r cyflawniadau sylweddol a wnaed eisoes yn y cyswllt hwnnw dros y blynyddoedd diwethaf. Rhoddwyd eglurhad o gyllid Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru ac er bod y Cyngor mewn sefyllfa i symud ymlaen gyda'r cynigion ar gyfer adeiladau ysgol ar gyfer ardal Rhuthun heb ddibynnu ar gyllid ysgolion yr 21ain ganrif, o ystyried rhagwelediad a chynllunio'r Cyngor roedd posibilrwydd y gallai cyllid Band A gael ei sicrhau ar gyfer y prosiectau hynny

- wrth ystyried y dyraniadau cyfalaf ar gyfer darpariaeth gynradd yn ardal Rhuthun, eglurwyd y cynnig ar gyfer y ddwy ysgol (adleoli Stryd y Rhos / Ysgol Penbarras) ar safle a rennir yng Nglasdir. Cafwyd peth trafodaeth am benderfyniad y Gweinidog i wrthod y cynnig i gau Ysgol Llanbedr er gwaethaf dod i'r casgliad bod achos addysgol cydlynol ar gyfer y cynnig a fyddai'n arwain at ddsbarthiad tecach o gyllid ar draws ysgolion y sir. Ymatebodd y Prif Weithredwr i gwestiynau a sylwadau a godwyd yn y cyswllt hwnnw gan gynghori nad oedd yn cytuno â phenderfyniad y Gweinidog ac roedd achos clir o blaid y cynnig. Ni ellid rhoi sicrwydd ynghylch prosesau ymgynghori yn y dyfodol yng ngoleuni dynameg Llywodraeth Cymru ond rhoddwyd sicrwydd y byddai ymgynghoriadau yn y dyfodol mor gynhwysfawr ag y bo modd. Cadarnhawyd bod costau ymgynghori yn cael eu talu o gyllideb y gwasanaeth moderneiddio addysg
- dywedwyd wrth yr aelodau am y polisi i gynnig hen adeiladau ysgol i'r gymuned leol yn y lle cyntaf ac roedd amserlenni priodol yn cael eu paratoi ar gyfer yr achosion busnes hynny cyn i adeiladau gael eu cynnig ar y farchnad agored. Byddai derbyniadau cyfalaf a gynhyrchir o werthu hen adeiladau ysgol yn cael eu clustnodi ar gyfer prosiectau moderneiddio addysg, ond nid oedd prosiectau cyfredol yn dibynnu ar dderbyniadau cyfalaf ysgolion i fod yn ariannol hyfyw
- Cynigiodd y Cynghorydd Eryl Williams ddiwygiad i'r argymhellion, a eiliwyd gan y Cynghorydd Julian Thompson-Hill i gynnwys penderfyniad ychwanegol i adlewyrchu cynllunio ariannol rhagweithiol y Cyngor mewn perthynas â chyllid o ddatblygiadau ffermydd gwynt ar gyfer buddsoddiad cyfalaf yn y dyfodol.

Rhoddwyd teyrnged i waith y swyddogion a'r Grŵp Buddsoddi Strategol o fewn y broses a oedd wedi arwain at gyflwyno argymhellion teg ar gyfer buddsoddiad cyfalaf ar draws y sir gyfan.

Pleidleisiodd yr Aelodau ar argymhellion yr adroddiad a'r diwygiad fel a ganlyn -

32 pleidlais o blaid, 0 yn erbyn ac 1 yn ymatal.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn -

- (a) 2014/15 y Cynllun Cyfalaf a'r wybodaeth ddiweddaraf am brosiectau mawr;
- (b) cefnogi argymhelliad y Grŵp Buddsoddi Strategol fel y nodir yn Atodiad 5 ac fel a gynhoir yn Atodiad 6 yr adroddiad;
- (c) cymeradwyo Cynllun Cyfalaf 2015/16, a
- (d) chymeradwyo achosion busnes a dyraniad cyfalaf ar gyfer darpariaeth Cynradd Ardal Rhuthun:

- *disodli darpariaeth bresennol Ysgol Stryd y Rhos / Ysgol Penbarras ar Safle Glasdir*
 - *adeilad ysgol newydd ar gyfer Ysgol Carreg Emlyn*
 - *adeilad ysgol newydd ar gyfer ysgol ardal Llanfair a Phentrecelyn, yn amodol ar ganlyniad y cynigion trefniadaeth ysgolion, ac*
- (e) *yn argymhell bod swyddogion yn edrych yn rhagweithiol ar y defnydd o arian o ddatblygiadau ffermydd gwynt yn y sir mewn cynlluniau cyfalaf yn y dyfodol.*

Ar y pwynt hwn (11.55am) cymerodd y cyfarfod egwyl am luniaeth.

7 DATGANIAD STRATEGAETH RHEOLI'R TRYSORLYS 2015/16 A DANGOSYDDION DARBODUS 2015/16 I 2017/18 AC ADRODDIAD DIWEDDARIAD RHEOLI'R TRYSORLYS

Cyflwynodd y Cynghorydd Julian Thompson-Hill, Aelod Arweiniol Cyllid ac Asedau, yr adroddiad yn gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys (DSRhT) 2015/16 a gosod Dangosyddion Darbodus 2015/16, 2016/17 a 2017/18, ac i nodi adroddiad diweddar Rheoli'r Trysorlys. Roedd yn ofynnol i'r Cyngor gymeradwyo DSRhT a Dangosyddion Darbodus yn flynyddol.

Cafodd yr Aelodau eu harwain trwy'r DSRhT a oedd yn dangos sut byddai'r Cyngor yn rheoli ei fuddsoddiadau a'i fenthyciadau ar gyfer y flwyddyn i ddod a hefyd yn gosod y polisiâu ar gyfer gweithredu swyddogaeth Rheoli'r Trysorlys. Roedd hefyd yn cynnwys Dangosyddion Darbodus sy'n gosod cyfyngiadau ar weithgaredd Rheoli Trysorlys y Cyngor ac yn dangos bod benthyca'r Cyngor yn fforddiadwy. Tynnwyd sylw arbennig at bryniant Cymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai a oedd yn golygu bod y Cyngor yn benthyca £40m i ddod yn hunan-ariannol a byddai'n arwain at arbedion sylweddol i'r Cyfrif Refeniw Tai. Nodwyd bod y DSRhT yn cael ei oruchwylio gan y Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol ac fel Cadeirydd, diolchodd y Cynghorydd Jason McLellan i swyddogion am eu gwaith caled a phwysleisiodd bwysigrwydd y ddogfen a oedd yn adlewyrchu doethineb a gofal y Cyngor yn ystod y cyfnod ariannol cyfredol.

Ystyriodd y Cyngor yr adroddiad a thrafodwyd y materion canlynol -

- cyfeiriwyd at ddiddymu'r Bwrdd Benthyca Gwaith Cyhoeddus a gofynnwyd am sicrwydd o ran ei olynnydd a benthyca yn y dyfodol - ymatebodd y swyddogion y byddai angen cymryd diwygio ac ansawdd y gwasanaeth newydd ar werth enwol
- trafodwyd effaith marchnadoedd ariannol byd-eang eraill, gan gynnwys Ardal yr Ewro, y Dwyrain Canol a'r sefyllfa bancio yn America a rhoddwyd sicrwydd bod y Cyngor yn gwasanaethu'n dda o ran Ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys a oedd mewn cysylltiad cyson â marchnadoedd y byd - roedd y DSRhT yn nodi rhestr o sefydliadau y gallai'r Cyngor fuddsoddi â nhw, ond ar hyn o bryd ni ystyriwyd ei bod yn ddoeth i fuddsoddi gyda banciau tramor, yn lle hynny roedd y Cyngor yn buddsoddi mewn banciau penodol yn y DU - fodd bynnag roedd buddsoddiadau mwy diogel yn arwain at lai o elw

- roedd cefnogaeth i rywfaint o waith gael ei wneud i ganfod gwerth am arian o fuddsoddiadau'r Cyngor mewn datblygu economaidd, yn enwedig o ran creu swyddi a chyflogaeth yn Sir Ddinbych - croesawodd y Cynghorydd Hugh Evans, Aelod Arweiniol dros Ddatblygu Economaidd yr awgrym hwn gan dynnu sylw at ddull mwy penodol o ymdrin â blaenoriaethau yn y Cynllun Corfforaethol. Roedd datblygu economaidd yn canolbwyntio ar greu cyfoeth, swyddi sy'n talu'n dda a chynyddu incwm aelwydydd a dywedodd y byddai buddsoddiad yr awdurdod yn y maes hwn, ac mewn adeiladau ysgol, yn cael effaith gadarnhaol ar yr economi.

Pleidleisiodd yr Aelodau ar argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn -

30 pleidlais o blaid, 0 yn erbyn a 0 yn ymatal.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn cymeradwyo -

- y newidiadau i'r Datganiad Strategaeth Rheoli'r Trysorlys ar gyfer 2015/16 fel y rhestrir yn Atodiad 1 yr adroddiad.*
- gosod Dangosyddion Darbodus ar gyfer 2015/2016, 2016/2017 a 2017/18 fel a nodir yn Anecs A Atodiad 1 yr adroddiad;*
- y Datganiad Isafswm Darpariaeth Refeniw fel a nodir yn Adran 6 Atodiad 1 yr adroddiad, a*
- nodi adroddiad diweddarau Rheoli'r Trysorlys 2014/15.*

8 AMSERLEN Y PWYLLGOR 2015/16, ADOLYGIAD BLYNYDDOL O GYDBWYSEDD GWLEIDYDDOL, A PHENODI CADEIRYDDION ARCHWILIO

Cyflwynodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd adroddiad yn cwmpasu nifer o faterion yn ymwneud â'r pwyllgor fel a ganlyn -

- cymeradwyo amserlen pwyllgorau ar gyfer 2015/16
- adolygiad blynyddol o gydbwysedd gwleidyddol ac aelodaeth pwyllgorau
- penodiadau i'r Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer 2015/16, a'r
- weithdrefn ar gyfer penodi cadeiryddion y Pwyllgorau Craffu.

Roedd y Cynghorydd Paul Penlington yn siomedig i nodi nad oedd cyfarfodydd gyda'r nos wedi'u trefnu a dywedwyd wrtho fod yr amserlen pwyllgorau wedi ei pharatoi yn unol â chanllawiau aelodau. Nodwyd bod rhai sesiynau hyfforddi aelodau wedi eu cynnal gyda'r nos a chytunodd y Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd i ddarparu ffigurau presenoldeb ar gyfer y sesiynau hynny ar gais. Er bod ffigurau presenoldeb aelodau ar gyfer y rhan fwyaf o gyfarfodydd pwyllgor ffurfiol ar gael ar wefan y Cyngor, derbyniwyd nad oedd presenoldeb mewn cyfarfodydd anffurfiol ar gael. Awgrymodd y Cynghorydd Barbara Smith y gallai'r wybodaeth hon gael ei chynnwys gan yr aelodau yn eu hadroddiadau blynyddol. Trafododd yr Aelodau hefyd gydbwysedd gwleidyddol pwyllgorau a chytunwyd bod Arweinwyr Grŵp yn cynghori am unrhyw newidiadau yn unol â chydbwysedd gwleidyddol eu Grŵp. Cytunwyd hefyd fod aelodaeth gyfredol y Pwyllgor Cynllunio

yn cael ei gadw hyd nes y byddai isetholiad De-orllewin y Rhyl wedi ei gynnal ar 19 Mawrth 2015.

Pleidleisiodd yr Aelodau ar argymhellion yr adroddiad fel a ganlyn -

30 pleidlais o blaid, 0 yn erbyn a 0 yn ymatal.

PENDERFYNWYD bod y Cyngor yn -

- (a) *cymeradwyo'r amserlen ddrafft ar gyfer pwyllgorau 2015/16 fel y nodir yn Atodiad 1 i'r adroddiad, ac*
- (b) *ailbenodi'r cadeirydd ac aelodaeth bresennol y Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd ar gyfer blwyddyn ddinesig 2015 / 2016, yn amodol ar unrhyw newid a nodir gan y Grwpiau.*

9 RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR SIR

Cyflwynwyd Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor i'w hystyried a nododd yr aelodau fod cyfarfod Briffio'r Cyngor ychwanegol wedi ei drefnu ar ôl y Cyngor llawn ar 14 Ebrill 2015. Cytunwyd byddai trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor hefyd yn cael eu hystyried yn y Cyngor llawn ym mis Ebrill. Gofynnodd y Cynghorydd Jason McLellan fod y sesiwn briffio aelodau ar gyllid Ewropeaidd a chyllid allanol arall fel y cytunwyd yn gynharach yn y cyfarfod yn cael ei threfnu cyn gynted ag y bo modd.

PENDERFYNWYD nodi Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol y Cyngor yn amodol ar yr uchod.

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55pm.

Adroddiad i'r:	Cyngor Sir
Dyddiad y Cyfarfod:	14 Ebrill 2015
Arweinydd/Swyddog:	Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, Adnoddau Dynol a Democrataidd
Awdur yr Adroddiad:	Gary Williams, Pennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol, AD a Democrataidd
Teitl:	Trefniadau ar gyfer Ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yng Nghyfarfod Blynyddol y Cyngor

1 Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

- 1.1 Y trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor ar gyfer blwyddyn ddinesig 2015/16.

2 Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

- 2.1 Bydd Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn cael eu hethol yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol y Cyngor ym mis Mai. Pwrpas yr adroddiad yw cytuno ar y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn ddinesig 2015/16 sydd i'w hethol yn ffurfiol yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol.

3 Beth yw'r Argymhellion?

- 3.1 Bod y Cyngor yn cytuno y bydd y Cadeirydd a'r Is-Gadeirydd arfaethedig ar gyfer blwyddyn gyngor 2015 yn cael eu hethol yn ffurfiol yng nghyfarfod blynyddol y Cyngor ar 12 Mai 2015.

4 Manylion yr Adroddiad

- 4.1 Yn 2006 cytunodd y Cyngor gyda chasgliadau'r Panel Moderneiddio blaenorol bod y weithdrefn flaenorol pan gynhelid cyfarfod Blynyddol y Cyngor heb unrhyw sicrwydd go iawn ynglŷn â phwy fyddai'n cael eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn tynnu oddi wrth urddas yr achlysur.
- 4.2 Penderfynodd y Cyngor y dylid mynd i'r afael â'r trefniadau ar gyfer ethol Cadeirydd ac Is-gadeirydd yn y cyfarfod a gynhelir cyn Cyfarfod Blynyddol y Cyngor.
- 4.3 Is-gadeirydd presennol y Cyngor yw'r Cynghorydd Gwyneth Kensler. Y traddodiad yw bod Is-Gadeirydd presennol y Cyngor yn cael ei ethol yn Gadeirydd y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ddinesig nesaf.

4.4 Gofynnwyd i Arweinwyr Grŵp ddarparu enwebiadau ar gyfer rôl Is-gadeirydd y Cyngor gogyfer â'r flwyddyn ddinesig nesaf. Ar adeg ysgrifennu'r adroddiad hwn, mae dau enwebiad wedi dod i law. Yr enwebeion yw: y Cynghorydd Ann Davies a'r Cynghorydd Win Mullen-James

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Nid yw rolau Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn effeithio'n uniongyrchol ar y blaenoriaethau corfforaethol.

6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Ar hyn o bryd telir cyflogau uwch o £21,500 ac £14,000 i Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn y drefn honno. Mae'r ffigurau hyn yn cynnwys y cyflog sylfaenol a delir i bob aelod.

7 Pa ymgynghori a wnaed?

7.1 Ymgynghorwyd ag Arweinwyr Grŵp ynghylch enwebu aelodau i rôl Is-Gadeirydd y Cyngor.

8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.

8.1 Nid oes unrhyw gostau ychwanegol yn deillio o'r argymhelliad hwn.

9. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1 Mae risg i enw da i'r Cyngor os nad oes sicrwydd pwy gaiff eu hethol yn Gadeirydd ac Is-gadeirydd y Cyngor yn y Cyfarfod Blynyddol.

10 Pŵer i wneud y Penderfyniad?

10.1 Erthygl 5 Cyfansoddiad y Cyngor.
Adran 4 Deddf Llywodraeth Leol 1972.

Adroddiad i'r:	Cyngor Llawn
Dyddiad y Cyfarfod:	14 Ebrill 2015
Aelod / Swyddog Arweiniol:	Y Cynghorydd Eryl Williams, Aelod Arweiniol Addysg
Awdur yr Adroddiad:	Pennaeth Cwsmeriaid a Chefnogaeth Addysg
Teitl:	Cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol ar gyfer Ailddatblygu Ysgol Glan Clwyd

1. **Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Bwriad yr adroddiad yw hysbysu'r Cyngor o'r sefyllfa bresennol o ran cyflwyno Achos Busnes Terfynol y Cyngor ar gyfer Ysgol Glan Clwyd, Llanelwy i Lywodraeth Cymru.

2. **Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae Llywodraeth Cymru eisoes wedi cymeradwyo Achos Amlinellol Strategol (Mai 2013) ac Achos Busnes Amlinellol (Hydref 2013) ar gyfer y prosiect hwn. Mae angen cymeradwyaeth rwan er mwyn i'r Achos Busnes Terfynol gael ei ystyried ar gyfer cael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

3. **Beth yw'r Argymhellion?**

Argymell cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol ar gyfer Ysgol Glan Clwyd.

4. **Manylion yr Adroddiad**

- 4.1 Mae Cynllun Corfforaethol y Cyngor yn rhoi manylion am uchelgais y Cyngor i sicrhau buddsoddiad sylweddol ym mhortffolio Adeiladau Ysgolion y Cyngor rhwng 2012-17. Elfen sylweddol o'r gwaith hwn fydd cyflawni'r prosiectau Band A ar gyfer Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif

Rhoddodd Llywodraeth Cymru gymeradwyaeth mewn egwyddor i roi £36.7 miliwn fel eu cyfraniad o 50% tuag at Raglen Ysgolion yr 21ain Ganrif, sy'n cynnwys 5 prosiect ym mis Rhagfyr 2011. Yn dilyn hyn mae Llywodraeth Cymru wedi gweithio gyda phob awdurdod lleol i ganfod sut y gellir dyrannu'r buddsoddiad llawn o £1.2 biliwn ledled Cymru i ffrydiau gwaith y gellir eu cyflawni gan awdurdodau lleol unigol.

Bydd yn ofynnol i bob prosiect yn Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif ddilyn yr arweiniad ar gyfer cymeradwyo Achosion Busnes fel y'i diffinnir ym Model Trysorlys EM. Ar gyfer prosiectau o dan £5 miliwn, bydd angen cymeradwyo Achos Cyfiawnhad Busnes, ond ar gyfer prosiectau dros £5 miliwn bydd angen cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol, Achos Busnes Amlinellol a'r Achos Busnes Llawn.

- 4.2 Bydd y prosiect yn Ysgol Glan Clwyd yn darparu adeilad ysgol wedi'i ymestyn a'i adnewyddu i ateb y galw cynyddol am addysg cyfrwng Cymraeg yng ngogledd y Sir.

Rhoddodd y Cabinet gymeradwyaeth ym mis Gorffennaf 2013 i neilltuo tua £1.0 miliwn i ariannu gwaith ar Gamau 1 a 2 (Cysyniad a Dyluniad Manwl) a fyddai'n galluogi bwrw ymlaen â'r prosiect i sefyllfa lle gellid gofyn am gymeradwyaeth ar gyfer yr achos busnes llawn a'r cynigion a dderbyniwyd gan y contractwyr.

Ym mis Awst 2014 penodwyd Willmott Dixon yn gontractwr arweiniol yn dilyn cystadleuaeth fechan ymysg y chwe chontractwr a benodwyd i'r band gwerth perthnasol ar gyfer Fframwaith Adeiladu Gogledd Cymru. Maent wedi cael eu cyflogi i gynhyrchu camau dylunio'r ysgol gyda chymalau torri priodol cyn y cam adeiladu.

Cyflwynwyd Adroddiad Dylunio Cam C gan Willmott Dixon i Sir Ddinbych ddiwedd mis Ionawr 2015 ac mae'r ddogfen yn garreg filltir allweddol sy'n crynhoi'r gwaith dichonoldeb a wnaed dros y 4 mis diwethaf.

Yr amcanion allweddol yw:

- Rhoi trosolwg cynhwysfawr o'r gwaith dichonoldeb a wnaed;
- Dangos hyfedredd technegol priodol ar gyfer dylunio'r adeilad a'r safle;
- Cyflwyno gwybodaeth ynglŷn â chostau sy'n dangos y gellir cyflawni'r ysgol o fewn y gyllideb y cytunwyd arni;
- Dangos prif raglen y gellir ei chyflawni ar gyfer y prosiect sy'n adlewyrchu canlyniadau posibl y broses gynllunio;
- Tynnu sylw at unrhyw risgiau sy'n parhau gyda'r prosiect a dangos y gellir lliniaru a rheoli'r rhain drwy gamau nesaf y prosiect;
- Cyflwyno lefel o wybodaeth am ddichonolrwydd i lwyddo i dderbyn cymeradwyaeth am arian gan Sir Ddinbych / Llywodraeth Cymru a galluogi'r awdurdod i symud ymlaen i gamau manwl y prosiect.

- 4.3 Cost gyffredinol y prosiect yn ôl yr adroddiad Cam C oedd £14,175,521. Roedd hyn yn uwch na'r swm a amcangyfrifwyd yn flaenorol o £13,900,000 ar gyfer elfen Willmott Dixon o'r prosiect. Mae un o'r elfennau hyn o ganlyniad i arolygon ychwanegol y mae eu hangen a phenderfyniad i gadw bloc gwyddoniaeth presennol yr ysgol, y cynigiwyd ei ddymchwel, at ddiben addysgol ychwanegol. Wrth gymeradwyo adroddiad Cam C, mae Sir Ddinbych wedi mynegi barn glir y bydd y costau yn gostwng gan oddeutu £80,000 cyn cymeradwyo cam nesaf y prosiect. Mae cyfanswm cost y prosiect yn parhau i fod yn £15,900,000 sy'n cynnwys costau Sir Ddinbych (ffioedd cleientiaid a dylunio) a symiau wrth gefn Cleientiaid.

- 4.4 Bwriad yr Achos Busnes Terfynol sydd ynghlwm yw gofyn am oddeutu 47% o'r cyllid gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r prosiect. Bydd hyn yn golygu bod angen i Sir Ddinbych ddarparu swm o £8,410,060. Bydd y balans rhwng cyllid LIC a CSDd yn galluogi cyllid ar gyfer y 4 prosiect Ysgol Gymunedol o fewn Ysgolion yr 21ain Ganrif (Ysgol Newydd y Rhyl, Ysgol Bro Dyfrdwy ac Ysgol Gymunedol Bodnant, ynghyd ag Ysgol Glan Clwyd) i fod yn gyfartal ar 50/50. Mae'r swm hwn wedi ei gynnwys yn y Cynllun Corfforaethol cyffredinol a'r Cynllun Cyfalaf fel rhan o gyllid cyffredinol Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif.
- 4.5 Mae'r Achos Busnes Terfynol wedi cael ei gyflwyno i Lywodraeth Cymru ar 10 Mawrth 2015 ar yr amod y byddid yn ceisio cymeradwyaeth ffurfiol gan y Cabinet a'r Cyngor ar 24 Mawrth ac 14 Ebrill, 2015, cyn y gwneir y penderfyniad terfynol gan Banel Cyfalaf Llywodraeth Cymru ar 28 Ebrill 2015. Disgwylir y bydd penderfyniad terfynol yn cael ei wneud gan y Gweinidog dros Addysg ym mis Mai 2015.
- 4.6 Disgwylir am yr amserlenni drafft canlynol er mwyn bwrw ymlaen â'r prosiect: -

Gweithgaredd Carreg Filltir	Dyddiad
Cyflwyno Achos Busnes i Lywodraeth Cymru (LIC)	Maw 2015
Asesiad o'r Achos Busnes gan LIC	Ebrill 2015
Cwblhau Cam 2 - Dylunio Manwl	Gorffennaf 2015
Dyfarnu'r Contract	Hydref 2015
Cam 3 - Adeiladu	Tachwedd 2015 - Awst 2017
Trosglwyddiad Terfynol	Awst 2017

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Bydd y gwaith o ddatblygu Rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Rhaglen Foderneiddio Addysg ehangach yn ffactor wrth sicrhau bod y Cyngor yn cyflawni ei ddyhead i wella perfformiad mewn addysg ac ansawdd adeiladau ein hysgolion fel y nodir yng Nghynllun Corfforaethol y Cyngor 2012 – 2017. Bydd y Rhaglen hefyd yn cynorthwyo'r Flaenoriaeth o Ddatblygu'r Economi Leol drwy fuddsoddi gwariant cyfalaf tuag at wella ansawdd adeiladau ysgolion.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Bydd y costau sy'n deillio o brosiect Ysgol Glan Clwyd tua £15.9m. Bydd cymeradwyo'r Achos Busnes Terfynol yn galluogi cytuno ar y contract gyda Llywodraeth Cymru er mwyn galluogi'r awdurdod i sicrhau tua 47% o'r costau targed fel arian cyfatebol. Y Cabinet fydd yn gwneud y penderfyniad terfynol i ddefnyddio Willmott Dixon yn y cam adeiladu.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a wnaed ar y penderfyniad? Dylid atodi templed yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi fel atodiad i'r adroddiad hwn.

Barn yr asesiad o effaith ar gydraddoldeb yw y bydd y cynnig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc sy'n rhannu nodweddion a warchodir. Bydd yr effaith yn cael ei fonitro yn ystod oes y prosiect. Un o brif fuddion y prosiect fydd datrys y problemau sylweddol sy'n bodoli ar y safle ar hyn o bryd gyda nifer o wahanol lefelau yn gwneud ardaloedd mawr o'r adeiladau yn anhygyrch ar hyn o bryd.

8. Pa ymgynghori a wnaed â'r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?

Bu ymgynghori helaeth gyda chymuned yr ysgol yn Ysgol Glan Clwyd wrth ddatblygu'r prosiect hyd yma. Mae hyn wedi cynnwys nifer o gyfarfodydd ymgynghori yn y gymdogaeth i drafod y cynlluniau sy'n amlygu eu hunain ar gyfer adeiladau newydd yr ysgol. Mae Grŵp Aelodau Ardal Elwy a Chyngor Dinas Llanelwy wedi cyfrannu at gynnydd y prosiect.

Ystyriodd y Grŵp Buddsoddi Strategol yr Achos Busnes Terfynol mewn cyfarfod ar 17 Chwefror ac yn dilyn craffu'n helaeth arno cefnogwyd ei argymhell i'r Cabinet. Ystyriodd y Cabinet yr Achos Busnes Terfynol mewn cyfarfod ar 24 Mawrth gan roi cefnogaeth lawn i argymhell bod y Cyngor yn ei gymeradwyo.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid.

Mae hwn yn brosiect strategol allweddol o ran Ysgolion yr 21ain Ganrif a chynllun corfforaethol y Cyngor. Mae'r cyngor eisoes wedi ymrwymo oddeutu £1.0 miliwn tuag at y gwaith cychwynnol sydd wedi arwain at y cynnig hwn. Mae digon o gyllid cyfalaf ar gael i gyflawni'r prosiect ar y gost a ragwelir.

Dyma'r ail brosiect cyfalaf mwyaf i'r Cyngor ei gynnal erioed ac felly mae iddo risg ariannol. Mae gwaith rheoli prosiect da'n allweddol i hyn felly ac mae'n rhaid monitro'r prosiect yn ofalus.

Ar bob cam, rhaid i'r Cyngor fod yn sicr bod pob prosiect yn cynnig gwerth am arian a bod y rhaglen gyffredinol yn fforddiadwy ac y gellir ei chyflawni. Ar y cam hwn yn y rhaglen, mae modd ei gyflawni ac mae'n fforddiadwy.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Os na fydd y prosiect yn derbyn cymeradwyaeth mae perygl na fydd y gwaith a wnaed hyd yma yn cael ei ddatblygu ymhellach. Gellid ystyried fod cymeradwyo'r Achos Amlinellol Strategol ar gyfer y prosiect ym mis Mai 2013 a'r Achos Busnes Amlinellol ym mis Hydref 2013 yn lleihau'r risg y bydd y prosiect yn methu â derbyn cymeradwyaeth derfynol gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn lliniaru hyn cafwyd trafodaethau rheolaidd gyda Llywodraeth Cymru ar gynnydd prosiect Ysgol Glan Clwyd.

Mae'r prosiect cyfan yn cael ei rheoli gan Reolwr Prosiect profiadol, ac mae trefniadau clir ar gyfer rheoli risg yn ystod y prosiect.

11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

Adran 2 Deddf Llywodraeth Leol 2000 / Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

EXECUTIVE SUMMARY

(500 words maximum)

This Full Business Case (FBC) presents a proposal to extend, remodel and refurbish the County's existing Welsh medium secondary school, Ysgol Glan Clwyd, St Asaph to create a school with a capacity of 1250 via delivery of the identified 'preferred option'.

The school as of March 2014 had 968 pupils and is close to its current capacity of 1,000 pupils. The Council in partnership with the Welsh Government has increased the capacity in the Welsh Medium Primary schools which serve Ysgol Glan Clwyd. Current pupil forecasts suggest that the pupil numbers at the school will increase to 1,140 by March 2020. Without this project the Council will be unable to meet the growing demand for Welsh Medium education in the secondary sector.

This will address the following:


- Contribution to raising educational attainment;
- Improving condition – *raise retained School buildings to Condition Category B and any new build to Condition Category A plus elimination of maintenance backlog;*
- Improving suitability – *appropriateness of accommodation to enable delivery of 21st Century accommodation for forecast numbers of pupils on roll up to 1250 places;*
- Better matching of demand for and supply of pupil places – *provision of 1250 places to meet forecast increase in Welsh Medium demand in region, removal of all temporary accommodation;*
- Support delivery of other services – *improve facilities and access to leisure offer and wider community;*
- Quality of Design – *provide an aspirational environment suitable and flexible for delivery of 21st Century education.*

4.20 Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig - Mae'r Panel wedi cael pwerau newydd i ymgynghori ar newidiadau penodol i gyflog y pennaeth gwasanaeth hy cyflog y prif weithredwr, neu i adolygu polisi cyflog yr awdurdodau yn gyffredinol ar gyfer tâl prif weithredwr. Gall y Panel wneud argymhellion ar newidiadau arfaethedig yn ôl at yr awdurdod.

5 Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu'r penderfyniadau a wnaed gan y Panel ac nid yw'n cyfrannu ynddo'i hun at y Blaenoriaethau corfforaethol.

6 Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Mae adroddiad blynyddol y Panel yn parhau gyda lefelau tâl 2014/2015 sydd wedi'u cynnwys yn y cyllidebau presennol.

7 Pa ymgynghori a wnaed, ac a gynhaliwyd Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb?

7.1 Nododd y Pwyllgor Gwasanaethau Democraataidd Adroddiad Blynyddol y Panel Annibynnol ar Gydnabyddiaeth Ariannol ym mis Mawrth. Nid oes Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei gynnal ar gyfer yr adroddiad hwn.

8 Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

8.1 Mae'r cynigion fel y'u rhestrir wedi'u cynnwys o fewn yr adnoddau presennol ac felly nid ydynt yn creu pwysau ychwanegol ar y gyllideb.

9 Pa risgiau sy'n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

9.1 Rhaid i ran fwyaf o'r taliadau a nodir yn yr adroddiad blynyddol fod ar gael i aelodau ac aelodau cyfetholedig ac mae cyllideb wedi'i ddyrannu i dalu am y taliadau.

10 Pŵer i wneud y Penderfyniad

10.1 Adran 111 Deddf Llywodraeth Leol 1972

10.2 Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011



Atodiad 1

Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol

Adroddiad Blynyddol

Chwefror 2015

Tudalen 67



ISBN digidol 978 1 4734 3014 3
© Hawlfraint y Goron 2015
WG23057

Rhagair



Dyma'n seithfed Adroddiad Blynyddol ers sefydlu'r Panel yn 2008 a'r pedwerydd Adroddiad Blynyddol ers cymeradwyo Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 ('y Mesur')¹.

Yn 2013 ailymwelon â'r 22 prif awdurdod, y 3 Awdurdod Parc Cenedlaethol a'r 3 Awdurdod Tân ac Achub i drafod sut oedd ein

penderfyniadau'n gweithio'n ymarferol a pha faterion y dylen ni ymdrin â hwy yn ein Hadroddiad Blynyddol. Arweiniodd hyn at nifer o newidiadau sylweddol i fframwaith cydnabyddiaeth ariannol y Panel yn ei Adroddiad Blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2014.

Yn yr adroddiad hwnnw, ac er mwyn galluogi hyblygrwydd ar lefel leol, cyflwynodd y Panel gyfle i brif awdurdodau wneud cais am gyflogau uwch penodol neu ychwanegol y tu allan i'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol. Hyd yma dim ond un cais a dderbyniwyd.

Eleni, penderfynasom wneud gwaith pellach ar dâl penaethiaid dinesig. Dosbarthodd y Panel holiadur a threfnodd dair sesiwn rhanbarthol gyda'r swyddogion hwnnw sy'n rhoi cymorth i benaethiaid dinesig a'u dirprwyon ganfod faint o ddefnydd a wneir o'r hyblygrwydd lleol sydd bellach wedi cael ei gyflwyno i'n fframwaith ac i gasglu mwy o wybodaeth am y tâl a'r cymorth a roddir i'r swyddogaethau dinesig.

Fe wnaethom hefyd ddisbarthu holiadur at glercod yr holl gynghorau tref a chymuned yng Nghymru i sefydlu i ba raddau yr oedd y cynghorau hynny wedi defnyddio'r penderfyniad yn ein Hadroddiad Blynyddol yn Rhagfyr 2012, oedd yn galluogi iddynt wneud taliad o uchafswm o £100 y flwyddyn i bob un o'u haelodau am gostau a wariwyd mewn perthynas â defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, nwyddau traul ac ati. Dim ond 11.5% o'r 735 o gynghorau a ymatebodd oedd yn siomedig iawn ac yn golygu na all y Panel gael darlun clir o'r defnydd a wneir o'r trefniant caniataol hwn.

Y llynedd, penderfynodd y Panel, o gofio bod y cyfyngiadau ar gyflogau sector cyhoeddus wedi'u llacio fymryn bach, gynyddu cyflog sylfaenol aelodau prif awdurdodau 0.9% o wanwyn 2014 ymlaen a chynyddu taliadau eraill yn gymesur â hynny. Eleni rydym wedi penderfynu na fydd unrhyw gynnydd mewn tâl yn 2015/16 o ystyried y cyfyngiadau sy'n parhau ar wariant llywodraeth leol.

Mae'r Panel yn dal i fod yn bryderus am anghysondeb y cymorth a roddir i aelodau i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau yn effeithiol ac mae wedi gwneud nifer o ddiwygiadau i'w benderfyniadau blaenorol i sicrhau bod mwy o gysondeb ledled Cymru. Rydym hefyd yn pryderu nad yw rhai cynghorwyr bob amser wedi gwneud defnydd llawn o'r gefnogaeth a ddarparwyd drwy fframwaith cydnabyddiaeth ariannol y Panel ac mae'n annog pawb sy'n gysylltiedig â hyn i sicrhau bod penderfyniadau'r Panel yn cael eu gweithredu'n llawn, a bod cynghorwyr unigol yn cael eu hannog i fanteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael gan gynnwys y Lwfans Gofal.

¹ <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/contents/enacted>.

Mae'r Panel wedi nodi adroddiadau yn y cyfryngau sy'n awgrymu bod nifer o awdurdodau lleol yn bwriadu gwneud penderfyniad neu wedi gwneud penderfyniad ar ran yr holl aelodau i beidio â gweithredu'r cynnydd cymedrol yn y cyflog sylfaenol a thaliadau eraill. Mae Swyddogion Monitro wedi cael eu hatgoffa gan y Panel y byddai unrhyw benderfyniad o'r fath yn ultra vires, ac mae'n ymddangos nad oes unrhyw awdurdod lleol mewn gwirionedd wedi gwneud penderfyniad o'r fath.

Diwygiodd Llywodraeth Cymru Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 drwy fewnosod adran 143A sy'n galluogi'r Panel i ystyried unrhyw newid i gyflog Pennaeth y Gwasanaeth Taledig (y Prif Weithredwr neu'r Prif Swyddog Tân fel arfer) neu unrhyw beth yn Natganiad ar Bolisiau Tâl awdurdod sy'n ymwneud â'r swydd hon. Ers hynny mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar hyn i'r Panel.

Mae'r Panel wedi parhau i gyfrannu lle bynnag y bo'n bosibl at wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol yng Nghymru trwy ei benderfyniadau. Mae hefyd wedi cymryd camau i helpu ehangu aelodaeth y Panel pan fydd y cyfle'n ymddangos.

Mae'r Panel yn ymwybodol iawn o'r ffordd y mae Llywodraeth Cymru yn bwrw ymlaen â gwaith y Comisiwn ar Lywodraethu a Darparu Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd yn cydweithio'n agos â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i baratoi ar gyfer gweithredu'r gwahanol Ddeddfau a fydd yn penderfynu ar ffurf llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol.

Mae penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2015/16 i'w gweld yn Atodiad 1.

I gloi, hoffwn ddatgan ar ran y Panel pa mor ddiolchgar ydym i swyddogion Llywodraeth Cymru, sy'n gweithredu fel ein hysgrifenyddiaeth, am eu cefnogaeth i'n gwaith.

Richard Penn
Cadeirydd

Cynnwys

Crynodeb o Daliadau i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig Prif Gyngorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub Cymru yn 2015/16	1
1. Cyflwyniad.....	5
2. Fframwaith y Panel: egwyddorion cydnabyddiaeth ariannol	9
3. Taliadau i Aelodau Etholedig Prif Gyngorau: Cyflogau Sylfaenol, Uwch a Dinesig.....	11
4. Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu.....	22
5. Darpariaeth Pensiwn ar gyfer Aelodau Etholedig Prif Gyngorau	23
6. Taliadau i Aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol	24
7. Taliadau i Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub Cymru.....	28
8. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig Prif Gyngorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub	31
9. Uwch Gyflogau Penodol neu Ychwanegol	34
10. Taliadau i Aelodau Cyngorau Tref a Chymuned	35
11. Cyflogau Penaethiaid Gwasanaeth Taledig Prif Gyngorau ac Awdurdodau Tân ac Achub	38
12. Cydymffurfiaeth â Gofynion y Panel.....	40
Atodiad 1: Penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2015/16.....	41
Atodiad 2: Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol	46
Atodiad 3: Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau.....	60
Atodiad 4: Gofynion Cyhoeddusrwydd.....	62
Atodiad 5: Canllaw Llywodraeth Cymru i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn Cysylltiad â Chyflogau Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol	63

Crynodeb o Daliadau i Aelodau ac Aelodau Cyfetholedig Prif Gynghorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub Cymru yn 2015/16

Tabl 1: Nifer yr aelodau cyngor sy'n gymwys i dderbyn uwch gyflog

Cyngor	Nifer y cynghorwyr	Nifer yr uwch gyflogau
Grŵp A		
Caerdydd	75	19
Rhondda Cynon Taf	75	19
Abertawe	72	19
Grŵp B		
Pen-y-bont ar Ogwr	54	18
Caerffili	73	18
Sir Gaerfyrddin	74	18
Conwy	59	18
Sir y Fflint	70	18
Gwynedd	75	18
Castell-nedd Port Talbot	64	18
Casnewydd	50	18
Sir Benfro	60	18
Powys	73	18
Bro Morgannwg	47	18
Wrecsam	52	18
Grŵp C		
Blaenau Gwent	42	17
Ceredigion	42	17
Sir Ddinbych	47	17
Ynys Môn	30	15
Merthyr Tudful	33	16
Sir Fynwy	43	17
Tor-faen	44	17

Nodiadau Tabl 1

- (i) Yn ddilyn cychwyn darpariaethau Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth)(Cymru) 2013, nid oes angen bellach i'r Panel fynegi'r terfyn ar uwch gyflogau mewn canrannau. Dylid cofio, er hynny, fod y Mesur yn cyfyngu uchafswm nifer yr uwch gyflogau i 50% o aelodau'r cyngor, oni bai bod Gweinidogion Cymru'n cytuno y gall y Panel bennu cyfran uwch. Mae i hyn oblygiadau ar gyfer Merthyr Tydful lle'r uchafswm nifer yw 16 ac ar gyfer Ynys Môn lle'r nifer cyfatebol yw 15 (mae'r ddau hynny'n cynnwys cyflogau dinesig mewn perthynas â swyddi pennaeth dinesig a dirprwy bennaeth dinesig.²

² Gweler Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011: Adran 142; is-adran 5

- (ii) Nid yw'r cyflogau dinesig mewn perthynas â phennaeth dinesig a dirprwy bennaeth dinesig yn cyfrif tuag at y gyfran uchaf o uwch gyflogau y caniateir i gyngor eu talu (ar wahân i Ynys Môn a Merthyr Tudful).

Tabl 2: Bydd cyflogau sylfaenol ac uwch gyflogau'n daladwy fel a ganlyn i aelodau prif gynghorau

Cyflog sylfaenol (taladwy i bob aelod etholedig) £13,300			
	Grŵp A (Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe))	Grŵp B (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg, Wrecsam)	Grŵp C (Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Tor-faen, Ynys Môn)
Uwch gyflogau (yn cynnwys cyflog sylfaenol)			
Band 1			
Arweinydd	£53,000	£48,000	£43,000
Dirprwy arweinydd	£37,000	£33,500	£30,000
Band 2			
Swyddogion gweithredol eraill	£32,000	£29,000	£26,000
Band 3			
Cadeiryddion Pwyllgorau:		£22,000	
Band 4			
Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf ³		£22,000	
Band 5			
Arweinydd grwpiau gwleidyddol eraill		£17,000	

Nodiadau Tabl 2

- (i) Mae'r Panel wedi penderfynu bod yn rhaid i gyngor sicrhau bod uwch gyflog ar gael i arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf (yn amodol ar y gofyniad 10%).

³ Arweinydd grŵp yr wrthblaid fwyaf. Gweler Rheoliadau IRPW, Atodiad 2, Rhan 1(2) ar gyfer diffiniad o "grŵp yr wrthblaid fwyaf" a "grŵp gwleidyddol mwyaf".

Tabl 3: Bydd cyflogau dinesig (lle'u telir) yn daladwy fel a ganlyn i aelodau prif gynghorau

Cydnabyddiaeth ariannol i arweinwyr dinesig a dirprwy arweinwyr dinesig (yn cynnwys cyflog sylfaenol)		
	Arweinwyr dinesig	Dirprwy arweinwyr dinesig
a	24,000	18,000
b	21,500	16,000
c	19,000	14,000

Tabl 4: Ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig (gyda hawliau pleidleisio) awdurdodau lleol (gan gynnwys awdurdodau parciau cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub)

Cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau archwilio	£256 (4 awr a throsodd) £128 (hyd at 4 awr)
Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cynghorau cymuned a thref.	£226 ffi ddyddiol (4 awr a throsodd) £113 (hyd at 4 awr)
Aelodau cyffredin pwyllgorau safonau; pwyllgor craffu addysg; pwyllgor craffu troseddu ac anhrefn a phwyllgor archwilio	£198 (4 awr a throsodd) £99 (hyd at 4 awr)

Tabl 5: Bydd cyflogau sylfaenol ac uwch gyflogau'n daladwy fel a ganlyn i aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Cyflog sylfaenol	£3,600
Uwch gyflogau (yn cynnwys cyflog sylfaenol)	
Cadeirydd ⁴ (Band 3) Dirprwy gadeirydd/ cadeirydd y pwyllgor (gweler nodyn i)	£12,300
Lefel 1	£7,300
Lefel 2	£6,000

⁴ Bannau Brycheiniog, Arfordir Penfro, Eryri

Tabl 6: Bydd cyflogau sylfaenol ac uwch gyflogau'n daladwy fel a ganlyn i aelodau awdurdodau tân ac achub Cymru

Cyflog sylfaenol	£1,700
Uwch gyflogau	
Cadeirydd ⁵ (Band 3)	£10,400
Dirprwy gadeirydd	£ 5,400
/ Cadeirydd y pwyllgor (gweler nodyn i)	£ 5,400

Nodiadau Tablau 5 a 6

- (i)** Gellir talu uwch gyflogau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub i'r cadeirydd, dirprwy gadeirydd, a hyd at ddau aelod arall.
- (ii)** Gall Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub Cymru, fel yn achos prif gynghorau, benderfynu ar uchafswm y diwrnodau y gellir talu aelodau cyfetholedig amdanynt mewn blwyddyn.

⁵ Y Canolbarth a'r Gorllewin, y Gogledd, y De

1. Cyflwyniad

- 1.1 Dyma seithfed Adroddiad Blynyddol Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol, a'r pedwerydd i gael ei gyhoeddi o dan ofynion y Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Ymestynnodd y Mesur gyfrifoldebau'r Panel a'i bwerau dan Adran 142 i benderfynu ar daliadau neu i bennu taliadau i aelodau o awdurdodau perthnasol. Roedd hyn yn galluogi'r Panel i symud y tu hwnt i'r cyfyngiad blaenorol o osod terfynau uchaf ar gyfer taliadau aelodau ac mae'r Panel wedi gallu defnyddio'r pŵer hwn o bennu o Ebrill 2012. Fe wnaeth y Mesur hefyd ymestyn cylch gwaith y Panel i gynnwys cyfrifoldeb am dâl aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol (APCau), Awdurdodau Tân ac Achub (ATA) a chynghorau tref a chymuned
- 1.2 Mae'r Panel, a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru yn 2008, bellach ar ei seithfed flwyddyn. Mae'n cynnwys pum aelod a benodwyd gan y Gweinidog ar y pryd, Richard Penn, John Bader, Anne Abel, Stephen Mulholland a Gregory Owens. Richard Penn yw'r aelod o'r Panel a benodwyd gan y Gweinidog yn Gadeirydd a John Bader yw'r Is-gadeirydd a etholwyd gan aelodau'r Panel.
- 1.3 Yn y penderfyniadau ar gyfer yr Adroddiad Blynyddol hwn, mae'r Panel wedi parhau i ystyried fforddiadwyedd a derbynioldeb, o ystyried y cyfngiadau parhaus ar gyllidebau awdurdodau lleol.
- 1.4 Er y bu cynnydd yn y boblogaeth ledled Cymru, ni nododd cyfrifiad 2011⁶ fod hyn wedi bod yn ddigonol i symud unrhyw brif gyngor i grŵp poblogaeth uwch ac nid yw Fframwaith y Panel wedi newid o ran grwpiau poblogaeth.
- 1.5 Fel gydag adroddiadau blaenorol y Panel, ac i'r un graddau yn awr o dan y Mesur, mae ei benderfyniadau ar daliadau aelodau'n seiliedig ar gyfres o egwyddorion a nodir yn Adran 2 yr Adroddiad Blynyddol hwn.
- 1.6 Mae'r Panel yn parhau'n bendant o'r farn na ellir cynnal gwerthoedd democrataidd llywodraethu leol heb fynd i gostau. Mae aelodau awdurdodau lleol (gan gynnwys aelodau cyfetholedig ac aelodau penodedig) yno i gynrychioli buddiannau pobl leol, llywodraethu cymunedau lleol, a sicrhau gwasanaethau cyhoeddus sy'n cynnig gwerth am arian i drethdalwyr lleol drwy graffu effeithiol. Mae'r rhain yn dasgau pwysig a sylweddol i awdurdodau perthnasol o fewn cylch gwaith y Panel. Mae cydnabyddiaeth ariannol a gyllidir yn gyhoeddus ar gael i annog amrywiaeth o bobl barod a galluog i fynd ati i lywodraethu'n lleol, drwy'r rolau y cânt eu hethol, eu penodi neu eu cyfethol iddynt.
- 1.7 Wrth bennu lefel y taliadau i aelodau cynghorau lleol, hyd yma mae'r Panel wedi ceisio cydymffurfio â'r egwyddor o '*dderbynioldeb*' drwy sicrhau nad yw'r rhain '*mor uchel fel bod angen dargyfeirio adnoddau sylweddol o flaenoriaethau allweddol cyngor*'. Ond mae Adran 142(8) o'r Mesur yn fwy eglur ar '*fforddiadwyedd*' wrth nodi "*wrth osod swm⁷ ... rhaid i'r Panel ystyried beth yn ei farn ef fydd effaith ariannol debygol gwneud hynny ar awdurdodau perthnasol*".

⁶ 2011 Tabl CP04 y Cyfrifiad. Poblogaeth breswyl arferol bod oedran, awdurdodau unedol yng Nghymru

⁷ <http://www.legislation.gov.uk/mwa/2011/4/contents/enacted>.

Mae bodloni gofyniad y Mesur o ran fforddiadwyedd wedi bod yn her i'r Panel, yn enwedig oherwydd diddordeb y cyhoedd mewn taliadau a wneir i aelodau. Mae'r Panel yn cydnabod bod y mater o fforddiadwyedd – mewn perthynas â chyllidebau gwasanaethau awdurdodau perthnasol ac i incwm gwario etholwyr – yn debygol o effeithio'n bwerus ar farn y cyhoedd am unrhyw gynnydd arfaethedig i daliadau aelodau.

- 1.8 Gan mai arian o bwrs y wlad a ddefnyddir, mae'n rhaid i daliadau i aelodau am eu hamser, gwerth a chyfrifoldeb fod yn deg ac yn fforddiadwy. Roedd penderfyniadau'r Panel yn ei Adroddiad 2009 yn cysylltu taliadau ag enillion gros canolrifol gweithwyr llawn amser sy'n byw yng Nghymru, fel yr adroddwyd yn yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion (ASHE). Pennwyd y cyflog sylfaenol ar dair rhan o bump o Gyflog Canolrifol Cymru Gyfan, ac fe bennwyd uwch gyflogau ar luosrifau o'r cyflog canolrifol blynyddol hwn. Wrth bennu'r cyflogau hyn, roedd y Panel yn cydnabod bod yna gyfranogiad gwasanaeth cyhoeddus di-dâl.
- 1.9 O ystyried y llacio cymedrol iawn yn y cyfyngiadau ar dâl y sector cyhoeddus a hefyd er mwyn atal erydu pellach ar lefelau cymharol y tâl, penderfynodd y Panel y llynedd gynyddu'r cyflog sylfaenol o 0.9% o wanwyn 2014 ymlaen ac mae taliadau eraill yn cael eu heffeithio yn gymesur â hynny. Roedd y Panel yn ystyried y byddai hyn yn mynd ychydig tuag at atal erydu pellach yng ngwerth cymharol y cyflog sylfaenol a delir fel cydnabyddiaeth am y dyletswyddau a ddisgwylir gan bob aelod etholedig. Eleni, gwelwyd y cyfyngiadau difrifol ar adnoddau llywodraeth leol yn parhau gydag awdurdodau lleol yn cael eu gorfodi i leihau gwariant ar wasanaethau i'r cyhoedd. Yng ngoleuni hyn, mae'r Panel, gyda pheth gofid, wedi penderfynu peidio â chynyddu'r tâl yn 2015/16. Bydd hyn yn amharu ymhellach ar yr aliniad ag enillion gros canolrifol yng Nghymru oedd yn sail i'r cyflog sylfaenol a osodwyd yn 2009. Mae hwn yn fater y mae'r Panel yn bwriadu ailedrych arno ar adeg briodol yn y dyfodol.
- 1.10 Yn 2013, fe wnaethom benderfynu edrych eto ar y 22 prif awdurdod, y 3 awdurdod parc cenedlaethol (APC) a'r 3 awdurdod tân ac achub (ATA) i drafod sut roedd ein penderfyniadau yn gweithio yn ymarferol a pha faterion y dylem roi sylw iddynt yn Adroddiad Blynyddol 2014. Eleni, fe wnaethom benderfynu canolbwyntio ar dâl penaethiaid dinesig. Dosbarthodd y Panel holiadur a threfnodd sesiynau rhanbarthol gyda swyddogion sy'n rhoi cymorth i benaethiaid dinesig a'u dirprwyon i ganfod faint o ddefnydd a wnaed o'r hyblygrwydd lleol a gafodd ei ymgorffori yn y fframwaith y llynedd ac i gasglu mwy o wybodaeth am dâl penaethiaid dinesig a dirprwy benaethiaid dinesig. Mae'n amlwg er y bu amrywiad rhwng cynghorau o ran talu penaethiaid dinesig a'u dirprwyon, fod tâl, ar y cyfan, wedi'i alinio â'r grŵp poblogaeth ar gyfer pob cyngor yn hytrach na chymryd y cyfle i asesu'r cyfrifoldebau a'r llwythi gwaith dan sylw.
- 1.11 Fe wnaethom hefyd ddsbarthu holiadur at glercod yr holl gynghorau tref a chymuned yng Nghymru i weld i ba raddau yr oedd y cynghorau hynny wedi defnyddio'r penderfyniad yn ein Hadroddiad Blynyddol yn Rhagfyr 2012 a oedd yn galluogi'r cynghorau hynny i roi taliad o uchafswm o £100 y flwyddyn i bob un o'u haelodau ar gyfer costau a wariwyd mewn perthynas â defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, nwyddau traul ac ati. Cafwyd ymateb siomedig iawn, gyda llai nag 11.5% o'r holiaduron yn cael eu llenwi a dychwelyd felly ni fu'n

bosibl cael darlun clir o'r sefyllfa. Bydd y Panel yn casglu mwy o dystiolaeth ac yn ymgynghori eto gyda chynghorau tref a chymuned yng Nghymru yn 2015 i ddatblygu'r fframwaith cydnabyddiaeth ariannol sy'n berthnasol i'r cynghorau hyn ymhellach.

- 1.12 Mae'r Panel yn dal yn bryderus ynglŷn â'r amrywiadau mawr a'r anghysondeb o ran y cymorth a ddarperir i aelodau i'w galluogi i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol. Mae'r Panel wedi pennu y dylid darparu cymorth o'r fath heb gost i'r aelod etholedig unigol. Mae'n rhaid i gostau cymorth fod yn briodol, yn rhesymol a chael eu datgan yn gyhoeddus. Ni chaiff awdurdodau dynnu symiau o gyflogau aelodau fel cyfraniad at y costau cymorth hynny y mae'r awdurdod yn eu hystyried yn angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau. Ond mae'r Panel yn ymwybodol nad yw nifer o awdurdodau wedi gweithredu penderfyniadau'r Panel yn llawn yn y maes hwn ac mae felly wedi gwneud newidiadau i'w benderfyniadau blaenorol i sicrhau bod mwy o gysondeb ledled Cymru. Mae'r Panel yn pryderu hefyd nad yw cynghorwyr bob amser wedi defnyddio'r gefnogaeth a ddarparwyd drwy fframwaith cydnabyddiaeth ariannol y Panel, yn enwedig o ran y Lwfans Gofal. Mewn rhai achosion, mae hyn oherwydd nad yw swyddogion perthnasol y cyngor bob amser yn gweithredu penderfyniadau'r Panel yn llawn ar lefel leol ond yn fwy aml oherwydd bod rhai aelodau yn amharod i hawlio'r cyfan y mae ganddynt hawl iddo i'w cefnogi yn eu gwaith, yn enwedig y Lwfans Gofal, oherwydd pryderon ynghylch y cyhoeddusrwydd gwael y gallai hyn ei ddenu. Mae'r Panel yn annog pawb sy'n gysylltiedig â hyn i sicrhau bod penderfyniadau'r Panel yn cael eu gweithredu'n llawn, a bod aelodau unigol yn cael eu hannog i fanteisio ar yr holl gymorth sydd ar gael gan gynnwys y Lwfans Gofal.
- 1.13 Mae'r Panel wedi bod yn bryderus ynghylch adroddiadau yn y cyfryngau sy'n awgrymu bod rhai awdurdodau lleol yn bwriadu gwneud penderfyniad ar ran yr holl aelodau i beidio â gweithredu'r cynnydd cymedrol yn y cyflog sylfaenol eleni a thaliadau eraill. Ysgrifennodd Ysgrifenyddiaeth y Panel at bob Swyddog Monitro i'w hatgoffa y byddai unrhyw benderfyniad o'r fath yn *ultra vires*, ac mae'n ymddangos nad oes unrhyw awdurdod lleol mewn gwirionedd wedi gwneud penderfyniad o'r fath.
- 1.14 Diwygiodd Adran 63 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 Fesur Llywodraeth Leol 2011(Cymru) drwy fewnosod Adran 143A. Mae hyn yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw Brif Gyngor neu Awdurdod Tân ac Achub sy'n bwriadu newid cyflog Pennaeth y Gwasanaeth Taledig, ymgynghori â'r Panel oni bai bod y newid yn cyd-fynd â newidiadau a gymhwyswyd at swyddogion eraill. Mae Adran 143A hefyd yn galluogi'r Panel i ystyried unrhyw beth yn Natganiad ar Bolisïau Tâl awdurdod sy'n ymwneud â chyflog Pennaeth y Gwasanaeth Taledig (y Prif Weithredwr neu'r Prif Swyddog Tân fel arfer). Nodir ymagwedd y Panel tuag at weithredu'r pŵer hwn yn Adran 11 o'r adroddiad hwn ac mae'n unol â'r cyfarwyddyd a gyhoeddwyd i'r Panel gan Lywodraeth Cymru y gellir ei weld yn Atodiad 5.
- 1.15 Mae'r Panel wedi parhau i gyfrannu lle bynnag y bo'n bosibl at wella amrywiaeth mewn llywodraeth leol yng Nghymru trwy ei benderfyniadau. Mae hefyd wedi cymryd camau ynghyd â'r Uned Penodiadau Cyhoeddus dylai helpu ehangu aelodaeth y Panel pan fydd y cyfle yn ymddangos. Ymatebodd y Panel

i wahoddiad gan y Gweinidog Llywodraeth Leol a Busnes y Llywodraeth i adrodd ar ei waith i gynyddu amrywiaeth o fewn ei aelodaeth. Gellir gweld yr adroddiad ar wefan y Panel.⁸

- 1.16 Mae adran 153 y Mesur yn rhoi pŵer i'r Panel i fonitro cydymffurfiaeth awdurdodau perthnasol â'i ofynion. Datgelodd archwiliad o lefel y cydymffurfio gan brif awdurdodau oedd gan dros hanner y cynghorau ddiffygion sylweddol o ran y gofynion sy'n ymwneud â rhestr o gydnabyddiaeth ariannol aelodau a'r gofynion cyhoeddi fel y nodir yn adroddiadau blynyddol. Er fe godwyd pryderon penodol gydag awdurdodau unigol a gymerwyd camau i roi sylw iddynt, mae'r Panel yn parhau i bwysleisio pwysigrwydd darparu gwybodaeth gywir ac amserol ynghylch taliadau i gynghorwyr a'r gallu cael mynediad rhwydd iddynt gan aelodau o'r cyhoedd. Yng ngwanwyn 2015, bydd aelodau'r Panel yn cyfarfod â swyddogion y gwasanaeth democrataidd i drafod mesurau i gyflawni gwella cysondeb a rhwyddineb mynediad i'r wybodaeth hwn yn y dyfodol.
- 1.17 Mae'r Panel yn cydnabod y pwysigrwydd mae Llywodraeth Cymru yn ei roi ar graffu effeithiol fel elfen hanfodol o'r system gabinet o lywodraeth leol. Ers i'r Panel gael ei ffurfio, mae'r aelodau wedi ymweld â phob Prif Gyngor yn 2009 a 2013. Mae yna arwydd clir yn ystod y cyfnod rhwng yr ymweliadau y bu datblygiadau calonogol yn y modd y mae gwaith craffu yn cael ei wneud er bod anghysondeb yn y modd y mae'n cael ei gyflwyno . Mae'r Panel wedi cyfarfod â Phanel Cyfeirio Craffu Llywodraeth Cymru a bydd yn defnyddio canlyniadau ymchwil y Panel hwnnw i fod yn sail i benderfyniadau yn y dyfodol mewn perthynas â'r swyddogaeth graffu.
- 1.18 Mae'r Panel yn ymwybodol iawn hefyd o'r modd y mae Llywodraeth Cymru yn symud ymlaen â gwaith y Comisiwn ar Lywodraethu a darparu Gwasanaethau Cyhoeddus a bydd yn cydweithio'n agos â Chomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru i baratoi ar gyfer gweithredu'r ddeddfwriaeth a fydd yn penderfynu ar ffurf llywodraeth leol yng Nghymru yn y dyfodol.

⁸ <http://wales.gov.uk/irpwsb/home/publication/201415/report-to-minister-on-diversity-irp/?lang=cy>

2. Fframwaith y Panel: egwyddorion cydnabyddiaeth ariannol

Cynnal ymddiriedaeth a hyder

- 2.1 Mae gan ddinasyddion yr hawl i ddisgwyl bod pawb sy'n dewis gwasanaethu mewn awdurdodau cyhoeddus yn cynnal ymddiriedaeth y cyhoedd drwy goleddu'r gwerthoedd a'r foeseg sy'n ymhyg mewn gwasanaeth cyhoeddus o'r fath. Dengys yr egwyddorion y cyfraniad a wna gwaith y Panel a'i fframwaith tuag at gynnal ymddiriedaeth a hyder y cyhoedd

Symlrwydd

- 2.2 Mae'r fframwaith yn glir ac yn hawdd ei ddeall. Mae hyn yn hanfodol er mwyn i'r Panel allu cyfleu ei flaenoriaethau yn effeithiol i bawb yr effeithir arnynt gan ei waith neu sydd â diddordeb ynddo.

Cydnabyddiaeth ariannol

- 2.3 Mae'r fframwaith yn darparu ar gyfer talu aelodau awdurdodau cyhoeddus sydd â chyfrifoldeb am wasanaethu eu cymunedau daearyddol neu eu cymunedau buddiant a nodwyd. Ni ddylai lefel y gydnabyddiaeth ariannol fod yn rhwystr i ymgymryd â'r gwaith na pharhau ag ef. Ni ddylai fod unrhyw ofyniad bod adnoddau sy'n angenrheidiol i'w galluogi i gyflawni dyletswyddau yn cael eu hariannu o'r cyflog. Mae'r Fframwaith yn rhoi tâl ychwanegol i'r rhai sy'n cael mwy o gyfrifoldeb.

Amrywiaeth

- 2.4 Atgyfnerthir democratiaeth pan fydd aelodaeth awdurdodau cyhoeddus yn adlewyrchu'n ddigonol gyfansoddiad demograffig a diwylliannol y cymunedau a wasanaethir gan y cyfryw awdurdodau. Bydd y Panel bob amser yn ystyried pa gyfraniad y gall ei fframwaith ei wneud tuag at annog y rhai heb gynrychiolaeth ddigonol i gymryd rhan ar lefel awdurdod lleol.

Atebolrwydd

- 2.5 Mae gan drethdalwyr a dinasyddion yr hawl i ddisgwyl cael gwerth am arian o arian cyhoeddus sydd wedi'i neilltuo i dalu'r rhai a etholir, a benodir, neu a gyfetholir i wasanaethu er budd y cyhoedd. Mae'r Panel yn gweithio i sicrhau bod pob prif gyngor yn darparu gwybodaeth am weithgareddau eu haelodau o ran cefnogi gwasanaethau cyhoeddus. Yn benodol, mae'r Panel yn disgwyl i gynghorwyr pob awdurdod lleol lunio adroddiad blynyddol ar eu gweithgarwch sy'n ymwneud â'r cyngor.

Tegwch

- 2.6 Fel prawf hanfodol o degwch y fframwaith, mae'r Panel yn sicrhau bod ei benderfyniadau ar gydnabyddiaeth ariannol i aelodau yn ystyried enillion

etholwyr Cymru. Bydd yn bosibl cymhwyso'r fframwaith yn gyson i aelodau pob awdurdod cyhoeddus er mwyn sicrhau bod lefelau cydnabyddiaeth ariannol yn deg, yn fforddiadwy ac yn gyffredinol dderbyniol.

Ansawdd

- 2.7 Mae'r Panel yn cydnabod bod y gymysgedd gymhleth o ddyletswyddau llywodraethu, craffu a rheoleiddio sydd gan aelodau prif gynghorau yn ei gwneud yn ofynnol i bob aelod ymgysylltu â'r gwaith o wella ansawdd yn barhaus. Mae'r Panel yn disgwyl i bob aelod o awdurdod lleol ymgymryd â'r cyfleoedd hyfforddi a datblygiad personol hynny sy'n angenrheidiol i gyflawni'n briodol y dyletswyddau y cânt gydnabyddiaeth ariannol amdanynt.

Tryloywder

- 2.8 Mae sicrhau tryloywder cydnabyddiaeth ariannol aelodau er budd y cyhoedd. Mae rhai aelodau yn derbyn lefelau ychwanegol o gydnabyddiaeth ariannol am eu bod wedi'u hethol, neu eu penodi, i fwy nag un corff cyhoeddus. Mae'r fframwaith yn fodd o sicrhau bod gwybodaeth am holl gydnabyddiaeth ariannol holl aelodau ar gael yn hawdd i'r cyhoedd.

3. Taliadau i Aelodau Etholedig Prif Gyngorau: Cyflogau Sylfaenol, Uwch a Dinesig

Cyflog Sylfaenol ar gyfer Aelodau Etholedig o Brif Gyngorau

- 3.1 Yn wyneb yr hinsawdd ariannol gyfredol yn y sector cyhoeddus a'r cynnydd o 0.9% yn y Cyflog Sylfaenol yn Adroddiad Blynyddol y Panel Adolygu Annibynnol fis Chwefror 2014, mae'r Panel wedi penderfynu na fydd unrhyw gynnydd o wanwyn 2015 ymlaen yn lefel y Cyflog Sylfaenol i aelodau'r prif awdurdodau lleol.

Penderfyniad 1: Bydd y cyflog sylfaenol yn 2015/16 ar gyfer aelodau etholedig y prif gyngorau'n aros yn £13,300.

Nodyn ar Benderfyniad 1:

Yn wreiddiol, penderfynodd y Panel (Adroddiad Blynyddol y Panel Adolygu Annibynnol Rhagfyr, 2009) y byddai taliad y cyflog sylfaenol yn cael ei gysoni ag enillion gros canolrifol gweithwyr llawn amser sy'n byw yng Nghymru, fel yr adroddwyd yn yr Arolwg Blynyddol ar Oriau ac Enillion (ASHE). O gofio am y pwysau sydd ar wariant cyhoeddus, nid oedd posib cynnal y cysoni hwn. Bydd y Panel yn edrych eto mewn adroddiad yn y dyfodol ar y sail ar gyfer penderfynu ar y cyflog sylfaenol.

Uwch Gyflogau ar gyfer Aelodau Etholedig Prif Gyngorau

- 3.2 Bydd y cyfyngiad ar nifer yr uwch gyflogau taladwy ('y cap') yn parhau. Yn 2015/16, ni fydd uchafswm yr uwch gyflogau sy'n daladwy ym mhob prif awdurdod yn cael ei newid a bydd fel yr hyn a nodir yn Nhabl 1.

Tabl 1: Nifer yr aelodau cyngor sy'n gymwys i dderbyn uwch gyflog

Cyngor	Nifer y cyngorwyr	Nifer yr uwch gyflogau
Grŵp A		
Caerdydd	75	19
Rhondda Cynon Taf	75	19
Abertawe	72	19
Grŵp B:		
Pen-y-bont ar Ogwr	54	18
Caerffili	73	18
Sir Gaerfyrddin	74	18
Conwy	59	18
Sir y Fflint	70	18
Gwynedd	75	18
Castell-nedd Port Talbot	64	18
Casnewydd	50	18
Sir Benfro	60	18
Powys	73	18
Bro Morgannwg	47	18
Wrecsam	52	18
Grŵp C		
Blaenau Gwent	42	17
Ceredigion	42	17
Sir Ddinbych	47	17
Ynys Môn	30	15
Merthyr Tudful	33	16
Sir Fynwy	43	17
Torfaen	44	17

Nodyn Tabl 1:

Roedd yr ymatebion i ymgynghoriad y Panel yn 2013 yn dynodi y byddai rhai cyngorau'n hoffi gweld cynnydd yn y cap, ond roeddent i gyd bron yn teimlo eu bod yn gallu gweithredu'n effeithiol oddi mewn i'r uchafswm a bennwyd.

Y Bandiau Uwch Gyflog

Penderfyniad 2: Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd lefelau uwch gyflog 2015/16 ar gyfer aelodau prif gynghorau'n parhau fel y nodir yn nhabl 2.

Tabl 2: Cyflogau sylfaenol ac uwch gyflogau taladwy i aelodau prif gynghorau

Cyflog sylfaenol (taladwy i'r holl aelodau etholedig) £13,300			
	Grŵp A (Caerdydd, Rhondda Cynon Taf, Abertawe)	Grŵp B Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Sir Gaerfyrddin, Conwy, Sir y Fflint, Gwynedd, Casnewydd, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, Powys, Bro Morgannwg, Wrecsam)	Grŵp C (Blaenau Gwent, Ceredigion, Sir Ddinbych, Merthyr Tudful, Sir Fynwy, Torfaen, Ynys Môn)
Uwch gyflogau (yn cynnwys cyflog sylfaenol)			
Band 1 Arweinydd Dirprwy arweinydd	£53,000 £37,000	£48,000 £33,500	£43,000 £30,000
Band 2 Aelodau gweithredol eraill	£32,000	£29,000	£26,000
Band 3 Cadeiryddion pwyllgorau (os yn cael cydnabyddiaeth ariannol):			£22,000
Band 4 Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf ⁹			
Band 5 Arweinydd grwpiau gwleidyddol eraill		£17,000	

Nodiadau Tabl 2:

- Mae'r Panel yn ystyried mai'r swyddi arweinyddiaeth a gweithredol (cyflogau Band 1 a 2 yn y drefn honno) sydd â'r atebolrwydd unigol mwyaf a bod maint y boblogaeth yn parhau'n ffactor allweddol o ran dylanwadu ar lefelau cyfrifoldeb ac felly mae'r defnydd o'r tri grŵp poblogaeth (A, B ac C) wedi cael ei gadw.
- Bydd y cadeiryddion pwyllgorau'n parhau i gael eu talu ar lefel Band 3, dim ots beth yw maint poblogaeth awdurdod lleol, ond caiff awdurdod unigol benderfynu peidio â thalu i gadeiryddion penodol.
- Mae'r Panel yn ymwybodol o'r pwysigrwydd y mae Llywodraeth Cymru yn ei roi i werth y swyddogaeth graffu ar gyfer democratiaeth lleol, ac wedi nodi bod

⁹ Gweler Rheoliadau'r Panel, Atodiad 2, Rhan 1(2) am ddiffiniad " Arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf" a " grwpiau gwleidyddol eraill".

cyfanswm o 89 o gadeiryddion craffu'n cael uwch gyflog hyn o bryd. Mae'r Panel o'r farn bod hyn yn cydnabod yn glir bwysigrwydd y swyddogaeth hon ac yn rhagweld y bydd hyn yn cael ei gynnal.

- d. Mae'r amod bod rhaid i arweinydd grŵp gwrthbleidiol neu unrhyw arweinydd grŵp arall gynrychioli o leiaf 10% o aelodaeth y cyngor cyn cymhwyso am uwch gyflog yn aros yr un fath.
- e. Mae'r Panel wedi penderfynu bod rhaid i gyngor sicrhau bod uwch gyflog ar gael i arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf. Mae ystod cyfrifoldeb ac atebolrwydd arweinydd y grŵp gwrthbleidiol mwyaf yn amrywio ar draws awdurdodau. Fodd bynnag, mae'r Panel yn parhau o'r farn bod talu am y swydd hon yn bwysig ar gyfer democratiaeth lleol.
- f. Mae'r Panel wedi penderfynu bod rhaid i uwch gyflog Band 5 o £17,000 gael ei dalu i arweinwyr grwpiau gwleidyddol eraill, os ydynt yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol.
- g. Gweler Rheoliadau IRPW, Atodiad 2, Rhan 1(2) am ddiffiniad o "*grŵp gwrthbleidiol mwyaf*" a "*grŵp gwleidyddol arall*".

Taliadau i Benaethiaid a Dirprwyon Dinesig (Cyflogau Dinesig)

- 3.3 Mae'r Panel yn parhau o'r farn ei bod yn briodol i awdurdodau bennu lefelau talu sy'n adlewyrchu gweithgarwch a chyfrifoldeb yn hytrach na phoblogaeth. Mae wedi pennu tair lefel o gyflog dinesig y gellir eu talu gan unrhyw awdurdod yn ôl ffactorau lleol ar gyfer pob un o'r swyddogaethau hyn. Er enghraifft, gallai pennaeth dinesig cyngor bach gael ei dalu ar y gyfradd uchaf, tra gallai pennaeth dinesig cyngor mawr gael ei dalu ar y gyfradd isaf. Gallai cyfraddau tâl i ddirprwy benaethiaid dinesig amrywio yn yr un modd. Mae hyn yn galluogi i benaethiaid dinesig a'u dirprwyon yn yr un awdurdod gael eu talu ar wahanol lefelau.
- 3.4. Gall cyngor benderfynu peidio â rhoi cyflog dinesig i swyddi pennaeth dinesig a/neu ddirprwy bennaeth dinesig.

Penderfyniad 3: Mae'r Panel wedi penderfynu bod cyflogau dinesig (lle y'u telir) o fewn y lefelau canlynol yn daladwy (Tabl 3) a byddant yn cael eu cymhwyso gan awdurdodau fel yr ystyriant yn briodol, gan ystyried llwythi gwaith a chyfrifoldebau disgwylidig.

Tabl 3: Bydd cyflogau dinesig (lle y'u telir) yn daladwy fel a ganlyn i aelodau prif gynghorau

Cydnabyddiaeth ariannol i benaethiaid dinesig a dirprwy benaethiaid dinesig (yn cynnwys cyflogau sylfaenol)		
	Penaethiaid dinesig	Dirprwy benaethiaid dinesig
a)	£24,000	£18,000
b)	£21,500	£16,000
c)	£19,000	£14,000

Nodiadau Tabl 3:

- a. Nid yw swyddi'r pennaeth dinesig a'r dirprwy bennaeth dinesig wedi'u cynnwys yn y cap (ac eithrio Cynghorau Ynys Môn a Merthyr Tudful)
 - b. Mae egwyddor y Panel na ddylai aelodau orfod talu am gost cymorth (gweler paragraff 3.22) sy'n angenrheidiol i gyflawni eu dyletswyddau yn berthnasol yn achos penaethiaid dinesig. Mae'r Panel yn cydnabod yr ystod o wahanol lefelau o ddarpariaeth a wneir ar gyfer penaethiaid dinesig o ran trafndiaeth, cymorth ysgrifenyddol, rhoi tuag at elusen neu ddillad. Nid yw'r Panel o'r farn ei bod yn briodol i gynghorau ddisgwyl neu fynnu bod cyfraniadau tuag at y ddarpariaeth hon yn cael eu gwneud gan ddefnyddio'r uwch gyflogau net a delir i benaethiaid dinesig.
- 3.5 Yn 2014, cyfarfu'r Panel â swyddogion sy'n cefnogi'r swyddogaethau hyn gan ehangu ei ddealltwriaeth o'r modd maent yn cael eu rhoi ar waith ledled Cymru.
- 3.6 Mae'r swyddi dinesig hyn yn uwch swyddi mewn cynghorau sy'n wahanol i arweinyddiaeth wleidyddol neu weithredol. Yn ogystal â chadeirio cyfarfodydd pwysig, y pennaeth dinesig yw 'dinesydd cyntaf' a 'llysgennad' yr awdurdod, gan gynrychioli'r cyngor i bob math o sefydliadau, ac mae angen i ddeiliad y swydd fod yn enghraifft o ddinasyddiaeth dda a'i hyrwyddo.
- 3.7 Yn aml, mae dirprwy benaethiaid dinesig yn 'ddarpar benaethiaid dinesig' ar gyfer y flwyddyn ganlynol, gan 'ddysgu eu crefft' drwy gymryd rhan mewn amserlen ar wahân o ddigwyddiadau, yn ogystal â dirprwyo ar gyfer yr arweinydd dinesig. Heb y rôl hon, byddai'n amhosibl i gyngor fodloni'r gofynion yn llawn ar gyfer arweinyddiaeth a chynrychiolaeth ddinesig.
- 3.8 Bwriad y lwfans dinesig fel y'i diffinnir gan adrannau 22(5) a 24(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972 yw parhau i alluogi i gynghorau dalu lwfans i gadeirydd ac is-gadeirydd cyngor sy'n addas at ddibenion talu am gostau'r swyddi hynny ym marn y cyngor.
- 3.9 Mewn sawl achos, mae penaethiaid dinesig yn derbyn cymorth ysgrifenyddol, yn cael cludiant ar gyfer dyletswyddau swyddogol, ac yn gallu manteisio ar gyllideb lletygarwch ar wahân sy'n cael ei rheoli gan swyddogion y cyngor.

- 3.10 Mae'r cymorth a roddir, y gwariant ariannol personol a'r lefel o weithgarwch yn ystod y flwyddyn yn y swydd yn amrywio'n sylweddol rhwng awdurdodau ac nid yw maint yr awdurdod yn ddangosydd dibynadwy o'r ymrwymiad sy'n ofynnol neu a roddir gan benaethiaid dinesig.
- 3.11 Mae gan yr holl brif gynghorau nifer o gynghorau tref a chymuned yn eu hardaloedd, ac mae gan rai benaethiaid dinesig gweithredol, a fydd yn cael rhywfaint o effaith ar lwyth gwaith penaeithiaid dinesig prif gynghorau.
- 3.12 Mae Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 yn galluogi cynghorau i benodi rhywun i swydd ychwanegol, sef aelod llywyddol sy'n gyfrifol am gadeirio cyfarfodydd y cyngor cyfan. Lle penodir un, bydd gan y pennaeth dinesig lai o gyfrifoldebau o ganlyniad i hynny.

Taliadau i Aelodau Llywyddol

Penderfyniad 4: Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd yn rhaid i aelod llywyddol, os penodwyd un ac os yw'n cael cydnabyddiaeth ariannol, gael ei dalu ar lefel uwch gyflog Band 3, sef £22,000. Bydd y swydd hon yn cyfrif tuag at y cap.

Penderfyniad 5: Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd swydd dirprwy aelod llywyddol yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol.

Y ffactorau allweddol sy'n sail i benderfyniadau'r Panel:

- 3.13 Y cyflog sylfaenol, a delir i bob aelod, yw'r gydnabyddiaeth ariannol am y cyfrifoldeb o gynrychiolaeth gymunedol a chymryd rhan yn y gwaith o graffu, rheoleiddio neu swyddogaethau cysylltiedig llywodraethu lleol am gyfnod sy'n gyfwerth â thri diwrnod yr wythnos. Mae unrhyw ymrwymiad amser y tu hwnt i dri diwrnod yn gyfraniad gwasanaeth cyhoeddus di-dâl.
- 3.14 Mae cydnabyddiaeth ariannol arweinwyr cyngor ac aelodau gweithredol (uwch gyflogau Band 1 a Band 2) yn seiliedig ar ragdybiaeth y Panel fod y swyddogaethau'n cyfateb i rai llawn amser.
- 3.15 Mae'n rhaid talu'r cyflog a'r costau sydd wedi'u pennu yn llawn i bob aelod, ac eithrio bod unigolyn wedi dewis yn annibynnol a gwirfoddol yn ysgrifenedig i swyddog priodol yr awdurdod i ildio'r holl daliad neu unrhyw elfen ohono.

Rhaid gweithredu'r canlynol:

- 3.16 Ni all aelod etholedig gael cydnabyddiaeth ariannol am fwy nag un swydd uwch o fewn ei awdurdod ef neu hi (ond gweler adran 4 ar JOSOC).

- 3.17 Ni ellir talu uwch gyflog a chyflog dinesig i aelod etholedig.
- 3.18 Mae'r cyflog sylfaenol yn gynwysedig ym mhob uwch gyflog a chyflog dinesig a delir.
- 3.19 Os yw cyngor yn dewis cael mwy nag un dirprwy arweinydd sy'n derbyn cydnabyddiaeth ariannol, dylid rhannu'r gwahaniaeth rhwng uwch gyflog y dirprwy arweinydd ac aelodau gweithredol eraill gyda nifer y dirprwy arweinwyr a'i ychwanegu at uwch gyflog aelodau gweithredol eraill er mwyn cyfrifo'r uwch gyflog sy'n daladwy i bob dirprwy arweinydd.
- 3.20 Ni all aelodau sy'n derbyn uwch gyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw Awdurdod Parc Cenedlaethol neu Awdurdod Tân ac Achub y maent wedi'u penodi ar eu cyfer.

Cynorthwyo Gwaith Aelodau Etholedig Awdurdod Lleol

- 3.21 Mae'r amrywiadau eang a'r anghysondeb yn y cymorth a ddarperir i aelodau yn parhau i beri pryder i'r Panel. Roedd rhai awdurdodau'n gwneud taliad cyfradd unffurf; roedd rhai'n darparu cyfarpar TG a defnyddiau traul, roedd rhai'n darparu ffonau/ffonau symudol a/neu lechi wedi'u hariannu. Nid oedd eraill yn gwneud fawr ddim darpariaeth, os o gwbl, ac mewn o leiaf un achos roedd arian yn cael ei ddiynnu o'r cyflog sylfaenol. Mae cymorth annigonol yn gallu tanseilio gallu Aelodau i gyflawni eu swyddogaethau'n effeithiol.
- 3.22 Mae'r Panel yn disgwyl i'r cymorth a ddarperir ystyried anghenion penodol aelodau unigol. Mae swyddogaethau Pwyllgorau'r Gwasanaethau Democrataidd yn cynnwys gofyniad i adolygu lefel y cymorth a roddir i aelodau i gyflawni eu dyletswyddau a byddai'r Panel yn disgwyl i'r pwyllgorau hyn wneud hynny a chyflwyno cynigion i'r cyngor llawn ynghylch yr hyn a ystyrir yn rhesymol.
- 3.23 Gwnaed cais am i'r Panel roi canllawiau ychwanegol mewn perthynas â lefel y ddarpariaeth TG sylfaenol i aelodau prif awdurdodau. Mae'r Panel o'r farn ei bod yn angenrheidiol i bob aelod etholedig gael defnydd hwylus o ffôn a gwasanaethau e-bost a chael mynediad electronig at wybodaeth briodol drwy gyswllt â'r Rhyngwyd. Mae hyn yn cynnwys y ddarpariaeth angenrheidiol i aelod fod mewn cyswllt priodol â gwasanaethau'r cyngor a chynnal cyswllt â'r rhai maent yn eu cynrychioli. Mae llawer o gynghorau yng Nghymru wedi ymrwymo i 'weithio'n ddi-bapur' a heb fynediad electronig o'r fath, byddai aelod wedi'i gyfyngu'n sylweddol o ran ei allu i gyflawni ei ddyletswyddau. Fel y dynodwyd uchod, cyfrifoldeb pob cyngor trwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd yw sefydlu darpariaeth cymorth i aelodau ar asesu anghenion ei aelodau. Ni fyddai'n briodol i gyfleusterau o'r fath fod ar gael yn swyddfeydd y cyngor yn ystod oriau swyddfa yn unig. Pan mae hyfforddiant penodol, anghenion ychwanegol neu faterion anabled yn berthnasol, bydd rhaid i bob awdurdod asesu unrhyw ofynion penodol sydd gan unigolion.

Penderfyniad 6: Mae'r Panel wedi penderfynu y dylai pob awdurdod sicrhau,

drwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, bod ei holl aelodau'n cael cymaint o gymorth ag sydd angen i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylid darparu cyfleusterau ffôn ac e-bost digonol i bob aelod etholedig, a mynediad electronig at wybodaeth briodol.

Penderfyniad 7: Mae'r Panel wedi penderfynu y dylid darparu cymorth o'r fath heb gostau i'r aelod unigol. Ni ellir gwneud didyniadau o gyflogau aelodau gan yr awdurdod priodol fel cyfraniad at y costau cymorth y mae'r awdurdod wedi eu penderfynu'n angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau.

Ad-dalu Costau Teithio, Cynhaliaeth a Gofal pan ar Fusnes Swyddogol

Ad-dalu Costau Milltiroedd

- 3.24 Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd unrhyw newid i'r cyfraddau milltiroedd y mae gan aelodau hawl i'w hawlio. Dim ond ad-dalu costau teithio i'w aelodau am gyflawni busnes swyddogol o fewn a/neu'r tu allan i ffiniau'r awdurdod y gall pob awdurdod ei wneud, ar gyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sef:

45c y filltir	Hyd at 10,000 milltir mewn blwyddyn mewn car
25c y filltir	Mwy na 10,000 milltir mewn blwyddyn mewn car
5c y teithiwr y filltir	Tâl ychwanegol am deithwyr eraill
24c y filltir	Beiciau modur
20c y filltir	Beiciau

- 3.25 Dylai awdurdodau dalu'r cyfraddau milltiroedd a ragnodir i aelod sydd wedi bod yn deithiwr mewn cerbyd sy'n cael ei yrru gan rywun arall cyn belled ag y bo'r awdurdod yn fodlon fod cost wedi'i gwario gan yr aelod.
- 3.26 Mae'r Panel yn nodi bod Llywodraeth y DU wedi cyhoeddi yn Natganiad yr Hydref 2014¹⁰ bydd costau teithio a delir i gynghorwyr gan eu hawdurdod lleol eu heithrio rhag treth incwm a chyfraniadau Yswiriant Gwladol gweithwyr. Bydd yr eithriad yn gyfyngedig i'r Taliadau Lwfans Milltiroedd Cymeradwy lle mae'n berthnasol i daliadau milltiroedd. Bydd y newid hwn yn dod i rym o 6 Ebrill, 2015

Ad-dalu Costau Teithio Eraill

- 3.27 Dim ond wrth gyflwyno derbynebâu'n dangos yr union wariant yr ad-delir unrhyw hawliadau eraill am gostau teithio, a bydd yn amodol ar unrhyw ofynion neu gyfyngiadau pellach y gall awdurdod eu pennu. Dylai aelodau geisio dewis y dull mwyaf cost-effeithiol o deithio bob amser.

¹⁰ Paragraff 2.61, Trysordy EM Datganiad yr Hydref 2014

- 3.28 Nododd y Panel bod Aelodau ag anableddau, mewn rhai achosion, wedi bod yn amharod i hawlio costau teithio dilys oherwydd ymateb andwyol yn dilyn cyhoeddiad eu costau teithio. Nid yw hyn yn wir am awdurdodau lle mae trefniadau teithio'n cael eu gwneud yn uniongyrchol gan yr awdurdod.

Ad-dalu Costau Cynhaliaeth

£28 y diwrnod	Lwfans dydd am brydau, gan gynnwys brecwast, lle nad oedd wedi'i gynnwys yn y taliad dros nos
£150 y noson	Llundain
£95 y noson	Rhywle arall
£25 y noson	Aros gyda ffrindiau a/neu deulu

- 3.29 Mae'r cyfraddau hyn yn cydymffurfio â chyfraddau Llywodraeth Cymru. Argymhellir bod llety dros nos yn cael ei archebu a thalu amdano ar ran aelodau gan yr awdurdod perthnasol, felly gall awdurdod bennu ei derfynau rhesymol ei hun ac nid yw'r derfynau sy'n berthnasol pan fo aelod unigol yn hawlio ôl-daliadau amgostau llety dros nos yn berthnasol wedyn.
- 3.30 Mae'n rhaid i bob awdurdod barhau i dalu costau cynhaliaeth ar gyfer eu haelodau hyd at y cyfraddau uchaf a nodir uchod ar sail hawliadau gyda derbynebaw, ac eithrio ar achlysuron lle mae aelodau'n aros gyda ffrindiau a/neu deulu.
- 3.31 Efallai y bydd achosion lle bydd awdurdod wedi pennu bod costau teithio o fewn ei ffiniau'n daladwy a bod angen ailadrodd y daith ar ddiwrnodau olynol. Lle ei bod yn rhesymol a chost-effeithiol i dalu costau llety dros nos yn hytrach na chostau milltired dyddiol dro ar ôl tro, ceir caniatâd i wneud hynny.
- 3.32 Nid oes angen dyrannu'r gyfradd ddyddiol uchaf (£28 y dydd) rhwng gwahanol brydau, gan fod y gyfradd ddyddiol uchaf ad-daladwy yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio am unrhyw bryd os yw hynny'n berthnasol, cyn belled ag y cyflwynir derbynebaw gyda hawliad o'r fath.

Ad-dalu Costau Gofal

Penderfyniad 8: Rhaid i bob awdurdod ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol i ofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond pan fydd y gofalwr yn dangos derbynebaw y gwneir ad-daliadau.

- 3.33 Bwriad ad-dalu costau lwfans gofal yw galluogi unrhyw unigolyn y byddai ei allu i gymryd rhan fel aelod o awdurdod yn cael ei gyfyngu gan ei gyfrifoldebau fel gofalwr. Mae'r Panel yn cydnabod bod rhywfaint o sensitifrwydd yn ymwneud â chyhoeddi'r costau dilys hyn. Fodd bynnag, mae'r Panel yn cymhell awdurdodau i annog mwy o bobl i fanteisio ar y cymorth hwn er mwyn hwyluso amrywiaeth gynyddol ymysg aelodau awdurdodau.

- 3.34 Byddai darpariaeth o'r fath yn berthnasol iawn i'r unigolion hynny mewn sectorau o'r boblogaeth sy'n cael eu tangynrychioli mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd, ond a allai ymgysylltu pan fydd ymwybyddiaeth ehangach o'r cymorth sydd ar gael ar gyfer costau gofal.

Chydnabyddiaeth Ariannol ar gyfer Absenoldeb Teuluol

- 3.35 Ym mis Tachwedd 2013, cymeradwyodd Cynulliad Cenedlaethol Cymru'r rheoliadau oedd yn ymdrin ag Absenoldeb Teuluol ar gyfer aelodau etholedig prif awdurdodau yng Nghymru.
- 3.36 Mae'r Panel wedi ystyried goblygiadau'r rheoliadau hyn ar gydnabyddiaeth ariannol y cyfryw aelodau sy'n cymryd absenoldeb o'u swydd fel aelod o dan delerau'r rheoliadau hynny a chyhoeddwyd Adroddiad Atodol ym mis Mawrth 2014.

Mae'r penderfyniadau sydd yn yr Adroddiad Atodol yn cael eu cyfuno yn yr Adroddiad Blynyddol hwn ac fe'u nodir isod.

Penderfyniad 9: Mae gan aelod hawl i gadw cyflog sylfaenol pan fydd yn cymryd Absenoldeb Teuluol o dan y rheoliadau, beth bynnag yw'r cofnod presenoldeb yn syth cyn cychwyn yr Absenoldeb Teuluol.

Penderfyniad 10: Pan fydd uwch ddeiliad cyflog yn gymwys i gael Absenoldeb Teuluol, bydd yn gallu parhau i dderbyn y cyflog drwy gydol yr absenoldeb.

Penderfyniad 11: Mater i'r awdurdod yw penderfynu penodi dirprwy ai peidio. Bydd yr aelod sy'n dirprwyo ar ran uwch ddeiliad cyflog sy'n cymryd Absenoldeb Teuluol yn gymwys i gael cyflog uwch os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny.

Penderfyniad 12: Os yw talu i'r dirprwy yn golygu bod yr awdurdod yn talu mwy na'r uchafswm o uwch gyflogau sy'n ymwneud ag e, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Panel, caniateir ychwanegiad i'r uchafswm tra bydd y dirprwy yn y swydd. Ni all Cynghorau Ynys Môn na Merthyr Tudful wneud hyn, fodd bynnag, pe byddai'n golygu bod nifer yr uwch gyflogau yn fwy na hanner cant y cant o aelodaeth y Cyngor. Byddai angen cymeradwyaeth benodol gan Weinidogion Cymru yn yr achos hynny.

Penderfyniad 13: Pan fydd awdurdod yn cytuno ar ddirprwy ar gyfer

Absenoldeb Teuluol, rhaid hysbysu'r Panel o'r manylion o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys manylion y swydd benodol ac am ba hyd y penodwyd y dirprwy.

Penderfyniad 14: Rhaid diwygio'r atodlen cydnabyddiaeth ariannol er mwyn adlewyrchu goblygiadau'r Absenoldeb Teuluol.

4. Cyd-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu

4.1 Ym mis Gorffennaf 2013, cyhoeddodd y Panel adroddiad atodol yn nodi'r trefniadau ar gyfer cydnabyddiaeth ariannol i gadeiryddion Cyd-bwyllgorau ac Is-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu. Mae copi o'r Adroddiad Atodol yn Atodiad 5 er gwybodaeth.

4.2 Fodd bynnag, mae lefel y taliadau sydd i'w gweld yn yr Adroddiad hwnnw wedi'i haddasu er mwyn cyd-fynd â'r cynigion sy'n ymwneud â chadeiryddion prif gynghorau a nodir yn Adran 3.

Mae'r penderfyniadau canlynol yn gymwys ers rhoi'r Adroddiad Blynyddol hwn ar waith:

Penderfyniad 15: Mae cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gymwys am gyflog sy'n gyfwerth â'r rhan o uwch gyflog Band 3 sy'n rhoi cydnabyddiaeth ariannol i gadeirydd pwyllgor prif awdurdod ar £8,700.

Penderfyniad 16: Mewn achosion lle mae'r cadeirydd eisoes yn derbyn uwch gyflog ar gyfer rôl Band 3, 4 neu 5, bydd y taliad ar £4,350.

Penderfyniad 17: Mae cadeirydd is-bwyllgor Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gymwys am gyflog ar £2,175.

Penderfyniad 18: Mewn achosion lle mae cadeirydd yr is-bwyllgor eisoes yn derbyn uwch gyflog ar gyfer rôl Band 3, 4 neu 5, bydd y taliad ar £1,090.

Penderfyniad 19: Bydd taliadau i gadeiryddion is-bwyllgorau gorchwyl a gorffen ar sail pro rata am gyfnod y dasg.

Penderfyniad 20: Mae taliadau a wneir i gadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu neu gadeirydd is-bwyllgor Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ychwanegol at y gyfran uchaf o aelodaeth yr awdurdod sy'n gymwys am uwch gyflog. Dylid nodi fod y terfyn statudol o uchafswm o 50% o aelodaeth cyngor yn derbyn uwch gyflog yn gymwys (adran 142(5) o'r Mesur).

Penderfyniad 21: Nid yw dirprwy gadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gymwys am daliad.

Penderfyniad 22: Nid yw aelodau cyfetholedig o Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu neu is-bwyllgor yn gymwys i dderbyn ffi aelod cyfetholedig, oni bai eu bod wedi'u penodi gan awdurdod o dan Adran 144(5) y Mesur.

4.3 Nid yw cydnabyddiaeth ariannol cadeiryddion JOSCs (neu is-bwyllgor o JOSCs) wedi'i rhagnodi a mater i'r cynghorau cyfansoddol fydd penderfynu a fydd swydd o'r fath yn cael ei thalu. Ond os yw uwch gyflog yn cael ei dalu, rhaid iddo fod ar y lefel a nodir yn adran 4 yr adroddiad hwn.

5. Darpariaeth Pensiwn ar gyfer Aelodau Etholedig Prif Gyngorau

Mae Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (“*Y Mesur*”) yn rhoi pŵer i'r Panel wneud penderfyniadau am hawliau pensiwn ar gyfer aelodau etholedig prif gyngorau.

Penderfyniad 23: Bydd yr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gymwys i holl aelodau etholedig cymwys prif gyngorau.

6. Taliadau i Aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

6.1 Mae'r Panel yn seilio ei benderfyniadau ar y pwyntiau allweddol canlynol:

Nid yw swyddogaethau'r Parciau Cenedlaethol wedi newid rhyw lawer ers ymweliadau'r Panel yn 2011 a 2013.

- Mae aelodau Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn dod o ddwy ffynhonnell. Swyddogion a benodir gan Lywodraeth Cymru yw traean yr aelodau, ac mae dwy ran o dair yn aelodau awdurdod lleol a enwebir gan awdurdodau cyfansoddol.
- Yn ogystal, mae gan bwyllgorau safonau awdurdodau Parciau Cenedlaethol aelodau cyfetholedig a chaiff eu cydnabyddiaeth ariannol nhw ei chynnwys yn y fframwaith.
- Mae aelodau a benodir gan Lywodraeth Cymru ac aelodau a enwebir gan gynghorau yn cael eu trin yn gyfartal o safbwynt cydnabyddiaeth ariannol.
- Mae awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn rheoli eu gwaith drwy gyfarfodydd Awdurdod ffurfiol, pwyllgorau a grwpiau gorchwyl a gorffen. Mae gan bob un Bwyllgor Datblygu/ Rheoli/ Cynllunio ac mae pwyllgorau eraill yn cynnwys Perfformiad ac Adnoddau ac Archwilio a Chraffu. Mae aelodau cyffredin o awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn aelodau o un pwyllgor o leiaf, yn ogystal â chymryd rhan mewn ymweliadau â safleoedd a phaneli archwilio.
- Mae disgwyl i aelodau gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu.
- Mae gan gadeirydd awdurdod Parc Cenedlaethol rôl arweinyddiaeth a dylanwadu yn yr awdurdod, rôl gynrychiadol sy'n debyg i ryw raddau i rôl pennaeth dinesig ac atebolrwydd sylweddol iawn, Nid arweinydd yr Awdurdod yn unig yw'r cadeirydd, ond mae hefyd yn wyneb cyhoeddus y Parc Cenedlaethol dan sylw a'r cysylltiad rhwng y Gweinidog ac ACau y maent yn cyfarfod yn gyson â nhw. Mae'r rôl yn gofyn am lawer o ymrwymiad ac amser.

Cyflogau Sylfaenol ac Uwch

6.2 Yn flaenorol penderfynodd y Panel (yn wreiddiol yn ei Adroddiad Blynyddol 2011 ac fe'i cadarnhawyd yn ei adroddiad 2014) fod rôl aelodau cyffredin Awdurdod Parc Cenedlaethol yn haeddu bod yn gyson â chyflog sylfaenol aelod prif awdurdod ac y dylid eu talu am ymrwymiad amser o 42 diwrnod y flwyddyn.

6.3 Dylid pennu taliad cadeiryddion Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub ar yr un sail. Cafodd cydnabyddiaeth ariannol y cadeirydd ei haleinio â'r rhan honno o uwch gyflog Band 3 a derbynnir gan gadeirydd pwyllgor prif awdurdod.

- 6.4 Mae llwyth gwaith cadeirydd rheoli datblygu awdurdod Parc Cenedlaethol yn cyfateb i gadeirydd cynllunio mewn prif awdurdod.
- 6.5 Penderfynodd y Panel yn 2014 ddarparu hyblygrwydd lleol fel y gall Awdurdod Parc Cenedlaethol benderfynu ar ba un o ddwy lefel y gellir rhoi cydnabyddiaeth ariannol i rolau dirprwy gadeirydd a chadeiryddion pwyllgorau eraill. Gall Awdurdod Parc Cenedlaethol ddewis talu ei ddirprwy gadeirydd a/neu gadeiryddion pwyllgor gyflog o naill ai £7,300, neu £6,000 yn gymesur â'r dyletswyddau sydd angen eu cyflawni mewn rôl benodol.

Mae'r Panel wedi gwneud y penderfyniadau canlynol:

Penderfyniad 24: Dylai'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin awdurdod Parc Cenedlaethol fod yn £3,600 (42/156 x £13,300)

Penderfyniad 25: Dylai'r uwch gyflog ar gyfer cadeirydd awdurdod Parc Cenedlaethol fod yn £12,300 (£3,600 + £8,700)

Penderfyniad 26: Gellir talu uwch gyflog ar gyfer dirprwy gadeirydd a chadeiryddion pwyllgorau awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar un o'r lefelau canlynol, i'w pennu gan yr awdurdod i adlewyrchu'r cyfrifoldeb priodol:

Lefel 1: £7,300 (£3,600 + £3,700)

Lefel 2: £6,000 (£3,600 + £2,400)

Penderfyniad 27: Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog awdurdod Parc Cenedlaethol.

Penderfyniad 28: Telir uwch gyflog awdurdod Parc Cenedlaethol yn cynnwys cyflog sylfaenol yr awdurdod Parc Cenedlaethol.

Penderfyniad 29: Ni chaiff aelodau prif awdurdodau lleol sy'n derbyn uwch gyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw awdurdod Parc Cenedlaethol arall y maent yn cael eu penodi iddo.

Ad-dalu Costau Teithio, Cynhaliath a Gofal pan ar Fusnes Swyddogol

Ad-dalu Costau Milltiroedd

- 6.6 Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd unrhyw newid i'r cyfraddau milltiroedd y mae gan aelodau hawl i'w hawlio. Dim ond ad-dalu costau teithio i'w aelodau am gyflawni busnes swyddogol o fewn a/neu'r tu allan i ffiniau'r awdurdod y gall pob awdurdod ei wneud, ar gyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sef:

45c y filltir	Hyd at 10,000 milltir mewn blwyddyn mewn car
25c y filltir	Mwy na 10,000 milltir mewn blwyddyn mewn car
5c y teithiwr y filltir	Tâl ychwanegol am deithwyr eraill
24c y filltir	Beiciau modur
20c y filltir	Beiciau

6.7 Dylai awdurdodau dalu'r cyfraddau milltiroedd a ragnodir i aelod sydd wedi bod yn deithiwr mewn cerbyd sy'n cael ei yrru gan rywun arall cyn belled ag y bo'r awdurdod yn fodlon fod cost wedi'i gwario gan yr aelod.

Ad-dalu Costau Teithio Eraill

6.8 Dim ond wrth gyflwyno derbynebau'n dangos yr union wariant yr ad-delir unrhyw hawliadau eraill am gostau teithio, a bydd yn amodol ar unrhyw ofynion neu gyfyngiadau pellach y gall awdurdod eu pennu. Dylai aelodau geisio dewis y dull mwyaf cost-ffeithiol o deithio bob amser.

6.9 Nododd y Panel bod Aelodau ag anableddau, mewn rhai achosion, wedi bod yn amharod i hawlio costau teithio dilys oherwydd ymateb andwyol yn dilyn cyhoeddiad eu costau teithio. Nid yw hyn yn wir am awdurdodau lle mae trefniadau teithio'n cael eu gwneud yn uniongyrchol gan yr awdurdod.

Ad-dalu Costau Cynhaliath

£28 y diwrnod	Lwfans dydd am brydau, gan gynnwys brecwast, lle nad oedd wedi'i gynnwys yn y taliad dros nos
£150 y noson	Llundain
£95 y noson	Rhywle arall
£25 y noson	Aros gyda ffrindiau a/neu deulu

6.10 Mae'r cyfraddau hyn yn cydymffurfio â chyfraddau Llywodraeth Cymru. Argymhellir bod llety dros nos yn cael ei archebu a thalu amdano ar ran aelodau gan yr awdurdod perthnasol, felly gall awdurdod bennu ei derfynau rhesymol ei hun ac nid yw'r terfynau sy'n berthnasol pan fo aelod unigol yn hawlio ôl-daliadau am gostau llety dros nos yn berthnasol wedyn.

6.11 Mae'n rhaid i bob awdurdod barhau i dalu costau cynhaliath ar gyfer eu haelodau hyd at y cyfraddau uchaf a nodir uchod ar sail hawliadau gyda derbynebau, ac eithrio ar achlysuron lle mae aelodau'n aros gyda ffrindiau a/neu deulu.

6.12 Efallai y bydd achosion lle bydd awdurdod wedi pennu bod costau teithio o

fewn ei ffiniau'n daladwy a bod angen ailadrodd y daith ar ddiwrnodau olynol. Lle ei bod yn rhesymol a chost-effeithiol i dalu costau llety dros nos yn hytrach na chostau milltired dyddiol dro ar ôl tro, ceir caniatâd i wneud hynny.

- 6.13 Nid oes angen dyrannu'r gyfradd ddyddiol uchaf (£28 y dydd) rhwng gwahanol brydau, gan fod y gyfradd ddyddiol uchaf ad-daladwy yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio am unrhyw bryd os yw hynny'n berthnasol, cyn belled ag y cyflwynir derbynebau gyda hawliad o'r fath.

Ad-dalu Costau Gofal

- 6.14 Rhaid i bob awdurdod ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol i ofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond pan fydd y gofalwr yn dangos derbynebau y gwneir ad-daliadau. (Gweler Penderfyniad 8).
- 6.15 Bwriad ad-dalu costau lwfans gofal yw galluogi unrhyw unigolyn y byddai ei allu i gymryd rhan fel aelod o awdurdod yn cael ei gyfyngu gan ei gyfrifoldebau fel gofalwr. Mae'r Panel yn cydnabod bod rhywfaint o sensitifrwydd yn ymwneud â chyhoeddi'r costau dilys hyn. Fodd bynnag, mae'r Panel yn cymhell awdurdodau i annog mwy o bobl i fanteisio ar y cymorth hwn er mwyn hwyluso amrywiaeth gynyddol ymysg aelodau awdurdodau.
- 6.16 Byddai darpariaeth o'r fath yn berthnasol iawn i'r unigolion hynny mewn sectorau o'r boblogaeth sy'n cael eu tangynrychioli mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd, ond a allai ymgysylltu pan fydd ymwybyddiaeth ehangach o'r cymorth sydd ar gael ar gyfer costau gofal.

7. Taliadau i Aelodau Awdurdodau Tân ac Achub Cymru

7.1 Dyma'r pwyntiau allweddol sy'n sail i benderfyniadau'r Panel ar gyfer rhoi cydnabyddiaeth ariannol i aelodau awdurdodau tân ac achub yn 2015/16:

- Mae gan gadeirydd rôl arweinyddiaeth a dylanwadu yn yr awdurdod, ac atebolrwydd sylweddol iawn, yn enwedig wrth i faterion dadleuol godi sy'n ymwneud â'r gwasanaeth brys. Yn ogystal â chyfarfodydd yr Awdurdod Tân, mae gan bob awdurdod tân ac achub bwyllgorau sy'n cynnwys, mewn gwahanol gyfuniadau; archwilio, rheoli perfformiad, craffu, adnoddau dynol, rheoli adnoddau yn ogystal â grwpiau gorchwyl a gorffen a phaneli disgyblu. Yn ogystal â mynychu chyfarfodydd ffurfiol yr awdurdod a'r pwyllgorau, mae aelodau yn cael eu hannog i ymgymryd â rôl ymgysylltu â'r gymuned, gan gynnwys ymweld â gorsafoedd tân.
- Mae ethos hyfforddi cryf mewn awdurdodau tân ac achub. Disgwylir i aelodau gymryd rhan mewn gweithgareddau hyfforddi a datblygu. Mae rhaglenni sefydlu ar gael, yn ogystal â hyfforddiant arbenigol ar gyfer apeliadau a gwrandawiadau disgyblu. Ychwanegir sesiynau hyfforddi'n aml at gyfarfodydd Awdurdod i sicrhau bod hyfforddiant yn hygyrch.

Cyflogau Sylfaenol ac Uwch

7.2 Yn y gorffennol, mae'r Panel wedi penderfynu dylai cydnabyddiaeth ariannol aelodau cyffredin o awdurdod tân ac achub bod yn gyson â chyflog sylfaenol aelod prif awdurdod a bod yr ymrwymiad amser sy'n ofynnol yn agosach at 20 diwrnod y flwyddyn.

7.3 Penderfynodd y Panel dylai cydnabyddiaeth ariannol cadeirydd awdurdod tân ac achub bod yn gyson â rhan o uwch gyflog Band 3 sy'n rhoi cydnabyddiaeth ariannol i gadeirydd pwyllgor prif awdurdod.

7.4 Penderfynodd y Panel y bydd rôl dirprwy gadeirydd awdurdod tân ac achub lle mae cyfrifoldeb sylweddol a pharhaus ar lefel uwch yn cael ei chysoni â'r uwch gyflog Band 5.

Felly, mae'r Panel wedi penderfynu:

Penderfyniad 30: Dylai'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin awdurdod tân ac achub fod yn £1,700 (20/156 x £13,300)

Penderfyniad 31: Dylai'r uwch gyflog ar gyfer cadeirydd awdurdod tân ac achub fod yn £10,400 (£1,700 + £8,700)

Penderfyniad 32: Dylai'r uwch gyflog ar gyfer cadeirydd a chadeiryddion pwyllgorau awdurdodau tân ac achub fod yn £5,400 (£1,700 + £3,700)

Penderfyniad 33: Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog awdurdod tân ac achub.

Penderfyniad 34: Telir uwch gyflog awdurdod tân ac achub yn cynnwys cyflog sylfaenol yr awdurdod tân ac achub.

Penderfyniad 35: Ni chaiff aelodau prif awdurdodau lleol sy'n derbyn uwch gyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan awdurdod tân ac achub arall y maent yn cael eu penodi iddo.

Ad-dalu Costau Teithio, Cynhaliaeth a Gofal pan ar Fusnes Swyddogol

Ad-dalu Costau Milltiroedd

- 7.5 Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd unrhyw newid i'r cyfraddau milltiroedd y mae gan aelodau hawl i'w hawlio. Dim ond ad-dalu costau teithio i'w aelodau am gyflawni busnes swyddogol o fewn a/neu'r tu allan i ffiniau'r awdurdod y gall pob awdurdod ei wneud, ar gyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sef:

45c y filltir	Hyd at 10,000 milltir mewn blwyddyn mewn car
25c y filltir	Mwy na 10,000 milltir mewn blwyddyn mewn car
5c y teithiwr y filltir	Tâl ychwanegol am deithwyr eraill
24c y filltir	Beiciau modur
20c y filltir	Beiciau

- 7.6 Dylai awdurdodau dalu'r cyfraddau milltiroedd a ragnodir i aelod sydd wedi bod yn deithiwr mewn cerbyd sy'n cael ei yrru gan rywun arall cyn belled ag y bo'r awdurdod yn fodlon fod cost wedi'i gwario gan yr aelod.

Ad-dalu Costau Teithio Eraill

- 7.7 Dim ond wrth gyflwyno derbynebaw'n dangos yr union wariant yr ad-delir unrhyw hawliadau eraill am gostau teithio, a bydd yn amodol ar unrhyw ofynion neu gyfyngiadau pellach y gall awdurdod eu pennu. Dylai aelodau geisio dewis y dull mwyaf cost-effeithiol o deithio bob amser.
- 7.8 Nododd y Panel bod Aelodau ag anableddau, mewn rhai achosion, wedi bod yn amharod i hawlio costau teithio dilys oherwydd ymateb andwyol yn dilyn cyhoeddiad eu costau teithio. Nid yw hyn yn wir am awdurdodau lle mae trefniadau teithio'n cael eu gwneud yn uniongyrchol gan yr awdurdod.

Ad-dalu Costau Cynhaliaeth

£28 y diwrnod	Lwfans dydd am brydau, gan gynnwys brecwast, lle nad oedd wedi'i gynnwys yn y taliad dros nos
£150 y noson	Llundain
£95 y noson	Rhywle arall
£25 y noson	Aros gyda ffrindiau a/neu deulu

- 7.9 Mae'r cyfraddau hyn yn cydymffurfio â chyfraddau Llywodraeth Cymru. Argymhellir bod llety dros nos yn cael ei archebu a thalu amdano ar ran aelodau gan yr awdurdod perthnasol, felly gall awdurdod bennu ei derfynau rhesymol ei hun ac nid yw'r terfynau sy'n berthnasol pan fo aelod unigol yn hawlio ôl-daliadau am gostau llety dros nos yn berthnasol wedyn.
- 7.10 Mae'n rhaid i bob awdurdod barhau i dalu costau cynhaliaeth ar gyfer eu haelodau hyd at y cyfraddau uchaf a nodir uchod ar sail hawliadau gyda derbynebaw, ac eithrio ar achlysuron lle mae aelodau'n aros gyda ffrindiau a/neu deulu.
- 7.11 Efallai y bydd achosion lle bydd awdurdod wedi pennu bod costau teithio o fewn ei ffiniau'n daladwy a bod angen ailadrodd y daith ar ddiwrnodau olynol. Lle ei bod yn rhesymol a chost-effeithiol i dalu costau llety dros nos yn hytrach na chostau milltired dyddiol dro ar ôl tro, ceir caniatâd i wneud hynny.
- 7.12 Nid oes angen dyrannu'r gyfradd ddyddiol uchaf (£28 y dydd) rhwng gwahanol brydau, gan fod y gyfradd ddyddiol uchaf ad-daladwy yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio am unrhyw bryd os yw hynny'n berthnasol, cyn belled ag y cyflwynir derbynebaw gyda hawliad o'r fath.

Ad-dalu Costau Gofal

- 7.13 Rhaid i bob awdurdod ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol i ofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond pan fydd y gofalwr yn dangos derbynebaw y gwneir ad-daliadau. (Gweler Penderfyniad 8).
- 7.14 Bwriad ad-dalu costau lwfans gofal yw galluogi unrhyw unigolyn y byddai ei allu i gymryd rhan fel aelod o awdurdod yn cael ei gyfyngu gan ei gyfrifoldebau fel gofalwr. Mae'r Panel yn cydnabod bod rhywfaint o sensitifrwydd yn ymwneud â chyhoeddi'r costau dilys hyn. Fodd bynnag, mae'r Panel yn cymhell awdurdodau i annog mwy o bobl i fanteisio ar y cymorth hwn er mwyn hwyluso amrywiaeth gynyddol ymysg aelodau awdurdodau.
- 7.15 Byddai darpariaeth o'r fath yn berthnasol iawn i'r unigolion hynny mewn sectorau o'r boblogaeth sy'n cael eu tangynrychioli mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd, ond a allai ymgysylltu pan fydd ymwybyddiaeth ehangach o'r cymorth sydd ar gael ar gyfer costau gofal.

8. Taliadau i Aelodau Cyfetholedig Prif Gyngorau, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub¹¹

- 8.1 Mae'r Panel wedi penderfynu bod ffi dyddiol/am hanner diwrnod yn ddull priodol o gydnabod y rôl bwysig a gyflawnir gan aelodau cyfetholedig awdurdodau. Mae lefel y taliadau yn gyfwerth â'r cyfraddau dyddiol cyfredol ar gyfer cadeiryddion ac aelodau cyrff Band 2 a noddir gan Lywodraeth Cymru.
- 8.2 Gallai Awdurdodau benderfynu ar nifer mwyaf y dyddiau mewn unrhyw un flwyddyn y gallai aelodau cyfetholedig gael eu talu amdanynt.
- 8.3 Nodir y penderfyniadau diwygiedig isod:

Penderfyniad 36: Mae'n rhaid i Brif Gyngorau, APC ac ATA dalu'r ffioedd canlynol i aelodau cyfetholedig (tabl 4) (sydd â hawliau pleidleisio)

Tabl 4: Ffioedd ar gyfer aelodau cyfetholedig (sydd â hawliau pleidleisio)

Cadeiryddion pwyllgorau safonau a phwyllgorau archwilio	£256 (4 awr a throsodd) £128 (hyd at 4 awr)
Aelodau cyffredin o bwyllgorau safonau sydd hefyd yn cadeirio pwyllgorau safonau ar gyfer cyngorau cymuned a thref.	£226 ffi ddyddiol (4 awr a throsodd) £113 (hyd at 4 awr)
Aelodau cyffredin pwyllgorau safonau; pwyllgor craffu addysg; pwyllgor craffu troseddau ac anhrefn a phwyllgor archwilio	£198 (4 awr a throsodd) £99 (hyd at 4 awr)

Penderfyniad 37: Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig – gall swyddog priodol benderfynu faint cyn y cyfarfod.

Penderfyniad 38: Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

¹¹ Nid yw'r adran hon yn berthnasol i aelodau cyfetholedig cyngorau tref a chymuned.

Penderfyniad 39: Gall y swyddog priodol yn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn a thelir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr.

Penderfyniad 40: Mae cyfarfodydd sy'n gymwys am daliad ffi yn cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y mae gofyn i aelodau cyfetholedig eu mynychu.

Ad-dalu Costau Teithio, Cynhaliaeth a Gofal pan ar Fusnes Swyddogol

Ad-dalu Costau Milltiroedd

- 8.4 Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd unrhyw newid i'r cyfraddau milltiroedd y mae gan aelodau hawl i'w hawlio. Dim ond ad-dalu costau teithio i'w aelodau am gyflawni busnes swyddogol o fewn a/neu'r tu allan i ffiniau'r awdurdod y gall pob awdurdod ei wneud, ar gyfraddau cyfredol Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi sef:

45c y filltir	Hyd at 10,000 milltir mewn blwyddyn mewn car
25c y filltir	Mwy na 10,000 milltir mewn blwyddyn mewn car
5c y teithiwr y filltir	Tâl ychwanegol am deithwyr eraill
24c y filltir	Beiciau modur
20c y filltir	Beiciau

- 8.5 Dylai awdurdodau dalu'r cyfraddau milltiroedd a ragnodir i aelod sydd wedi bod yn deithiwr mewn cerbyd sy'n cael ei yrru gan rywun arall cyn belled ag y bo'r awdurdod yn fodlon fod cost wedi'i gwario gan yr aelod.

Ad-dalu Costau Teithio Eraill

- 8.6 Dim ond wrth gyflwyno derbynebâu'n dangos yr union wariant yr ad-delir unrhyw hawliadau eraill am gostau teithio, a bydd yn amodol ar unrhyw ofynion neu gyfyngiadau pellach y gall awdurdod eu pennu. Dylai aelodau geisio dewis y dull mwyaf cost-efeithiol o deithio bob amser.
- 8.7 Nododd y Panel bod Aelodau ag anableddau, mewn rhai achosion, wedi bod yn amharod i hawlio costau teithio dilys oherwydd ymateb andwyol yn dilyn cyhoeddiad eu costau teithio. Nid yw hyn yn wir am awdurdodau lle mae trefniadau teithio'n cael eu gwneud yn uniongyrchol gan yr awdurdod.

Ad-dalu Costau Cynhaliaeth

£28 y diwrnod	Lwfans dydd am brydau, gan gynnwys brecwast, lle nad oedd wedi'i gynnwys yn y taliad dros nos
£150 y noson	Llundain
£95 y noson	Rhywle arall
£25 y noson	Aros gyda ffrindiau a/neu deulu

- 8.8 Mae'r cyfraddau hyn yn cydymffurfio â chyfraddau Llywodraeth Cymru. Argymhellir bod llety dros nos yn cael ei archebu a thalu amdano ar ran aelodau gan yr awdurdod perthnasol, felly gall awdurdod bennu ei derfynau rhesymol ei hun ac nid yw'r terfynau sy'n berthnasol pan fo aelod unigol yn hawlio ôl-daliadau am gostau llety dros nos yn berthnasol wedyn.
- 8.9 Mae'n rhaid i bob awdurdod barhau i dalu costau cynhaliaeth ar gyfer eu haelodau hyd at y cyfraddau uchaf a nodir uchod ar sail hawliadau gyda derbynebaw, ac eithrio ar achlysuron lle mae aelodau'n aros gyda ffrindiau a/neu deulu.
- 8.10 Efallai y bydd achosion lle bydd awdurdod wedi pennu bod costau teithio o fewn ei ffiniau'n daladwy a bod angen ailadrodd y daith ar ddiwrnodau olynol. Lle ei bod yn rhesymol a chost-ffeithiol i dalu costau llety dros nos yn hytrach na chostau milltired dyddiol dro ar ôl tro, ceir caniatâd i wneud hynny.
- 8.11 Nid oes angen dyrannu'r gyfradd ddyddiol uchaf (£28 y dydd) rhwng gwahanol brydau, gan fod y gyfradd ddyddiol uchaf ad-daladwy yn cwmpasu cyfnod o 24 awr a gellir ei hawlio am unrhyw bryd os yw hynny'n berthnasol, cyn belled ag y cyflwynir derbynebaw gyda hawliad o'r fath.

Ad-dalu Costau Gofal

- 8.12 Rhaid i bob awdurdod ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol i ofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond pan fydd y gofalwr yn dangos derbynebaw y gwneir ad-daliadau. (Gweler Penderfyniad 8).
- 8.13 Bwriad ad-dalu costau lwfans gofal yw galluogi unrhyw unigolyn y byddai ei allu i gymryd rhan fel aelod o awdurdod yn cael ei gyfyngu gan ei gyfrifoldebau fel gofalwr. Mae'r Panel yn cydnabod bod rhywfaint o sensitifrwydd yn ymwneud â chyhoeddi'r costau dilys hyn. Fodd bynnag, mae'r Panel yn cymhell awdurdodau i annog mwy o bobl i fanteisio ar y cymorth hwn er mwyn hwyluso amrywiaeth gynyddol ymysg aelodau awdurdodau.
- 8.14 Byddai darpariaeth o'r fath yn berthnasol iawn i'r unigolion hynny mewn sectorau o'r boblogaeth sy'n cael eu tangynrychioli mewn llywodraeth leol ar hyn o bryd, ond a allai ymgysylltu pan fydd ymwybyddiaeth ehangach o'r cymorth sydd ar gael ar gyfer costau gofal.

9. Uwch Gyflogau Penodol neu Ychwanegol

- 9.1 Mae'r Panel wedi caniatáu ar gyfer mwy o hyblygrwydd drwy ganiatáu i awdurdodau wneud cais am uwch gyflogau penodol neu ychwanegol nad ydynt o fewn y Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol cyfredol, neu na ellir darparu ar eu cyfer o fewn yr uchafswm o uwch gyflogau sy'n berthnasol i'r awdurdod.

Penderfyniad 41: Mae'r Panel wedi penderfynu cyflwyno darpariaeth i swyddi datblygu yn y Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol.

- 9.2 Cyhoeddwyd canllawiau i awdurdodau lleol ar y broses ymgeisio yn Ebrill 2014 ac fe'u cynhwyswyd yn yr egwyddorion canlynol.
- Ni all cyfanswm yr uwch gyflogau fod yn fwy na phum deg y cant¹² o'r aelodaeth (mae hyn yn gymwys i brif gynghorau; bydd cyfyngiadau gwahanol yn gymwys i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac Awdurdodau Tân ac Achub).
 - Bydd yn rhaid i'r awdurdod yn ei gyfanrwydd gymeradwyo ceisiadau (ni ellir dirprwyo hyn).
 - Mae'n rhaid cael tystiolaeth glir bod gan y swydd/swyddi gyfrifoldeb ychwanegol a ddangosir gan ddisgrifiad o'r rôl, ei swyddogaeth a'i hyd.
 - Bydd yn rhaid i bob cais ddangos yr amserlen ar gyfer adolygiad ffurfiol o'r rôl i'w hystyried gan yr awdurdod yn ei gyfanrwydd.

¹² Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011, adran 142 (5) Ni chaiff y gyfran a bennir gan y Panel yn unol ag is-adran (4) fod yn fwy na hanner cant y cant oni fydd cydsyniad Gweinidogion Cymru wedi ei sicrhau.

10. Taliadau i Aelodau Cyngorau Tref a Chymuned

- 10.1 Cyflwynodd Adroddiad Blynyddol Rhagfyr 2012y penderfyniadau ar gyfer taliadau mewn perthynas â chynghorau cymuned a thref yn sgil ymestyn ei gylch gwaith, a gyflwynwyd gan y Mesur yn 2011. Daeth y rhain i rym ar gyfer blwyddyn ariannol 2013/2014.
- 10.2 Nododd adroddiad a gyhoeddwyd gan yr Athro Michael Woods yn 2013 "*nad oes unrhyw wybodaeth gynhwysfawr am i ba raddau y mae cynghorau cymuned wedi cyflwyno lwfansau o dan y rheoliadau newydd, ond mae tystiolaeth anecdotaidd yn awgrymu bod y niferoedd wedi bod yn gyfyngedig iawn.*" Ar yr adeg honno dim ond newydd ddod i rym oedd penderfyniadau y Panel. Ond mae'r Panel wedi ceisio canfod effaith y penderfyniadau yn ei adroddiad 2013/14 drwy gynnal ei arolwg ei hun ymhlith pob un o'r 735 o gynghorau yr effeithiwyd arnynt. Gofynnodd i ba raddau yr oedd y pwerau caniatol wedi eu mabwysiadu. Dychwelodd cyfanswm o 85 o gynghorau holiadur wedi'i lenwi sy'n cyfateb i gyfradd ymateb siomedig iawn o 11.5%. Bydd y Panel yn ymgynghori ymhellach yn 2015.

Mae'r Panel wedi penderfynu:

Penderfyniad 42: Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i dalu hyd at £100 y flwyddyn i'w haelodau am gostau a gaiff eu gwario yn sgil defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac ati.

Penderfyniad 43: Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor.¹³ Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel y nodir isod:

- 45c y filltir - hyd at 10,000 o filltiroedd
- 25c y filltir - dros 10,000 o filltiroedd
- 5c y teithiwr y filltir – tâl atodol ar gyfer cludo teithwyr
- 24c y filltir – beiciau modur preifat
- 20c y filltir – beiciau

¹³ Dylai awdurdodau dalu milltiroedd ar y cyfraddau a ragnodir i aelod sydd wedi bod yn deithiwr mewn cerbyd sy'n cael ei yrru gan rywun arall cyn belled ag y bo'r awdurdod yn fodlon fod cost wedi'i gwario gan yr aelod.

Penderfyniad 44: Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w haelodau ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor ar y cyfraddau uchaf a nodir isod, ar sail hawliadau gyda derbynebaw:

- Iwfans o £28 y diwrnod ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brecwast pan na fydd wedi'i gynnwys.
- £150 - Llundain dros nos.
- £95 - rhywle arall dros nos.
- £25 - aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos.

Penderfyniad 45: Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i dalu Lwfans Mynychu¹⁴ i bob un o'u haelodau am fynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor fel a ganlyn;

- £16.23 am gyfnod o hyd at 4 awr.
- £32.46 am gyfnod sy'n fwy na 4 awr ond sy'n llai na 24 awr.

Penderfyniad 46: Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i dalu Lwfans Colled Ariannol¹⁵ i bob aelod sydd wedi cael colled wirioneddol o'r fath ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y canlynol fel a ganlyn:

- £30.05 am gyfnod o hyd at 4 awr.
- £60.11 am gyfnod sy'n fwy na 4 awr ond sy'n llai na 24 awr.
- £60.11 ac unrhyw swm sy'n daladwy dan (a) a (b) uchod fel sy'n briodol am gyfnod o dros 24 awr.

Penderfyniad 47: Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i ddarparu lwfans dinesig i faer/cadeirydd a dirprwy faer/gadeirydd y cyngor, sef swm sy'n briodol yn eu tyb nhw i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno

Noder (er gwybodaeth): Dirymwyd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003 a daeth hynny i rym ar 1 Ebrill 2013.

10.3 I egluro, mae penderfyniadau 42 i 47 yn bwerau caniatool sy'n gofyn am benderfyniad ffurfiol gan bob cyngor cymuned neu dref. Ond pan fydd cyngor

¹⁴ Fel y nodwyd yn Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003 Rhif OS 895 (W.115). Mae'r gyfradd wedi'i rhewi gan fod y mynegai a nodwyd yn y Rheoliadau ar gyfer cyfrifo canran y cynnydd blynyddol yng "Nghyflog Cyfartalog Cymru i Weithwyr Coleri Gwynion sy'n Wrywod" wedi darfod.

¹⁵ Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cynghorau Cymuned) (Cymru) 2003

cymuned neu dref yn gwneud penderfyniad o'r fath, rhaid iddo fod yn gymwys i bob un o'i aelodau ar y lefelau a bennir gan y Panel. Gall aelod unigol gymryd penderfyniad personol i ddewis peidio â derbyn rhan o'r hawl neu'r holl hawl i dderbyn unrhyw un o'r lwfansau hyn trwy hysbysu swyddog priodol y cyngor yn ysgrifenedig

11. Cyflogau Penaethiaid Gwasanaeth Taledig Prif Gyngorau ac Awdurdodau Tân ac Achub

- 11.1 Diwygiodd Adran 63 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 drwy fewnosod adran 143A. Mae hyn yn galluogi'r Panel i lunio barn ar unrhyw beth yn Natganiadau Polisi Tân yr awdurdodau hyn sy'n ymwneud â chyflog Pennaeth y Gwasanaeth Taledig (y Prif Weithredwr neu'r Prif Swyddog Tân fel arfer).
- 11.2 Yn dilyn ymarferiad ymgynghori, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ganllawiau ar hyn i'r Panel yn ystod Gwanwyn 2014. Mae'r canllawiau, y gellir eu gweld yn Atodiad 5 yn gosod y sail sy'n galluogi'r Panel i gyflawni'r swyddogaeth a gynhwysir yn y ddeddfwriaeth.
- 11.3 Swyddogaethau'r Panel yn eu hanfod a'r gofynion ar awdurdodau a sefydlwyd gan y ddeddfwriaeth a'r canllawiau dilynol yw:
- a) Os yw Prif Gyngor neu'r Awdurdod Tân ac Achub yn bwriadu newid cyflog Pennaeth y Gwasanaeth Taledig, rhaid iddo ymgynghori â'r Panel oni bai bod y newid yn cyd-fynd â newidiadau a gymhwysir at swyddogion eraill yr awdurdod (pe bai'r newid yn gynydd neu ostyngiad). Mae cyflog yn cynnwys taliadau o dan gontract am wasanaethau, yn ogystal â thaliadau cyflog o dan gontract cyflogaeth.
 - b) Rhaid i'r awdurdod roi sylw i argymhelliad/ion y Panel wrth wneud ei benderfyniad.
 - c) Caiff y Panel ofyn am unrhyw wybodaeth y mae'n ystyried sy'n angenrheidiol i ddod i gasgliad a chyflwyno argymhelliad. Mae'n rhaid i'r awdurdod ddarparu'r wybodaeth a geisir gan y Panel.
 - d) Caiff y Panel gyhoeddi unrhyw argymhelliad y mae'n ei wneud. Y bwriad yw, er budd tryloywder, y bydd fel arfer yn gwneud hynny.
 - e) Gallai argymhelliad/argymhellion y Panel:
 - gymeradwyo cynnig yr awdurdod
 - mynegi pryderon am y cynnig
 - argymell amrywiadau i'r cynnig
- ar yr amod bod y rhain yn cydymffurfio ag unrhyw ganllawiau a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru.
- 11.4 Mae gan y Panel bŵer cyffredinol hefyd i adolygu Datganiadau ar Bolisiau Tân Awdurdodau i'r graddau y maent yn ymwneud â thâl Penaethiaid Gwasanaeth Taledig.
- 11.5 Mae'n bwysig nodi na fydd y Panel yn penderfynu beth fydd Pennaeth Gwasanaeth Taledig unigol yn ei dderbyn.

- 11.6 Mae'r Panel yn ymwybodol iawn bod y swyddogaeth ychwanegol hon yn wahanol iawn i'w cyfrifoldebau statudol mewn perthynas â chydabyddiaeth ariannol aelodau. Ond bydd yn sicrhau ei fod yn ymgymryd â'r rôl hon drwy fod yn glir ac yn agored, gan ystyried yr holl ffactorau perthnasol mewn perthynas ag achosion unigol penodol. Annogir awdurdodau i ymgynghori â'r Panel yn gynnar yn ei broses gwneud penderfyniad ar y materion hyn. Bydd hyn yn galluogi'r Panel i ymateb mewn modd amserol.
- 11.7 Bydd Adroddiadau Blynyddol yn y dyfodol yn cynnwys gwybodaeth briodol am unrhyw argymhelliad/argymhellion a wnaed gan y Panel mewn perthynas â'r swyddogaeth hon yn ystod y flwyddyn flaenorol.

12. Cydymffurfiaeth â Gofynion y Panel

Cylch Gwaith y Panel dan y Mesur

- 12.1 Mae Adran 153 o'r Mesur yn galluogi'r Panel i'w gwneud yn ofynnol i awdurdod perthnasol¹⁶ gydymffurfio â'r gofynion a osodir arno gan Adroddiadau Blynyddol y Panel ac yn galluogi'r Panel i fonitro sut mae awdurdodau perthnasol yn cydymffurfio â phenderfyniadau'r Panel.
- 12.2 Rhaid i awdurdod perthnasol weithredu penderfyniadau'r Panel yn yr adroddiad hwn o ddyddiad ei gyfarfod blynyddol.

Monitro Cydymffurfiaeth

- 12.3 Bydd y Panel yn monitro sut y mae pob awdurdod perthnasol yn cydymffurfio â'r penderfyniadau yn yr Adroddiad Blynyddol hwn trwy ystyried y gofynion canlynol:
- (i) Mae'n rhaid i awdurdod perthnasol gynnal **Rhestr flynyddol o Gydabyddiaeth Ariannol Aelodau** (Rheoliadau 4 a 5 Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol). Mae canllawiau yn Atodiad 3 yn nodi'r hyn y mae'n rhaid ei gynnwys yn y Rhestr.
 - (ii) Mae'n rhaid i awdurdod perthnasol wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Rhestr yn ardal yr awdurdod (Rheoliad 46 Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol) ac anfon y Rhestr at y Panel cyn gynted ag y bo'n ymarferol a dim hwyrach na 31 Gorffennaf o'r flwyddyn y mae'n berthnasol iddi. Mae Atodiad 4 yn cynnwys rhagor o fanylion am y gofynion cyhoeddusrwydd.
 - (iii) Rhaid hysbysu'r Panel am unrhyw ddiwygiadau a wneir i'r Rhestr yn ystod y flwyddyn cyn gynted â phosibl wedi i'r diwygiad cael ei wneud.

Noder: Nid yw'r gofynion uchod yn berthnasol i gynghorau cymuned a thref ar hyn o bryd.

- (v) Rhaid i'r awdurdod perthnasol wneud trefniadau i gyhoeddi o fewn ardal yr awdurdod, y cyfanswm a dalwyd i bob aelod ac aelod cyfetholedig o safbwynt cyflog (sylfaenol, uwch a dinesig), lwfansau, ffioedd ac ad-daliadau (yn unol ag Atodiad 4 – sy'n nodi'r cynnwys y mae'n rhaid ei gynnwys yn y Gofynion Cyhoeddusrwydd) cyn gynted ag y bo'n ymarferol bosibl a dim hwyrach na 30 Medi ar ôl diwedd y flwyddyn y mae'n ymwneud â hi. Rhaid iddo gael ei gyflwyno i'r Panel heb fod yn hwyrach na'r dyddiad hwn.

¹⁶ Dehongliad o "Awdurdod Perthnasol" yn ôl Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol (IRPW), Rhan 1, 'Dehongliad'.

Atodiad 1: Penderfyniadau'r Panel ar gyfer 2015/16

- (1) Bydd y cyflog sylfaenol yn 2015/16 ar gyfer aelodau etholedig y prif gynghorau'n aros yn £13,300.
- (2) Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd lefelau uwch gyflog 2015/16 ar gyfer aelodau prif gynghorau'n parhau fel y nodir yn nhabl 2.
- (3) Mae'r Panel wedi penderfynu bod cyflogau dinesig (lle y'u telir) o fewn y lefelau canlynol yn daladwy (Tabl 3) a byddant yn cael eu cymhwyso gan awdurdodau fel yr ystyriant yn briodol, gan ystyried llwythi gwaith a chyfrifoldebau disgwylidig.
- (4) Mae'r Panel wedi penderfynu y bydd yn rhaid i aelod llywyddol, os penodwyd un ac os yw'n cael cydnabyddiaeth ariannol, gael ei dalu ar lefel uwch gyflog Band 3, sef £22,000. Bydd y swydd hon yn cyfrif tuag at y cap.
- (5) Mae'r Panel wedi penderfynu na fydd swydd dirprwy aelod llywyddol yn derbyn cydnabyddiaeth ariannol.
- (6) Mae'r Panel wedi penderfynu y dylai pob awdurdod sicrhau, drwy ei Bwyllgor Gwasanaethau Democrataidd, bod ei holl aelodau'n cael cymaint o gymorth ag sydd angen i'w galluogi i gyflawni eu dyletswyddau'n effeithiol. Dylid darparu cyfleusterau ffôn ac e-bost digonol i bob aelod etholedig, a mynediad electronig at wybodaeth briodol.
- (7) Mae'r Panel wedi penderfynu y dylid darparu cymorth o'r fath heb gostau i'r aelod unigol. Ni ellir gwneud didyniadau o gyflogau aelodau gan yr awdurdod priodol fel cyfraniad at y costau cymorth y mae'r awdurdod wedi eu penderfynu'n angenrheidiol ar gyfer effeithlonrwydd a/neu effeithiolrwydd aelodau.
- (8) Rhaid i bob awdurdod ddarparu ar gyfer ad-dalu costau angenrheidiol i ofalu am blant ac oedolion dibynnol (a ddarperir gan ofalwyr anffurfiol neu ffurfiol) hyd at uchafswm o £403 y mis. Dim ond pan fydd y gofalwr yn dangos derbynebau y gwneir ad-daliadau.
- (9) Mae gan aelod hawl i gadw cyflog sylfaenol pan fydd yn cymryd Absenoldeb Teuluol o dan y rheoliadau, beth bynnag yw'r cofnod presenoldeb yn syth cyn cychwyn yr Absenoldeb Teuluol.
- (10) Pan fydd uwch ddeiliad cyflog yn gymwys i gael Absenoldeb Teuluol, bydd yn gallu parhau i dderbyn y cyflog drwy gydol yr absenoldeb.
- (11) Mater i'r awdurdod yw penderfynu penodi dirprwy ai peidio. Bydd yr aelod sy'n dirprwyo ar ran uwch ddeiliad cyflog sy'n cymryd Absenoldeb Teuluol yn gymwys i gael cyflog uwch os yw'r awdurdod yn penderfynu hynny.

- (12) Os yw talu i'r dirprwy yn golygu bod yr awdurdod yn talu mwy na'r uchafswm o uwch gyflogau sy'n ymwneud ag e, fel y nodir yn Adroddiad Blynyddol y Panel, caniateir ychwanegiad i'r uchafswm tra bydd y dirprwy yn y swydd. Ni all Cyngorau Ynys Môn na Merthyr Tudful wneud hyn, fodd bynnag, pe byddai'n golygu bod nifer yr uwch gyflogau yn fwy na hanner cant y cant o aelodaeth y Cyngor. Byddai angen cymeradwyaeth benodol gan Weinidogion Cymru yn yr achos hynny.
- (13) Pan fydd awdurdod yn cytuno ar ddirprwy ar gyfer Absenoldeb Teuluol, rhaid hysbysu'r Panel o'r manylion o fewn 14 diwrnod o ddyddiad y penderfyniad. Mae hyn yn cynnwys manylion y swydd benodol ac am ba hyd y penodwyd y dirprwy.
- (14) Rhaid diwygio'r atodlen cydnabyddiaeth ariannol er mwyn adlewyrchu goblygiadau'r Absenoldeb Teuluol.
- (15) Mae cadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gymwys am gyflog sy'n gyfwerth â'r rhan o uwch gyflog Band 3 sy'n rhoi cydnabyddiaeth ariannol i gadeirydd pwyllgor prif awdurdod ar £8,700.
- (16) Mewn achosion lle mae'r cadeirydd eisoes yn derbyn uwch gyflog ar gyfer rôl Band 3, 4 neu 5, bydd y taliad ar £4,350.
- (17) Mae cadeirydd is-bwyllgor Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gymwys am gyflog ar £2,175.
- (18) Mewn achosion lle mae cadeirydd yr is-bwyllgor eisoes yn derbyn uwch gyflog ar gyfer rôl Band 3, 4 neu 5, bydd y taliad ar £1,090.
- (19) Bydd taliadau i gadeiryddion is-bwyllgorau gorchwyl a gorffen ar sail pro rata am gyfnod y dasg.
- (20) Mae taliadau a wneir i gadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu neu gadeirydd is-bwyllgor Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn ychwanegol at y gyfran uchaf o aelodaeth yr awdurdod sy'n gymwys am uwch gyflog. Dylid nodi fod y terfyn statudol o uchafswm o 50% o aelodaeth cyngor yn derbyn uwch gyflog yn gymwys (adran 142(5) o'r Mesur).
- (21) Nid yw dirprwy gadeirydd Cyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu yn gymwys am daliad.
- (22) Nid yw aelodau cyfetholedig o Gyd-bwyllgor Trosolwg a Chraffu neu is-bwyllgor yn gymwys i dderbyn ffi aelod cyfetholedig, oni bai eu bod wedi'u penodi gan awdurdod o dan Adran 144(5) y Mesur.
- (23) Bydd yr hawl i ymuno â Chynllun Pensiwn Llywodraeth Leol yn gymwys i holl aelodau etholedig cymwys prif gynghorau.
- (24) Dylai'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin awdurdod Parc Cenedlaethol fod yn £3,600 (42/156 x £13,300)

- (25) Dylai'r uwch gyflog ar gyfer cadeirydd awdurdod Parc Cenedlaethol fod yn £12,300 (£3,600 + £8,700)
- (26) Gellir talu uwch gyflog ar gyfer dirprwy gadeirydd a chadeiryddion pwyllgorau awdurdodau Parciau Cenedlaethol ar un o'r lefelau canlynol, i'w pennu gan yr awdurdod i adlewyrchu'r cyfrifoldeb priodol:
Lefel 1: £7,300 (£3,600 + £3,700)
Lefel 2: £6,000 (£3,600 + £2,400)
- (27) Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog awdurdod Parc Cenedlaethol.
- (28) Telir uwch gyflog awdurdod Parc Cenedlaethol yn cynnwys cyflog sylfaenol yr awdurdod Parc Cenedlaethol.
- (29) Ni chaiff aelodau prif awdurdodau lleol sy'n derbyn uwch gyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan unrhyw awdurdod Parc Cenedlaethol arall y maent yn cael eu penodi iddo.
- (30) Dylai'r cyflog sylfaenol ar gyfer aelodau cyffredin awdurdod tân ac achub fod yn £1,700 (20/156 x £13,300)
- (31) : Dylai'r uwch gyflog ar gyfer cadeirydd awdurdod tân ac achub fod yn £10,400 (£1,700 + £8,700)
- (32) Dylai'r uwch gyflog ar gyfer cadeirydd a chadeiryddion pwyllgorau awdurdodau tân ac achub fod yn £5,400 (£1,700 + £3,700)
- (33) Ni chaiff aelodau dderbyn mwy nag un uwch gyflog awdurdod tân ac achub.
- (34) Telir uwch gyflog awdurdod tân ac achub yn cynnwys cyflog sylfaenol yr awdurdod tân ac achub.
- (35) Ni chaiff aelodau prif awdurdodau lleol sy'n derbyn uwch gyflog Band 1 neu Fand 2 dderbyn cyflog gan awdurdod tân ac achub arall y maent yn cael eu penodi iddo.
- (36) Mae'n rhaid i Brif Gyngorau, APC ac ATA dalu'r ffioedd canlynol i aelodau cyfetholedig (tabl 4) (sydd â hawliau pleidleisio)
- (37) Mae amser rhesymol i baratoi cyn cyfarfodydd yn gymwys i'w gynnwys mewn hawliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig – gall swyddog priodol benderfynu faint cyn y cyfarfod.
- (38) Gellir cynnwys amser teithio i'r cyfarfod ac oddi yno yn yr hawliadau am daliadau a wneir gan aelodau cyfetholedig (hyd at uchafswm y gyfradd ddyddiol).

- (39) Gall y swyddog priodol yn yr awdurdod bennu ymlaen llaw a yw cyfarfod wedi'i drefnu ar gyfer diwrnod llawn a thelir ffi ar sail y penderfyniad hwn, hyd yn oed os yw'r cyfarfod yn gorffen cyn diwedd pedair awr.
- (40) Mae cyfarfodydd sy'n gymwys am daliad ffi yn cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y mae gofyn i aelodau cyfetholedig eu mynychu. Mae cyfarfodydd sy'n gymwys am daliad ffi yn cynnwys pwyllgorau a gweithgorau eraill (gan gynnwys grwpiau gorchwyl a gorffen), cyfarfodydd rhagarweiniol gyda swyddogion, hyfforddiant a phresenoldeb mewn cynadleddau neu unrhyw gyfarfod ffurfiol arall y mae gofyn i aelodau cyfetholedig eu mynychu
- (41) Mae'r Panel wedi penderfynu cyflwyno darpariaeth i swyddi datblygu yn y Fframwaith Cydnabyddiaeth Ariannol.
- (42) Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i dalu hyd at £100 y flwyddyn i'w haelodau am gostau a gaiff eu gwario yn sgil defnyddio'r ffôn, technoleg gwybodaeth, defnyddiau traul ac ati.
- (43) Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i dalu costau teithio pob aelod ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor. Rhaid i daliadau o'r fath fod yn gostau gwirioneddol teithio ar gludiant cyhoeddus neu lwfansau milltiroedd Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi fel y nodir isod:
- 45c y filltir - hyd at 10,000 o filltiroedd
 - 25c y filltir - dros 10,000 o filltiroedd
 - 5c y teithiwr y filltir – tâl atodol ar gyfer cludo teithwyr
 - 24c y filltir – beiciau modur preifat
 - 20c y filltir – beiciau
- (44) Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w haelodau ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor ar y cyfraddau uchaf a nodir isod, ar sail hawliadau gyda derbynebau:
- Lwfans o £28 y diwrnod ar gyfer prydau bwyd, gan gynnwys brechwast pan na fydd wedi'i gynnwys.
 - £150 - Llundain dros nos.
 - £95 - rhywle arall dros nos.
 - £25 - aros gyda ffrindiau a/neu deulu dros nos.
- (45) Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i dalu Lwfans Mynychu i bob un o'u haelodau am fynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor fel a ganlyn:
- £16.23 am gyfnod o hyd at 4 awr.

£32.46 am gyfnod sy'n fwy na 4 awr ond sy'n llai na 24 awr.

(46) Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i dalu Lwfans Colled Ariannol i bob aelod sydd wedi cael colled wirioneddol o'r fath ar gyfer mynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y canlynol fel a ganlyn:

£30.05 am gyfnod o hyd at 4 awr.

£60.11 am gyfnod sy'n fwy na 4 awr ond sy'n llai na 24 awr.

£60.11 ac unrhyw swm sy'n daladwy dan (a) a (b) uchod fel sy'n briodol am gyfnod o dros 24 awr.

(47) Mae gan gynghorau cymuned a thref yr awdurdod i ddarparu lwfans dinesig i faer/cadeirydd a dirprwy faer/gadeirydd y cyngor, sef swm sy'n briodol yn eu tyb nhw i gyflawni swyddogaethau'r swydd honno

Atodiad 2: Rheoliadau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (IRPW) ar gyfer:

(a) darparu cydnabyddiaeth ariannol i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdodau perthnasol

(b) ar gyfer swyddogaethau sy'n ymwneud â chyflogau penaethiaid gwasanaeth taledig yr awdurdodau lleol

Cyflwyniad

Mae Rhan 8 (adrannau 141 i 160) ac atodlen 2 a 4 o Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (*y Mesur*) yn nodi'r trefniadau ar gyfer taliadau a phensiynau aelodau awdurdodau perthnasol a swyddogaethau a chyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (y Panel).

Mae Adrannau 62-67 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2013 (Democratiaeth) (Cymru) yn diwygio adrannau 142, 143, 144, 147, 148 ac 151 y Mesur ac yn rhoi pwerau ychwanegol i'r Panel.

Mae'r pwerau a geir yn rhan 8 ac atodlenni 2 a 3 o'r Mesur (fel y diwygiedig) wedi disodli'r Offerynnau Statudol canlynol:

- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cyngorau Sir a Chyngorau Bwrdeistref Sirol ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol) (Cymru) 2002 (Rhif 1895 (Cy.196)).
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Awdurdodau Tân) (Cymru) 2004 (Rhif 2555 (Cy.227)).
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau) (Cymru) 2007 (Rhif 1086 (Cy.115)).

Mae'r Mesur hefyd wedi disodli'r adrannau yn Neddf Llywodraeth Leol 1972, Deddf Llywodraeth Leol a Thai 1989 a Deddf Llywodraeth Leol 2000 sy'n ymwneud â thaliadau i gynghorwyr yng Nghymru.

Nodir y lwfansau ar gyfer aelodau cyngorau cymuned a thref yn Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn. Dirymwyd Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Lwfansau i Aelodau Cyngorau Cymuned) (Cymru) 2003 (Rhif 895 (W. 115)) ar 1 Ebrill 2013.

Rhan 1

Cyffredinol

1. a. Teitl byr y Rheoliadau hyn yw: "Rheoliadau IRPW".
b. Daeth Rheoliadau IRPW i rym ar 1 Ebrill 2012. Nodir y dyddiad gweithredu ar gyfer pob awdurdod perthnasol yn yr Adroddiad Blynyddol neu Adroddiad Atodol y Panel.

- c. Mae'n ofynnol i Awdurdodau Iunio rhestr o daliadau i aelodau ac aelodau cyfetholedig erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn, er mwyn iddynt allu eu cyflwyno i'r Panel a'u cyhoeddi (gweler paragraff 46).

Dehongli

2. Yn Rheoliadau IRPW:

- Ystyr "Deddf 1972" yw Deddf Llywodraeth Leol 1972.
- Ystyr "Deddf 2000" yw Deddf Llywodraeth Leol 2000.
- Ystyr "Deddf 2013" yw Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013.
- Ystyr "Iwfans" yw'r union swm neu'r uchafswm y gellir ei ad-dalu i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod perthnasol am gostau yr aethpwyd iddynt yn anochel wrth gyflawni busnes swyddogol yr awdurdod perthnasol.
- Ystyr "adroddiad blynyddol" yw adroddiad a luniwyd gan y Panel yn unol ag adran 145 o'r Mesur.
- Mae ystyr "dyletswydd gymeradwy" mewn perthynas â chynghorau cymuned a thref fel y nodir yn Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn.
- Mae ystyr "Iwfans Mynychu" mewn perthynas â chynghorau cymuned neu dref fel y nodir yn Rhan 5 o'r Rheoliadau hyn.
- Ystyr "awdurdod" yw awdurdod perthnasol yng Nghymru fel y'i diffinnir yn Adran 144(2) o'r Mesur ac mae'n cynnwys awdurdod lleol (cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol), awdurdod Parc Cenedlaethol ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru, cyngor cymuned neu dref.
- Mae i "Cyflog Sylfaenol" yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 6 o'r Rheoliadau hyn a gellir ei amodi fel "Cyflog Sylfaenol ALI" i gyfeirio at gyflog sylfaenol aelod o brif gyngor; "Cyflog Sylfaenol Parc Cenedlaethol" i gyfeirio at gyflog sylfaenol aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol; a "Cyflog Sylfaenol awdurdod tân ac achub" i gyfeirio at Gyflog Sylfaenol aelod o awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
- Mae i "Iwfans gofal" yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 21 o'r Rheoliadau hyn.
- "Pennaeth Dinesig" yw'r sawl a etholwyd gan y cyngor i gyflawni dyletswyddau cadeirydd y cyngor hwnnw, ac mae wedi'i ddynodi'n faer neu'n gadeirydd.
- Mae "pwyllgor" yn cynnwys is-bwyllgor.
- Mae "cyngor tref neu gymuned" yn golygu mewn perthynas â Rhan 8 y Mesur, cyngor cymuned fel y'i diffinnir yn adran 33 Deddf Llywodraeth Leol 1972 neu gyngor tref yn unol ag adran 245B yr un Ddeddf
- Ystyr "drafft ymgynghori" yw drafft adroddiad Blynyddol neu Atodol a luniwyd gan y Panel o dan Adran 146 (7) neu 147(8) o'r Mesur, y mae'n rhaid i'r Panel ystyried sylwadau a gyflwynwyd arno.

- “Awdurdod cyfansoddol” – yn achos awdurdodau Parciau Cenedlaethol awdurdod lleol a leolir o fewn ardal awdurdod Parc Cenedlaethol yw hwn; yn achos awdurdodau tân ac achub yng Nghymru awdurdod lleol a leolir o fewn ardal awdurdod tân ac achub yw hwn.
- Ystyr “grŵp rheoli” yw grŵp gwleidyddol mewn awdurdod lleol lle mae unrhyw un o'i aelodau yn rhan o'r pwyllgor gweithredol.
- Mae i “aelod cyfetholedig” yr ystyr a nodir yn adran 144 (5) o'r Mesur, hynny yw'r rhai sydd â'r hawl i bleidleisio ar faterion sy'n dod o fewn maes y pwyllgor y maent yn gwasanaethu arno.
- Mae i “ffi aelod cyfetholedig” yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 19 o'r Rheoliadau hyn.
- Ystyr “Pwyllgor Gwasanaethau Democrataidd” yw'r pwyllgor awdurdod lleol a sefydlwyd o dan adran 11 o'r Mesur.
- “Dirprwy Bennaeth Dinesig” yw'r sawl a etholwyd gan y cyngor i fod yn ddirprwy i faer neu gadeirydd y cyngor hwnnw.
- Ystyr “pwyllgor gweithredol” yw pwyllgor gweithredol awdurdod ar ffurf fel y nodir yn adrannau 11(2) i (5) o Ddeddf 2000, fel y'u diwygiwyd gan adran 34 o'r Mesur.
- Mae i “trefniadau gweithredol” yr ystyr a roddir gan adran 10(1) o Ddeddf 2000;
- Mae i “absenoldeb teuluol”, fel y'i diffinnir yn Adran 142 (2)(b) o'r Mesur, yr ystyr a roddir iddo gan Ran 2 o'r Mesur ac a gynhwysir yn y Rheoliadau sy'n ymwneud â hynny.
- Mae ystyr “Lwfans Colled Ariannol” mewn perthynas â chynghorau cymuned neu dref fel y nodir yn Rhan 5 o'r Rheoliadau.
- Ystyr “awdurdod tân ac achub” yw awdurdod a sefydlwyd gan gynllun o dan adran 2 o Ddeddf Gwasanaethau Tân ac Achub 2004 neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddo.
- Ystyr “Pennaeth gwasanaeth taledig” yw fel y dynodwyd o dan adran 4(1) Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989.
- Ystyr Cydbwyllgor Trosolwg a Chraffu yw pwyllgor neu is-bwyllgor a sefydlwyd gan ddau brif gyngor neu fwy o dan Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Cydbwyllgorau Trosolwg a Chraffu) (Cymru) 2013.
- Ystyr “grŵp yr wrthblaid fwyaf” yw grŵp gwleidyddol ac eithrio grŵp rheoli sydd â nifer uwch o aelodau nag unrhyw grŵp gwleidyddol arall yn yr awdurdod.
- Ystyr “awdurdod lleol” yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol
- Ystyr “aelod”, mewn perthynas ag awdurdod lleol neu gyngor cymuned neu dref, yw unigolyn sydd wedi'i ethol i wasanaethu fel cynghorydd i'r awdurdod hwnnw; yn achos awdurdod Parc Cenedlaethol yr ystyr yw aelod a benodwyd gan awdurdod cyfansoddol a hefyd unigolyn a benodwyd gan Weinidogion Cymru; yn achos awdurdodau tân ac achub yr ystyr yw aelod a benodwyd gan awdurdod cyfansoddol.

- Ystyr “awdurdod Parc Cenedlaethol” yw awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995
- Mae i “busnes swyddogol” yr ystyr a nodir yn Adran 142 (10) o'r Mesur mewn perthynas â thalu lwfansau i ad-dalu costau gofal, teithio a chynhaliaeth yr aethpwyd iddynt yn anochel gan aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod perthnasol (ac eithrio cynghorau cymuned a thref) wrth:
 - a. Mynychu cyfarfod o'r awdurdod neu o unrhyw un o bwyllgorau'r awdurdod neu unrhyw gorff y mae'r awdurdod yn gwneud penodiadau neu enwebiadau iddo neu unrhyw un o bwyllgorau corff o'r fath.
 - b. Mynychu cyfarfod unrhyw gymdeithas o awdurdodau y mae'r awdurdod yn aelod ohoni.
 - c. Mynychu cyfarfod yr awdurdodir ei gynnal gan yr awdurdod neu gan un o bwyllgorau'r awdurdod neu gan un o gydbwyllgorau'r awdurdod ac un neu fwy o awdurdodau eraill.
 - d. Mynychu unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan yr awdurdod neu ei bwyllgor gweithredol.
 - e. Dyletswydd yr ymgwymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau gweithrediaeth neu mewn cysylltiad â'u cyflawni o fewn yr ystyr a nodir yn Rhan 2 o Ddeddf 2000, fel y'i diwygiwyd.
 - f. Dyletswydd yr ymgwymerir â hi yn unol â rheol sefydlog sy'n ei gwneud yn ofynnol i aelod neu aelodau fod yn bresennol pan fydd dogfennau tendro yn cael eu hagor.
 - g. Dyletswydd yr ymgwymerir â hi mewn cysylltiad â chyflawni unrhyw swyddogaeth sydd gan yr awdurdod i archwilio safle neu awdurdodi archwiliad o safle.
 - h. Dyletswydd yr ymgwymerir â hi gan aelodau prif gynghorau mewn cysylltiad â chyfrifoldebau etholaeth neu ward sy'n deillio o gyflawni swyddogaethau awdurdod lleol.
 - i. Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan yr awdurdod, neu unrhyw ddyletswydd o ddoisbarth a gymeradwyir felly, ac yr ymgwymerir â hi at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r awdurdod neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu mewn cysylltiad â'u cyflawni.
- Ystyr “grŵp gwleidyddol arall” yw grŵp gwleidyddol ac eithrio grŵp rheoli neu grŵp yr wrthblaid fwyaf (os o gwbl) sy'n cynnwys dim llai na 10 y cant o aelodau'r awdurdod hwnnw.
- Ystyr “pwyllgor trosolwg a chraffu” yw pwyllgor yn yr awdurdod sydd â'r pwerau a nodir yn adran 21(2) a (3) o Ddeddf 2000, fel y'u diwygiwyd gan Ran 6 o'r Mesur.
- Ystyr “Panel” yw Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol fel y nodir yn adran 141(1) ac atodlen 2 o'r Mesur.
- Ystyr "datganiad polisi cyflog" yw datganiad a gynhrychir gan awdurdod perthnasol o dan adran 38 Deddf Lleoliaeth 2011.

- Ystyr "Aelod llywyddol" yw aelod o brif gyngor sydd wedi ei ddynodi gan y cyngor hwnnw i gyflawni swyddogaethau mewn perthynas â chadeirio ei gyfarfodydd a'i drafodion
- Ystyr "prif gyngor" yw cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol
- Mae i "swyddog priodol" yr un ystyr ag yn adran 270(3) o Ddeddf 1972.
- Ystyr "corff cyhoeddus" yw corff fel y'i diffinnir yn adran 67(b) o Ddeddf 2013.
- Ystyr "darpariaeth gymwys" yw darpariaeth sy'n gwneud amrywiad i benderfyniad blaenorol y Panel (adran 65 (c) o Ddeddf 2013).
- "Awdurdod cymwys perthnasol" yw awdurdod o fewn ystyr adran 63 o Ddeddf 2013, y mae'n ofynnol iddo gynhyrchu datganiad polisi cyflog.
- Diffinnir "awdurdod perthnasol" yn Adran 144(2) o'r Mesur (fel y'i diwygiwyd) ac yn adran 64 o Ddeddf 2013, ac, at ddibenion y Rheoliadau hyn, mae'n cynnwys awdurdod lleol/prif gyngor, cyngor tref neu gymuned, awdurdod Parc Cenedlaethol ac awdurdod tân ac achub yng Nghymru.
- Mae i "materion perthnasol" yr un diffiniad ag a nodir yn Adran 142(2) o'r Mesur.
- Ystyr "rhestr" yw rhestr sy'n nodi penderfyniadau'r awdurdod mewn perthynas â thaliadau sydd i'w gwneud yn ystod y flwyddyn (fel y maent yn ymwneud â'r awdurdod hwnnw) i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod hwnnw.
- Mae i "Uwch Gyflog" yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 11 o'r Rheoliadau hyn a gellir ei amodi fel "Uwch Gyflog Awdurdod Lleol/Prif gyngor" i gyfeirio at uwch gyflog aelod o brif gyngor; "Uwch Gyflog Parc Cenedlaethol" i gyfeirio at uwch gyflog aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol; neu "Uwch Gyflog awdurdod Tân ac Achub" i gyfeirio at uwch gyflog aelod o awdurdod Tân ac Achub.
- Mae i "adroddiad atodol" yr ystyr a nodir yn adran 146(4 i 8) o'r Mesur.
- Mae i "lwfans teithio a chynhaliaeth" yr un ystyr ag a nodir ym mharagraff 25 o'r Rheoliadau hyn.
- Mae i "blwyddyn" yr ystyron canlynol:
 - blwyddyn ariannol" – y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Mawrth;
 - "blwyddyn galendr" – y cyfnod o 12 mis sy'n dod i ben ar 31 Rhagfyr;
 - "blwyddyn ddinesig" – y flwyddyn sy'n dechrau ar ddyddiad cyfarfod blynyddol yr awdurdod lleol ac yn dod i ben ar y diwrnod cyn y cyfarfod blynyddol y flwyddyn ganlynol; yn achos awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau Tân ac Achub dyma'r cyfnod o 12 mis sy'n dilyn cyfarfod blynyddol yr awdurdod.

Rhan 2: Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol i Aelodau/ Aelodau Cyfetholedig

Dechrau Cyfnod Swydd

3. Mae cyfnod swydd:

- Aelod o awdurdod lleol yn dechrau ar y dyddiad y mae'r aelod hwnnw yn gwneud datganiad ei fod yn derbyn y swydd honno o dan adran 83(1) o Ddeddf 1972.
- Aelod o awdurdod Parc Cenedlaethol sy'n gynghorydd yn dechrau ar y dyddiad y penodir yr aelod hwnnw fel y cyfryw gan awdurdod cyfansoddol ac mae cyfnod swydd aelod a benodwyd gan Lywodraeth Cymru yn dechrau ar ddyddiad y penodiad hwnnw. Mae cyfnod swydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr awdurdod Parc Cenedlaethol yn dechrau ar y dyddiad y'u hetholir gan yr awdurdod hwnnw i'r swydd honno.
- Aelod o awdurdod Tân ac Achub yng Nghymru sy'n gynghorydd yn dechrau ar y dyddiad y penodir yr aelod hwnnw fel y cyfryw gan awdurdod cyfansoddiadol ac mae cyfnod swydd Cadeirydd a Dirprwy Gadeirydd yr awdurdod tân ac achub yn dechrau ar y dyddiad y'u hetholir gan yr awdurdod hwnnw i'r swydd honno.
- Aelod cyfetholedig o awdurdod perthnasol yn dechrau ar y dyddiad y'i penodir gan yr awdurdod perthnasol.

Rhestr o Gydabyddiaeth Ariannol Aelodau (y Rhestr) (Nid yw'n berthnasol i gynghorau cymuned neu dref – gweler Rhan 5)

4. Mae'n rhaid i awdurdod lunio rhestr o'r taliadau y mae'n bwriadu eu gwneud i'w aelodau a'i aelodau cyfetholedig bob blwyddyn. Mae'n rhaid i swm y taliadau hynny gyd-fynd â'r penderfyniadau a wnaeth y Panel ar gyfer y flwyddyn honno yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf neu mewn Adroddiadau Blynyddol neu Atodol dilynol. Mae'n rhaid llunio'r rhestr cyn pen pedair wythnos yn dilyn cyfarfod blynyddol yr awdurdod.

Diwygio'r Rhestr

5. Gall awdurdod ddiwygio'r Rhestr unrhyw bryd yn ystod y flwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) ar yr amod bod y cyfrwy ddiwygiadau yn cyd-fynd â phenderfyniadau'r Panel ar gyfer y flwyddyn honno.

Cyflog Sylfaenol

6. Mae'n rhaid i awdurdod ddarparu ar gyfer talu cyflog sylfaenol, fel y'i pennwyd gan y Panel yn ei Adroddiad Blynyddol Cyntaf ac mewn Adroddiadau Blynyddol neu Atodol dilynol, i bob un o'i aelodau. Mae'n rhaid talu'r un cyflog i bob aelod. Yn achos prif gynghorau yn unig, mae'r cyflog hwn yn parhau'n daladwy yn ystod cyfnod o absenoldeb teuluol.

7. Ni all aelod dderbyn mwy nag un Cyflog Sylfaenol gan awdurdod perthnasol, ond gall aelod o un awdurdod perthnasol dderbyn cyflog sylfaenol pellach drwy gael ei benodi'n aelod o awdurdod perthnasol arall (ac eithrio yn yr achos a nodir ym mharagraff 16).

8. Pennir y Cyflog Sylfaenol yn unol ag adran 142(3) o'r Mesur a bydd yn un o'r canlynol:

- Y swm y mae'n rhaid i'r awdurdod ei dalu i aelod o'r awdurdod;
- Yr uchafswm y gall yr awdurdod ei dalu i aelod o'r awdurdod.

9. Os bydd cyfnod swydd aelod yn dechrau neu'n dod i ben rywbryd heblaw ar ddechrau neu ar ddiwedd blwyddyn (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod), bydd gan yr aelod hwnnw hawl i gael cyflawni'r gyfran o'r cyflog sylfaenol sy'n cyfateb i nifer y dyddiau y mae'r aelod yn cyflawni'r swydd yn ystod y flwyddyn honno fel cyfran o nifer y dyddiau yn y flwyddyn honno.

10. Os caiff aelod ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o awdurdod (cyfeiria Rhan 3 o Ddeddf 2000 at hyn) mae'n rhaid i'r awdurdod wrthod talu'r rhan o'r cyflog sylfaenol sy'n daladwy i'r aelod hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod hwnnw wedi'i atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni (Adran 155(1) o'r Mesur).

Uwch Gyflog

11. Yn ddarostyngedig i baragraffau 12 i 18 gall awdurdod dalu uwch gyflog i aelodau y mae wedi rhoi cyfrifoldebau penodol iddynt. Mae'n rhaid i'r cyfryw daliadau gyd-fynd â phenderfyniad y Panel ar gyfer y flwyddyn honno (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod) y gwneir y taliadau ac mae'n rhaid eu nodi yn Rhestr yr awdurdod hwnnw. Yn achos prif gynghorau yn unig, bydd uwch gyflog yn parhau'n daladwy yn ystod absenoldeb teuluol deiliad y swydd.

12. Bydd y Panel yn pennu'r canlynol yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol:

- Y categorïau o aelodau sy'n gymwys i gael uwch gyflog na fyddant, o bosibl, yr un fath ar gyfer pob awdurdod neu gategori o awdurdod.
- Y disgrisiwn sydd ar gael i awdurdodau o ran talu uwch gyflogau na fyddant, o bosibl, yr un fath ar gyfer pob awdurdod neu gategori o awdurdod.

13. Bydd yr uwch gyflogau sy'n daladwy yn cydymffurfio ag adran 142(3) o'r Mesur a byddant yn nodi.

- Y swm y mae'n rhaid i awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod.
- Yr uchafswm y gall awdurdod perthnasol ei dalu i aelod o'r awdurdod.

14. Bydd yr uwch gyflog yn gyfuniad o'r cyflog sylfaenol a swm ychwanegol ar gyfer y cyfrifoldeb penodol perthnasol a bennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol

neu Atodol. Mae'n bosibl na fydd y swm hwn yr un fath ar gyfer pob awdurdod neu gategori o awdurdod.

15. Bydd y Panel, yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol, yn pennu'r gyfran uchaf o'i aelodaeth y gall awdurdod dalu uwch gyflogau iddynt. Mynegir hyn fel canran o gyfanswm aelodau'r awdurdod. Gall y ganran amrywio rhwng awdurdodau neu categorïau o awdurdodau ond ni fydd yn fwy na 50 y cant heb ganiatâd penodol Gweinidogion Cymru (Adran 142(5) o'r Mesur). Yn achos prif gynghorau yn unig gellir mynd dros y gyfran uchaf i gynnwys talu uwch gyflog i aelod ychwanegol a benodir dros dro i gymryd lle deiliaid swydd ag uwch gyflog sy'n absennol am resymau teuluol. Ar gyfer awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru, cyfyngir ar daliadau uwch gyflogau i ddeiliaid swyddi penodol yn unol â phenderfyniad y Panel yn ei Adroddiad Blynyddol neu Atodol.

15(a). Mae taliadau i gadeiryddion Cyd-bwyllgorau neu Is-bwyllgorau Trosolwg a Chraffu yn ychwanegol i gyfran uchaf ei aelodaeth y gall awdurdod dalu uwch gyflogau iddynt yn amodol ar yr uchafswm cyffredinol o bum deg y cant sydd wedi'i gynnwys yn Adran 142(5) o'r Mesur. Bydd y Panel yn pennu symiau taliadau o'r fath mewn Adroddiad Blynyddol neu Atodol.

16. Ni ddylai awdurdod dalu mwy nag un uwch gyflog i unrhyw aelod. Ni all aelod o brif gyngor sy'n cael uwch gyflog fel arweinydd awdurdod lleol neu aelod gweithredol o awdurdod lleol (y nododd y Panel ei fod yn llawn amser) gael ail gyflog fel aelod a benodir i wasanaethu ar awdurdod Parc Cenedlaethol neu awdurdod tân ac achub yng Nghymru.

16(a). Nid yw paragraff 16 yn gymwys i daliadau a wneir i gadeirydd Pwyllgor neu Is-bwyllgor Trosolwg a Chraffu sy'n derbyn uwch gyflog am rôl nad yw'n cael ei dosbarthu fel cyfwerth â llawn amser. Mae'n parhau i fod yn gymwys i arweinwyr neu aelodau'r pwyllgor gweithredol.

17. Os nad oes gan aelod, drwy gydol y flwyddyn, gyfrifoldebau penodol sy'n rhoi hawl iddo gael uwch gyflog, telir i'r aelod hwnnw'r gyfran o'r cyflog sy'n cynrychioli nifer y dyddiau y mae gan yr aelod y cyfryw gyfrifoldeb fel cyfran o nifer y dyddiau yn y flwyddyn honno.

18. Os caiff aelod ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o'r awdurdod (cyfeiria Rhan 3 o Ddeddf 2000 at hyn) ni ddylai'r awdurdod dalu uwch gyflog yr aelod tra bydd wedi'i atal dros dro (Adran 155(1) o'r Mesur). Os bydd y penderfyniad i'w atal dros dro yn ymwneud ag elfen cyfrifoldeb penodol y taliad yn unig, gall yr aelod gadw'r cyflog sylfaenol.

Talu Aelodau Cyfetholedig

19. Mae'n rhaid i awdurdod perthnasol ddarparu ar gyfer talu ffi i aelod cyfetholedig fel y'i pennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Mewn perthynas â'r rheoliad hwn ystyr aelod cyfetholedig yw aelod fel y'i diffinnir yn Adran 144(5) o'r Mesur ac y'i nodir ym mharagraff 2 o'r Rheoliadau hyn.

20. Os caiff aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod o awdurdod (cyfeiria Rhan 3 o Ddeddf 2000 at hyn) ni ddylai'r awdurdod dalu ffi aelod cyfetholedig tra bydd wedi'i atal dros dro (Adran 155(1) o'r Mesur).

Lwfansau

Lwfansau Gofal

21. Mae'n rhaid i awdurdodau ddarparu ar gyfer talu lwfans ("lwfans gofal") i aelodau ac aelodau cyfetholedig awdurdod mewn perthynas â'r cyfrwy gostau sy'n gysylltiedig â gofalu am blant neu ddibynnyddion ag yr aethpwyd iddynt yn anochel wrth gyflawni busnes swyddogol fel aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod hwnnw. Ni ddylid gwneud taliadau o dan y paragraff hwn:

- Mewn perthynas ag unrhyw blentyn neu ddibynnydd dros 15 oed oni bai fod yr aelod/aelod cyfetholedig yn bodloni'r awdurdod bod angen goruchwyliaeth ar y plentyn neu ddibynnydd a achosodd i'r aelod fynd i gostau angenrheidiol ar gyfer gofal y plentyn neu'r dibynnydd hwnnw wrth gyflawni dyletswyddau aelod neu aelod cyfetholedig.
- I fwy nag un aelod/aelod cyfetholedig o'r awdurdod ar gyfer gofal yr un plentyn neu ddibynnydd.
- O fwy nag un lwfans gofal i aelod neu aelod cyfetholedig o'r awdurdod na all ddangos i foddhad yr awdurdod bod yn rhaid i'r aelod/aelod cyfetholedig wneud trefniadau ar wahân ar gyfer gofalu am wahanol blant neu ddibynnyddion.

22. Pennir uchafswm y lwfans gofal sy'n daladwy gan awdurdod gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol.

23. Os caiff aelod/aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod (cyfeiria Rhan 3 o Ddeddf 2000 at hyn) mae'n rhaid i'r awdurdod beidio talu'r rhan o'r lwfans gofal sy'n daladwy i'r aelod/aelod cyfetholedig hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod/aelod cyfetholedig wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni (Adran 155(1) o'r Mesur).

24. Mae'n rhaid i Restr awdurdod nodi uchafswm y lwfans gofal sy'n daladwy bob mis a'i drefniadau ar gyfer cyflwyno hawliau, gan roi sylw llawn i benderfyniadau'r Panel yn hyn o beth.

Lwfansau Teithio a Chynhaliaeth

25. Yn ddarostyngedig i baragraffau 26 a 27 isod mae gan aelod neu aelod cyfetholedig hawl i gael taliadau gan yr awdurdod ar ffurf lwfansau teithio a chynhaliaeth yn ôl cyfraddau a bennwyd gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol dilynol. Bwriedir i'r cyfryw lwfansau dalu costau yr aed iddynt gan aelod neu aelod cyfetholedig wrth gyflawni busnes swyddogol yr awdurdod.

(Dim ond i Brif Gyngorau mae paragraffau 26 a 27 yn gymwys)

26. Dim ond os yw'r awdurdod yn fodlon y gellir cyfiawnhau hynny am resymau economaidd y dylid talu lwfans cynhaliaeth i aelod o awdurdod lleol am gyflawni busnes swyddogol o fewn ffiniau sir neu fwrdeistref sirol lle mae'n aelod. Nid yw hyn yn gymwys mewn perthynas ag aelodau cyfetholedig awdurdod lleol sy'n byw y tu allan i'r awdurdod hwnnw.

27. **Gall** awdurdod lleol wneud darpariaeth, yn ddarostyngedig i unrhyw gyfyngiadau **yr ystyr**ia'n **briodol**, i aelodau hawlio costau milltired ar gyfer busnes swyddogol mewn cysylltiad â chyfrifoldebau etholaeth neu ward lle maent yn deillio o gyflawni swyddogaethau'r sir neu'r fwrdeistref sirol.

28. Os caiff aelod neu aelod cyfetholedig ei atal dros dro neu ei atal dros dro yn rhannol rhag bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod (cyfeiria Rhan 3 o Ddeddf 2000 at hyn) mae'n rhaid i'r awdurdod wrthod talu'r lwfans teithio a chynhaliaeth sy'n daladwy i'r aelod/aelod cyfetholedig hwnnw mewn perthynas â'r cyfrifoldebau neu'r dyletswyddau y mae'r aelod wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag eu cyflawni (Adran 155(1) o'r Mesur).

Rhan 3: Darpariaethau Pellach

Pensiynau

29. O dan Adran 143 o'r Mesur, gall y Panel wneud penderfyniadau o ran y trefniadau pensiwn ar gyfer aelodau awdurdodau lleol yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol. Gall y penderfyniadau:

- Disgrifio'r disgrifiad o aelodau y bydd yn ofynnol i awdurdod lleol dalu pensiwn iddynt.
- Disgrifio'r materion perthnasol y bydd yn ofynnol i awdurdod lleol dalu pensiwn mewn cysylltiad â hwy.
- Gwneud penderfyniadau gwahanol ar gyfer prif gynghorau gwahanol.

Lwfansau i Gynorthwyo Gwaith Aelodau Awdurdod Lleol

30. Mae'n rhaid i awdurdod lleol ddarparu ar gyfer gofynion aelod i gyflawni ei rôl a'i gyfrifoldebau yn fwy effeithiol. Y Panel fydd yn pennu sut y dylid darparu'r cymorth hwn yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol.

Talu Costau Ymweliadau Swyddogol ac Ymweliadau Cwrteisi

31. Bydd y trefniadau sydd wedi'u cynnwys yn Adran 76 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972 yn parhau i fod yn gymwys, ond ni ellir gwneud unrhyw daliad i unigolyn o dan y trefniant hwnnw pan fo taliad wedi'i wneud i'r unigolyn hwnnw yn unol ag unrhyw daliad o wneir o dan y Rheoliadau hyn.

Y Trefniadau o Ran Absenoldeb Teuluol

32. Mae Rhan 2 o'r Mesur yn nodi hawliau aelodau awdurdodau lleol o ran absenoldeb teuluol. Bydd y Panel yn nodi ei benderfyniadau a'r trefniadau gweinyddol ar gyfer talu cyflogau a lwfansau gan brif gynghorau yn hyn o beth yn ei Adroddiadau Blynyddol neu Atodol.

Rhan 4: Cyflogau, Lwfansau neu Ffioedd

Ad-dalu Cyflogau, Lwfansau neu Ffioedd

33. Mae'n rhaid i awdurdod fynnu bod y cyfryw ran o gyflog, lwfans neu ffi yn cael ei had-dalu pan fydd taliad eisoes wedi'i wneud ar gyfer unrhyw gyfnod pan fydd yr aelod neu'r aelod cyflogedig dan sylw:

- Wedi'i atal dros dro neu wedi'i atal dros dro yn rhannol rhag cyflawni dyletswyddau neu gyfrifoldebau'r aelod/aelod cyfetholedig hwnnw yn unol â Rhan 3 o Ddeddf 2000 neu Reoliadau a wnaed o dan y Ddeddf honno.
- Yn peidio â bod yn aelod neu'n aelod cyfetholedig o'r awdurdod.
- Neu heb fod â hawl, mewn unrhyw ffordd, i gael cyflog, lwfans neu ffi mewn perthynas â'r cyfnod hwnnw.

Peidio â Derbyng Cyflogau, Lwfansau neu Ffioedd

34. O dan Adran 154 o'r Mesur gall unrhyw aelod neu aelod cyfetholedig, ddewis drwy hysbysu swyddfa briodol yr awdurdod yn ysgrifenedig, peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i gael cyflog, lwfans neu ffi a bennwyd gan y Panel ar gyfer y flwyddyn benodol honno (fel y mae'n ymwneud â'r awdurdod).

Rhan 5: Darpariaethau Penodol sy'n ymwneud â Chynghorau Tref a Chymuned ("y cyngor")

Dehongliad

35. At ddibenion y Rhan hon, ystyr aelod yw aelod etholedig ac aelod cyfetholedig.

Lwfansau

36. Lwfansau:

- a) Gall y cyngor, os yw'n dewis, wneud taliad blynyddol i aelodau mewn perthynas â'r costau a gaiff eu gwario wrth gyflawni rôl aelod. Nodir yr uchafswm sy'n daladwy yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.
- b) Gall y cyngor, os yw'n dewis, wneud taliadau i aelodau mewn perthynas â chostau teithio i fynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor. Nodir y swm y gellir ei hawlio yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.
- c) Gall y cyngor, os yw'n dewis, ad-dalu treuliau cynhaliaeth i'w aelodau pan fyddant yn mynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor. Nodir y trefniadau ar gyfer ad-dalu yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.

- d) Gall y cyngor, os yw'n dewis, dalu Lwfans Mynychu i'w aelodau am fynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor. Nodir y Lwfans yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.
- e) Gall y cyngor, os yw'n dewis, dalu Lwfans Colled Ariannol i'w aelodau lle mae colled o'r fath wedi digwydd trwy fynychu dyletswyddau cymeradwy y tu allan i ardal y cyngor. Nodir y Lwfansau yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.
- f) Gall y cyngor, os yw'n dewis, dalu lwfans i gadeirydd neu faer y cyngor at ddibenion cyflawni swyddogaethau'r swydd honno. Nodir y lwfans yn Adroddiad Blynyddol neu Atodol y Panel.

37. Ni chaiff aelod dderbyn mwy nag un Lwfans Mynychu ar gyfer unrhyw gyfnod o 24 awr os yw'r aelod hwnnw'n hawlio Lwfans Colled Ariannol ar gyfer yr un cyfnod.

38. Gall aelod ddewis peidio â derbyn unrhyw ran o'i hawl i gael lwfans dan y Rheoliadau hyn trwy hysbysu swyddog priodol y cyngor yn ysgrifenedig.

39. Rhaid i aelod sy'n gwneud cais am Lwfans Mynychu neu Lwfans Colled Ariannol lofnodi datganiad nad yw'r aelod wedi gwneud, nac yn bwriadu gwneud, unrhyw gais arall mewn perthynas â'r mater y mae'r cais yn ymwneud ag ef.

40 "Ystyr "Dyletswydd Gymeradwy" dan y Rhan hon yw:

- i. Mynychu cyfarfod o'r cyngor neu unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r cyngor neu unrhyw gorff arall y mae'r cyngor yn penodi neu enwebu pobl iddo neu unrhyw un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau corff o'r fath.
- ii. Mynychu unrhyw gyfarfod arall a awdurdodir gan y cyngor neu gan un o bwyllgorau neu is-bwyllgorau'r cyngor, neu un o gydbwyllgorau'r cyngor ac un neu ragor o gynghorau neu is-bwyllgorau cydbwyllgor o'r fath, ar yr amod bod o leiaf dau aelod o'r cyngor wedi cael eu gwahodd a, lle caiff y cyngor ei rannu'n grwpiau gwleidyddol, bod o leiaf dau grŵp o'r fath wedi'u gwahodd.
- iii. Mynychu cyfarfod unrhyw gymdeithas ar gyfer cynghorau y mae'r cyngor yn aelod ohoni.
- iv. Mynychu unrhyw ddigwyddiad hyfforddi neu ddatblygu a gymeradwyir gan y cyngor.
- v. Unrhyw ddyletswydd arall a gymeradwyir gan y cyngor neu ddyletswydd o fath a gymeradwyir gan y cyngor i gyflawni ei swyddogaethau neu unrhyw un o'i bwyllgorau neu is-bwyllgorau.

Rhan 6: Amrywiol

Trefniadau ar gyfer Taliadau

41. Mae'n rhaid i Restr awdurdod nodi'r trefniadau ar gyfer talu cyflogau, lwfansau a ffioedd i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod hwnnw. Gellir gwneud y taliadau hynny ar yr adegau a bennir gan yr awdurdod.

Hawliadau

42. Mae'n rhaid i awdurdod nodi terfyn amser rhwng y dyddiad y mae hawl i lwfans teithio neu gynhaliaeth yn digwydd a phan fydd yn rhaid i gais am y lwfansau hynny gael ei wneud gan y sawl y maent yn daladwy iddo. Fodd bynnag, nid yw hyn yn rhwystro awdurdod rhag gwneud taliad os na hawlir y lwfans o fewn y cyfnod a nodwyd.

43. Mae'n rhaid cyflwyno derbynebaw priodol sy'n profi costau gwirioneddol gydag unrhyw gais am lwfans teithio neu lwfans cynhaliaeth yn unol â'r Rheoliadau hyn (ac eithrio ceisiadau am gostau teithio mewn cerbyd modur preifat).

Osgoi Dyblygu

44. Mae'n rhaid i gais am lwfans teithio neu lwfans cynhaliaeth gynnwys datganiad wedi'i lofnodi gan yr aelod neu'r aelod cyfetholedig yn nodi nad yw'r aelod/aelod cyfetholedig wedi gwneud ac na fydd yn gwneud unrhyw gais arall mewn perthynas â'r mater y mae'r cais yn ymwneud ag ef neu mae'n rhaid anfon y cyfryw ddatganiad gyda'r cais.

Cofnod o Gyflogau, Lwfansau a Ffioedd

45. Mae'n rhaid i awdurdod gadw cofnod o'r taliadau a wnaed yn unol â'r Rheoliadau hyn. Mae'n rhaid i'r cofnod:

- Nodi enw'r derbynydd a swm a natur pob taliad.
- Bod ar gael, ar bob adeg resymol, i'w archwilio (am ddim) gan unrhyw etholwr llywodraeth leol (o fewn ystyr adran 270(1) o Ddeddf 1972) yn ardal yr awdurdod.
- Caniatáu i unigolyn sydd â hawl i archwilio'r cofnod wneud copi o unrhyw ran ohono ar ôl talu unrhyw ffi resymol y gall yr awdurdod ofyn amdani

Gofyniad Cyhoeddusrwydd

(Mae cynnwys gofynnol Gofynion Cyhoeddusrwydd yn Atodiad 4.)

46. Mae'n rhaid i awdurdod, cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl penderfynu ar ei Restr o daliadau ar gyfer y flwyddyn o dan y Rheoliadau hyn ac unrhyw Adroddiad gan y Panel, a heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'r Rhestr yn cyfeirio ati, wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Rhestr yn ardal yr awdurdod. **(Nid yw'r adran hon yn berthnasol i gynghorau cymuned a thref).**

47. Cyn gynted ag y bo'n ymarferol, a heb fod yn hwyrach na 30 Medi ar ôl diwedd blwyddyn, mae'n rhaid i awdurdod wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi, yn ardal yr awdurdod, y cyfanswm a dalwyd ganddo i bob aelod/aelod cyfetholedig mewn perthynas â chyflog sylfaenol, uwch gyflog, cyflog dinesig, ffi aelod cyfetholedig, lwfansau gofal, teithio a chynhaliaeth. **(Mae'r adran hon yn berthnasol i bob awdurdod perthnasol.)**

48. O fewn yr un terfyn amser ac yn yr un modd, mae'n rhaid i awdurdod lleol wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi unrhyw gydnabyddiaeth ariannol ychwanegol a dderbyniodd aelod a enwebwyd neu a benodwyd i awdurdod perthnasol arall. **(Mae'r adran hon yn berthnasol i'r prif cyngorau yn unig)**

Cyhoeddusrwydd i Adroddiadau'r Panel

49. O dan Adran 146(7) (a) a (b) o'r Mesur, bydd y Panel yn anfon drafft ymgynghori o'i Adroddiad Blynyddol neu Adroddiad Atodol i bob awdurdod perthnasol i'w ddsbarthu i aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod, er mwyn i aelodau/aelodau cyfetholedig gyflwyno sylwadau arno i'r Panel, o fewn cyfnod o wyth wythnos.

50. Yn Adroddiadau Blynyddol ac Atodol dilynol bydd y Panel yn nodi'r trefniadau ar gyfer cyhoeddi ei Adroddiadau yn unol ag Adran 151 ac Adran 152 o'r Mesur.

Monitro Cydymffurfiaeth â Phenderfyniadau'r Panel

51. Mae Adran 153 o'r Mesur yn nodi bod yn rhaid i awdurdodau perthnasol gydymffurfio â'r gofynion a osodir gan y Panel yn ei Adroddiadau Blynyddol. Mae hefyd yn rhoi pŵer i'r Panel fonitro'r taliadau a wneir gan awdurdodau perthnasol a'i gwneud yn ofynnol i'r wybodaeth a nodir gan y Panel gael ei darparu. Nodir y gofynion o dan yr adran hon ym mhob Adroddiad Blynyddol gan y Panel.

Atodiad 3: Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol Aelodau

1. Mae'n rhaid i brif gynghorau, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru (ond nid cynghorau cymuned a thref) gynnal Rhestr flynyddol o Gydnabyddiaeth Ariannol Aelodau (y 'Rhestr') sy'n cydymffurfio â phenderfyniadau'r Panel ynghylch cyflogau aelodau a thaliadau i aelodau cyfetholedig. Rhaid iddi gynnwys y wybodaeth ganlynol:

Mewn perthynas â Phrif Gyngor:

- a. Enwau'r aelodau a fydd yn cael y cyflog sylfaenol yn unig a'r swm i'w dalu.
- b. Enwau'r aelodau a fydd yn cael uwch gyflog Band 1 a Band 2, y swydd a'r portffolio sydd ganddynt a'r swm i'w dalu.
- c. Enwau'r aelodau a fydd yn cael uwch gyflog Band 3, Band 4 a Band 5, y swydd a'r portffolio sydd ganddynt a'r swm i'w dalu.
- d. Enwau'r aelodau a fydd yn cael cyflog dinesig a'r swm i'w dalu.
- e. Enwau'r aelodau a fydd yn cael ffi aelod cyfetholedig a ph'un a ydynt yn gadeirydd neu'n aelod cyffredin a'r swm i'w dalu.
- f. Enwau'r aelodau a fydd yn derbyn uwch gyflog fel cadeirydd cydbwyllgor neu is-bwyllgor trosolwg a chraffu a'r swm i'w dalu.
- g. Enwau'r aelodau a fydd yn derbyn cyflog penodol neu ychwanegol a gymeradwywyd gan y Panel a'r swm i'w dalu.

Mewn perthynas â Awdurdodau Tân ac Achub:

- a. Enwau'r aelodau a fydd yn cael y cyflog sylfaenol yn unig a'r swm i'w dalu.
- b. Enw'r Aelod a fydd yn cael uwch gyflog fel cadeirydd yr awdurdod a'r swm i'w dalu
- c. Enwau'r aelodau a fydd yn cael uwch gyflog fel is-gadeirydd pwyllgor a'r swm i'w dalu.
- d. Enwau'r aelodau a fydd yn cael ffi aelod cyfetholedig a ph'un a ydynt yn gadeirydd neu'n aelod cyffredin a'r swm i'w dalu.

2. Mae'n rhaid hysbysu'r Panel ynghylch diwygiadau a wneir i'r Rhestr yn ystod blwyddyn y cyngor cyn gynted ag y bo'n ymarferol.

3. Mae'n rhaid i brif gynghorau gadarnhau yn eu Rhestr flynyddol nad ydynt wedi mynd dros uchafswm yr uwch gyflogau a bennwyd ar gyfer y cyngor.

4. Mae'n rhaid i brif gynghorau, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub gynnwys datganiad o gostau y gellir eu caniatáu a'r dyletswyddau y gellir hawlio lwfansau gofal, teithio a chynhaliaeth amdanynt yn eu Rhestr flynyddol sy'n cydymffurfio â phenderfyniadau'r Panel.

5. Mae'n rhaid i'r Rhestr nodi'r trefniadau ar gyfer talu cyflogau, lwfansau a ffioedd i holl aelodau ac aelodau cyfetholedig yr awdurdod perthnasol (Rheoliad 35 Pwyllgor Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol); y trefniadau ar gyfer hawlio costau gofal, teithio a chynhaliaeth (Rheoliadau 24 a 36-37 Pwyllgor Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol); y trefniadau ar gyfer osgoi dyblygu (Rheoliad 38 Pwyllgor Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol); a'r trefniadau ar gyfer ad-dalu cyflogau, lwfansau a ffioedd (Rheoliad 33 Pwyllgor Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol). Mae'n rhaid i'r rhestr hon hefyd gynnwys y dyletswyddau y gall aelodau ac aelodau cyfetholedig hawlio lwfansau teithio, cynhaliaeth a gofal amdanynt.

6. Mae'n rhaid i brif gynghorau ddatgan y canlynol yn y Rhestr:

- A oes datganiad o gyfrifoldeb sylfaenol cynghorydd wedi'i wneud.
- A oes disgrifiadau o rôl deiliaid swyddi ag uwch gyflog wedi'u llunio.
- A gedwir cofnodion o bresenoldeb cynghorwyr.
- A gaiff adroddiadau blynyddol eu llunio gan gynghorwyr a'u cyhoeddi ar wefan y cyngor.

7. Mae'n rhaid i brif gynghorau, awdurdodau Parciau Cenedlaethol ac awdurdodau tân ac achub yng Nghymru wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r Rhestr Cydnabyddiaeth Ariannol cyn gynted ag y bo'n ymarferol a heb fod yn hwyrach na 31 Gorffennaf yn y flwyddyn y mae'n gymwys ynddi. Dylid anfon hon at y Panel heb fod yn hwyrach na'r dyddiad hwn. Dylai cyhoeddi'r Rhestr mewn modd sy'n rhoi mynediad hawdd i aelodau'r cyhoedd.

8. Mae'n rhaid anfon y Rhestr at ysgrifenyddiaeth y Panel erbyn 31 Gorffennaf bob blwyddyn.

Atodiad 4: Gofynion Cyhoeddusrwydd

Yn unol ag Adran 151 o'r Mesur, mae'n ofynnol gan y Panel i:

Awdurdodau perthnasol wneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi yn ardal yr awdurdod y gydnabyddiaeth ariannol a dderbyniodd eu haelodau a'u haelodau cyfetholedig (gan gynnwys cadeiryddion JOSCs neu is-bwyllgorau o JOSCs). Rhaid cyhoeddi'r wybodaeth hon a'i hanfon i'r Panel erbyn 30 Medi fan bellaf yn dilyn diwedd y flwyddyn y mae'r taliadau yn ymwneud â hi. Mae'n rhaid rhoi'r wybodaeth ganlynol:

- a. Y cyflog sylfaenol, yr uwch gyflog, y cyflog dinesig a'r ffi aelod cyfetholedig a dalwyd i bob aelod/aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol a enwir, gan gynnwys pan oedd yr aelod wedi dewis peidio â derbyn y cyfan neu ran o'r cyflog neu ffi ar gyfer blwyddyn y cyngor dan sylw. Pan fydd uwch gyflog wedi'i dalu, mae'n rhaid rhoi teitl yr uwch swydd dan sylw.
- b. Y taliadau a wneir gan gynghorau cymuned a thref i aelodau a enwir fel:
 - i. Lwfans Presenoldeb
 - ii. Lwfans Colled Ariannol
 - iii. Taliadau ar gyfer costau mewn perthynas â defnyddio ffôn, band eang ac ati.
 - iv. Lwfansau i faer/cadeirydd a dirprwy faer/gadeirydd.
- c. Yr holl gostau gofal, teithio a chynhaliaeth a thaliadau eraill a dderbyniodd pob aelod ac aelod cyfetholedig o'r awdurdod perthnasol, gan nodi pob categori ar wahân.
- ch. Swm unrhyw daliadau pellach a dderbyniwyd gan unrhyw aelod a enwyd a gafodd ei enwebu i, neu ei benodi gan, awdurdod perthnasol arall neu gorff cyhoeddus arall fel y'u diffinnir gan Adran 67 Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013, sef:
 - bwrdd iechyd lleol
 - panel comisiynwyr yr heddlu a throsedd
 - awdurdod perthnasol
 - corff a ddynodwyd fel corff cyhoeddus mewn gorchymyn a wneir gan Weinidogion Cymru.
- d. Enwau'r aelodau na chafodd y cyflog sylfaenol na'r uwch gyflog am eu bod wedi'u hatal dros dro am y cyfan neu ran o'r cyfnod blynyddol y mae'r Rhestr yn gymwys iddo.

Atodiad 5: Canllaw Llywodraeth Cymru i Banel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn Cysylltiad â Chyflogau Prif Weithredwyr Awdurdodau Lleol

Cefndir

- 1.1. Cafodd Deddf Llywodraeth Leol (Democratiaeth) (Cymru) 2013 (“Deddf 2013”) ei Chydsyniad Brenhinol ar 30 Gorffennaf 2013. Ei phrif ddiben oedd diwygio strwythur a swyddogaethau'r hyn a elwir bellach yn Gomisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Fodd bynnag, roedd darpariaethau eraill yn ymwneud â Llywodraeth Leol a materion cysylltiedig, gan gynnwys:
 - Caniatáu i Brif Gynghorau benodi Aelodau Llywyddu i gadeirio eu cyfarfodydd, yn hytrach na'r cadeirydd dinesig neu faer traddodiadol;
 - Galluogi Awdurdodau Lleol i gefnogi neu wrthwynebu Biliau preifat yn y Cynulliad Cenedlaethol, yn hytrach na Senedd y DU, os mai dyna'r ddeddfwrfa briodol;
 - Gofyn i Gynghorau Tref a Chymuned gyhoeddi gwybodaeth ar y Rhyngwrdd;
 - Diwygio darpariaethau o fewn Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011 (“Mesur 2011”) sy'n ymwneud â phresenoldeb o bell yng nghyfarfodydd y Cyngor a chyfansoddiad pwyllgorau archwilio a gwasanaethau democrataidd, a
 - Galluogi Awdurdodau Lleol i sefydlu pwyllgorau safonau ar y cyd.
- 1.2. Yn ogystal, cafodd cyfrifoldebau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol (“Y Panel”), o fewn Mesur 2011, eu diwygio gan Ddeddf 2013 mewn nifer o ffyrdd, ond yn enwedig o ran cyflog Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig rhai Awdurdodau Lleol.
- 1.3. Mae Penaethiaid Gwasanaeth Cyflogedig yn swyddi statudol a gyflwynwyd o dan Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989. Mae gofyn i Brif Gynghorau a rhai Awdurdodau Lleol eraill ddynodi un o'u swyddogion fel y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig. Prif Weithredwr y Cyngor yw hwn fel arfer. Mae gofyn i'r swyddog hwn gynghori'r Cyngor ynghylch cyflawni ei swyddogaethau ac o ran nifer a sefydliad ei staff. At ddiben y canllaw hwn, ystyrir y term Prif Weithredwr fel y Pennaeth Gwasanaeth Cyflogedig a/neu Brif Swyddog Tân.

Cyfrifoldebau'r Panel o ran cyflog Prif Weithredwyr

- 2.1 Mae adran 63 o Ddeddf 2013 yn diwygio Mesur 2011 drwy fewnosod adran 143A newydd. Mae adrannau 141 i 160 o Fesur 2011 yn delio â thaliadau a phensiynau aelodau o Awdurdod Lleol a phwerau'r Panel mewn cysylltiad â nhw. Mae adran 143A newydd yn galluogi'r Panel i gymryd golwg, mewn perthynas â Phrif Gynghorau ac Awdurdodau Tân ac Achub, ar unrhyw beth yn eu Datganiad Polisi Cyflog sy'n ymwneud â chyflog eu Prif Weithredwr. At ddiben y canllaw hwn, mae cyflogau'n cynnwys taliadau a wneir gan Awdurdod perthnasol i Bennaeth Gwasanaeth Cyflogedig nad yw'n cael ei gyflogi gan yr Awdurdod dan gontract am ddarparu gwasanaethau, yn ogystal â thaliadau cyflog a wneir i Bennaeth sy'n cael ei gyflogi gan wasanaeth cyflogedig o dan

gontract cyflogaeth. Mae pŵer y Panel i wneud hynny, serch hynny, yn berthnasol yn unig i'r Awdurdodau sy'n gorfod cyflwyno Datganiadau Polisi Cyflog (Prif Gynghorau ac Awdurdodau Tân ac Achub). Nid yw adran 64 o Ddeddf 2013, sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i bennu corff cyhoeddus y gellid ei ychwanegu at gyfrifoldebau'r Panel, yn berthnasol i gyflog Prif Weithredwyr.

- 2.2 Mae Datganiadau Polisi Cyflog yn ofyniad o dan Ddeddf Lleoliaeth 2011 (adrannau 38 i 43), i'w cyhoeddi yn flynyddol. Diben y datganiad yw darparu tryloywder o ran dull Awdurdod Lleol i osod cyflog ei gyflogeion, drwy nodi'r dulliau y pennir eu cyflogau. Yn benodol, mae'n rhaid iddo gynnwys:
 - a) Polisiâu ar bob agwedd ac elfen cydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddogion;
 - b) Dull cyhoeddi, a mynediad at wybodaeth yn ymwneud â phob agwedd ar gydnabyddiaeth ariannol Prif Swyddogion;
 - c) Polisi'r Cyngor ar gydnabyddiaeth ariannol y cyflogeion sydd ar gyflog isaf;
 - ch) Y berthynas rhwng cydnabyddiaeth ariannol ei Brif Swyddogion a chyflogeion eraill.
- 2.3 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau i Awdurdodau Lleol ar y mater hwn.
[\[http://cymru.gov.uk/topics/localgovernment/finandfunding/publications/payaccount/?lang=cy\]](http://cymru.gov.uk/topics/localgovernment/finandfunding/publications/payaccount/?lang=cy)
- 2.4 Cynllunnir Datganiadau Polisi Cyflog er mwyn gwneud penderfyniadau mewn perthynas â, yn benodol, cyflogau prif weithredwyr a staff ar y cyflogau isaf. Mynegir safbwynt Llywodraeth Cymru yng nghanllawiau Datganiadau Polisi Cyflog, gan nodi bod y broses o wneud penderfyniadau ar Ddatganiadau Polisi Cyflog yn cael ei gwneud yn gyhoeddus, yn agored i graffu ac yn amodol ar bleidlais pob Aelod o'r Cyngor. Atgyfnerthir hyn gan Reoliadau Awdurdodau Lleol (Rheolau Sefydlog) (Cymru) 2014, y mae Llywodraeth Cymru yn cynnig adolygu er mwyn ei gwneud yn ofynnol i Brif Gyngor hysbysebu yn gyhoeddus pan fo'n cynnig penodi prif swyddog a phan fo'r gydnabyddiaeth ariannol y mae'n bwriadu ei dalu o ran y rôl honno yn £100,000 y flwyddyn neu fwy.
- 2.5 Mae adran 63 o Ddeddf 2013 yn dweud y gallai'r Panel wneud argymhellion o ran unrhyw gynnig i newid cyflog Prif Weithredwr. Mae'n rhaid i brif gynghorau ac awdurdodau tân ac achub ystyried unrhyw argymhellion a wneir gan y Panel mewn perthynas â'r hyn a dywedir yn eu Datganiadau Polisi Cyflog sy'n ymwneud â chyflog Prif Weithredwyr.
- 2.6 Os yw prif gyngor neu awdurdod tân ac achub yn dymuno newid cyflog eu prif weithredwr, bydd rhaid iddynt ymgynghori â'r Panel, oni bai bod y newid a ystyrir yn gymesur â chodiad neu doriad cyflog cyffredinol i swyddogion eraill. (At ddiben adran 63 o Ddeddf 2013, mae "cyflog" yn cynnwys taliadau a wneir i brif weithredwr o dan gontract am wasanaethau yn ogystal â thaliadau cyflog o dan gontract cyflogaeth). Mae'n rhaid i'r Cyngor neu'r awdurdod tân ac achub ystyried argymhelliad y Panel wrth wneud eu penderfyniad.
- 2.7. Gallai'r Panel ofyn am unrhyw wybodaeth sydd ei hangen arnynt i'w cynorthwyo i ddod i gasgliad ar y mater a bydd yn rhaid i'r Cyngor/Awdurdod Tân ac Achub

ddarparu'r wybodaeth honno. Gallai'r Panel gyhoeddi unrhyw argymhelliad y mae'n penderfynu ei gymryd.

- 2.8. Gallai argymhelliad y Panel gymeradwyo cynnig yr Awdurdod Lleol, gall fynegi beirniadaeth neu bryderon am y cynnig, neu gall argymhell amrywiadau ar y cynnig, ond ni all y Panel wneud unrhyw argymhellion heb ystyried y canllawiau hyn a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru.

Ystyriaeth y Panel

- 3.1 Wrth ystyried cyflogau Prif Weithredwyr, mae'n bwysig bod y Panel yn llwyr sylweddoli eu bod mewn sefyllfa wahanol yn ei hanfod mewn perthynas â chydabyddiaeth ariannol Aelodau yr Awdurdodau Lleol. Yn y sefyllfa ddiwethaf, y Panel yw'r canolwyr terfynol yn y mater. Mae gan y Panel y pŵer i nodi'n union beth ddylai Aelod o Awdurdod Lleol ei dderbyn, oni bai ei fod yn cyfyngu ei hun i nodi macsima yn lle. Fodd bynnag, hyd yn oed yn y sefyllfa hon, y Panel, nid yr Awdurdod Lleol na Llywodraeth Cymru, sydd â'r pŵer i wneud y penderfyniadau.
- 3.2 I'r gwrthwyneb, mewn perthynas â Phrif Weithredwyr, mae rôl y Panel yn gyfyngedig i gymryd golwg a gwneud argymhelliad. Er bod yn rhaid i'r Awdurdod/Awdurdodau Lleol dan sylw ystyried y farn hon, nid oes rhaid iddynt ei dilyn. Mae'n wir y bydd deddfwriaeth arall yn gofyn i wneud penderfyniad o'r fath drwy bleidlais o'r Cyngor llawn. Mae hefyd yn wir y byddai'r penderfyniad yn agored i gael ei graffu nid yn unig gan brosesau craffu mewnol yr Awdurdodau ond hefyd gan reoleiddwyr allanol fel Swyddfa Archwilio Cymru. Byddai angen i'r Awdurdod egluro pam nad oeddent yn cytuno ag argymhelliad y Panel, os mai dyna beth ddigwyddodd.
- 3.3 Serch hynny, nid yw'r Panel yn penderfynu faint y mae Prif Weithredwr unigol yn cael ei dalu. Dylai hyn osgoi unrhyw angen i'r Panel gael ei dynnu i drafodaethau ag Undebau Llafur neu gymdeithasau proffesiynol, er enghraifft. Er na all rhywun ddiystyru'r posibilrwydd o her gyfreithiol i argymhelliad gan y Panel, mae'n llai tebygol oherwydd natur anuniongyrchol perthynas y Panel â'r penderfyniad terfynol.
- 3.4 Gofynnir i'r Panel ddefnyddio ei brofiad ac arbenigedd ei hun i gyrraedd at argymhelliad priodol ym mhob achos sy'n codi. Gofynnir i Awdurdodau Lleol ddarparu unrhyw wybodaeth i'r Panel y gallai ofyn amdani yn rhesymol wrth ddod i gasgliad ac mae hynny'n rhoi pŵer sylweddol i'r Panel gasglu gwybodaeth angenrheidiol. Gallai'r math o wybodaeth y gallai'r Panel ofyn amdani gynnwys y canlynol:
- Papurau neu adroddiadau a baratowyd gan yr Awdurdod mewn cysylltiad â'r mater;
 - Adroddiadau neu wybodaeth arall a ddarparwyd i'r Awdurdod gan unrhyw ymgynghoriaeth, Undeb Llafur neu gymdeithas broffesiynol;

- Manylion am y pecyn cyfan sydd ar gael neu sy'n cael ei ystyried, ar gyfer y Prif Weithredwr. Gallai hyn gynnwys hyd y contract sydd ar gynnig, trefniadau pensiwn, pecyn diswyddo, ffioedd swyddogion canlyniadau, bonysau perfformio, darpariaeth ar gyfer gwyliu blynyddol neu absenoldeb arall, taliad mewn nwyddau (h.y. ceir) a chostau adleoli;
 - Gwybodaeth yn ymwneud â'r gydnabyddiaeth ariannol sydd ar gynnig i Brif Weithredwyr Awdurdodau Lleol eraill. (*Noder: nid yw'r Panel yn gyfyngedig i ofyn am wybodaeth gan yr Awdurdod Lleol sy'n ystyried amrywiad mewn cyflog yn unig*).
- 3.5 Mae hefyd yn debygol y byddai'r Panel yn dymuno ystyried data mwy cyffredinol yn ymwneud â phrisiau ac incwm, y gallent eu cael drwy berthnasedd â chydabyddiaeth ariannol aelodau o Awdurdod Lleol.
- 3.6 Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cyfyngu'r Panel i rôl ymatebol yn unig. Os yw'n dymuno, gallai'r Panel ddefnyddio ei bŵer i wneud argymhellion yn ymwneud â darpariaethau o fewn Datganiad Polisi Cyflog Awdurdodau Lleol ar wahân i unrhyw gynnig i amrywio tâl Prif Weithredwr ar yr amod bod yr argymhelliad "yn ymwneud â" chyflog y Prif Weithredwr. Fodd bynnag, byddai angen i'r Panel ystyried a oes ganddo'r amser a'r adnoddau i gynnal ymarfer o'r fath gan gofio bod yr ysgogydd polisi y tu ôl i'r darpariaethau yn Neddf 2013 yn ymwneud â rheolaeth dros yr hyn a ystyriwyd i fod yn benderfyniadau annerbyniol mewn perthynas â chodiad cyflog. Gallai defnyddio'r pŵer mewn ffordd sy'n anghyson â'i ddiben olygu her gyfreithiol. Serch hynny, mae'n golygu y gall unrhyw unigolyn neu sefydliad gyfeirio mater sy'n ymwneud â thâl y Prif Weithredwr i'r Panel ei ystyried a gallai'r Panel penderfynu gweithredu yn ôl y cyfeiriad hwnnw petai'n teimlo ei fod yn briodol.
- 3.7 Mae angen ymgynghori â'r Panel os oes amrywiad am i lawr yn cael ei gynnig ar gyfer cyflog Prif Weithredwr (oni bai, fel yn yr achos â chodiad cyflog, ei fod yn gymesur ag ymagwedd gyffredinol at gyflogau swyddogion yn yr Awdurdod hwnnw). Mae'r Panel yn debygol o ystyried yr un math o ofynion tystiolaeth.

I gloi, pa ffactorau ddylai'r Panel eu hystyried wrth wneud argymhelliad? Y Panel sydd i wneud ei asesiad ei hun o ba ffactorau sy'n berthnasol wrth ddefnyddio ei ddisgresiwn mewn unrhyw achos penodol a faint o bwys a roddir iddynt. Fodd bynnag, mae'r paragraffau dilynol yn cynnwys yr hyn y mae Gweinidogion yn ei ystyried yn ffactorau allweddol i'w hystyried gan y Panel.

- 3.8 Wrth recriwtio Prif Weithredwyr, mae'n rhaid i gyrff sector cyhoeddus ystyried faint o gydnabyddiaeth ariannol sy angen i recriwtio a chadw'r bobl sy'n fwyaf cymwys. Dyna pam bod gwahaniaeth mawr yn aml rhwng y swyddog unigol sydd â'r cyflog uchaf ar lefel y Prif Weithredwr a'r lefel nesaf mewn Awdurdod. Yn benodol mewn perthynas â Phrif Swyddogion Tân, mae angen i'r Panel gydnabod yr arbenigedd proffesiynol sy'n ofynnol ar gyfer y swydd a bydd angen cyfeirio at y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Rheolwyr Brigâd Gwasanaethau Tân ac Achub yr Awdurdodau Lleol ("y llyfr Aur").

- 3.9 Bydd angen i'r Panel fod yn sensitif i hyn ond hefyd dylai gymryd dull cytbwys. Mae'r hyn a dderbynnir gan y cyhoedd yn ffactor dilys i'r Panel ei ystyried, ond ni ddylid rhoi pwys gormodol arno. Er bod canfyddiad bod gormod o gydnabyddiaeth ariannol ymysg gwleidyddion a swyddogion cyhoeddus gan arwain at ddadlau cyhoeddus, mae'n ddealladwy y gallai codiad cyflog sylweddol mewn swydd sydd eisoes â chyflog uchel gael ei feirniadu ar adeg pan fo amgylchiadau economaidd yn anodd i nifer o deuluoedd.
- 3.10 Mae angen ystyried lefelau cyflog Prif Weithredwyr o fewn Awdurdodau Lleol tebyg. Yn ogystal, mae tueddiad i osod cyfyngiadau rhifydddeg ar y gwahaniaeth rhwng y staff ar y cyflog uchaf ac isaf mewn sefydliad, yn ogystal â'r gwahaniaeth rhwng y cyflog uchaf a'r ail gyflog uchaf. Y Panel fydd yn penderfynu p'un a ddylid rhoi sylw i hyn, a faint o bwys i roi iddo
- 3.12. Bydd y Panel hefyd yn gallu ystyried a yw'r cyflog sy'n cael ei ystyried yn rhesymol ar gyfer yr ardal dan sylw.
- 3.13. Fel canlyniad, bydd y Panel am fodloni ei hun bod yr Awdurdod Lleol dan sylw wedi gwneud achos busnes clir dros newid arfaethedig ac wedi ystyried yr opsiynau. Dylid cymryd safbwynt y Panel ar ddiwedd, nid dechrau, y broses, fel gall y Panel weld yr holl dystiolaeth y mae'r Awdurdod wedi'i gymryd wrth wneud ei gynnig. Bydd hyn yn bwysig iawn wrth ystyried penodiad brys. Os bydd angen safbwynt y Panel yn gyflym, bydd angen iddo gael yr wybodaeth gefndirol yn barod.

Ysgrifenyddiaeth Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol
Ystafell M.05
Llawr Cyntaf
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 6913
E-bost: irpmailbox@cymru.gsi.gov.uk

Mae'r Adroddiad ar gael ar ein gwefan yn:
www.panelcymrugydnabyddiaethariannol.org.uk

Mae tudalen hwn yn fwriadol wag

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR

Cyfarfod	Eitem (disgrifiad / teitl)		Pwrpas yr Adroddiad	Angen penderfyniad gan y Cyngor (oes/nac oes)	Aelod Arweiniol a Swyddog Cyswllt
12 Mai 2015 - Cyfarfod Blynyddol	1	Penodi Cadeirydd y Cyngor Sir			Gary Williams
	2	Penodi Is-Gadeirydd y Cyngor Sir			Gary Williams
	3	Dogfen Gyflenwi Flynyddol ar gyfer y Cynllun Corfforaethol	Aelodau i gymeradwyo fersiwn derfynol o'r Ddogfen Gyflenwi.	Oes	Y Cynghorydd Barbara Smith / Alan Smith
	4	Strategaeth Tai Lleol	Cytuno ar y Strategaeth Tai Lleol	Oes	Y Cynghorydd Hugh Irving / Graham Boase / Angela Loftus
	5	Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau	Ystyried safonau ymddygiad moesegol a chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad	Nac oes	Gary Williams / Lisa Jones
	6	Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Corfforaethol	Derbyn Adroddiad Blynyddol Llywodraethu Corfforaethol		Y Cynghorydd Jason McLellan / Gary Williams
	7	Adroddiad Blynyddol Pwyllgorau Archwilio y Cyngor	Ystyried yr Adroddiad Blynyddol	Nac oes	Cadeiryddion Archwilio ac Is-gadeiryddion Grŵp / Steve Price / Rhian Evans
	8	Polisi Tâl.	Cymeradwyo'r Polisi Tâl	Oes	Y Cynghorydd Barbara Smith / Catrin E. Roberts
Briffio'r Cyngor 1 Mehefin 2015	1	Plant sy'n Derbyn Gofal	Cyflwyniad gan y Gwasanaethau Plant	Amh.	Y Cynghorydd Bobby Feeley / Rhian Morlle / Liz Griffin
7 Gorffennaf 2015					
8 Medi 2015					

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR

Tudalen 142

20 Hydref 2015	1	Adroddiad Perfformiad Blynyddol		Oes	Liz Grieve
Briffio'r Cyngor 2 Tachwedd 2015					
1 Rhagfyr 2015					
26 Ionawr 2016	1	Cyllideb ar gyfer 2016/17	Cytuno ar gyllideb y Cyngor ar gyfer y flwyddyn ariannol 2016/17	Oes	Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
23 Chwefror 2016	1	Treth y Cyngor	Er mwyn gosod lefelau Treth y Cyngor ar gyfer 2016/17	Oes	Y Cyngorydd Julian Thompson-Hill / Paul McGrady
	2	Amserlen y Pwyllgor / Adolygiad Blynyddol o Gydbwysedd Gwleidyddol	Cymeradwyo amserlen y pwyllgor tan ddiwedd 2017 ac adolygu cydbwysedd gwleidyddol y pwyllgorau	Oes	Steve Price
Briffio'r Cyngor 7 Mawrth 2016					
12 Ebrill 2016	1	Enwebiadau ar gyfer y swyddi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor	Cytuno ar yr enwebiadau.	Oes	Gary Williams
Cyfarfod Blynyddol 10 Mai 2016	1	Penodi Cadeirydd ac Is-Gadeirydd y Cyngor	Y Cyngor i benodi arweinwyr dinesig y Cyngor ar gyfer blwyddyn y cyngor 2016/17	Oes	Gary Williams

Nodyn ar gyfer swyddogion – Dyddiadau Cau Adroddiadau ar gyfer y Cyngor Llawn

Cyfarfod	Dyddiad cau	Cyfarfod	Dyddiad cau	Cyfarfod	Dyddiad cau
-----------------	--------------------	-----------------	--------------------	-----------------	--------------------

RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL Y CYNGOR

<i>Ebrill</i>	27 Mawrth 2015	<i>Mai</i>	24 Ebrill 2015	<i>Gorffennaf</i>	22 Mehefin 2015
<i>Medi</i>	21 Awst 2015	<i>Hydref</i>	5 Hyd 2015	<i>Rhagfyr</i>	16 Tachwedd 2015
<i>Ionawr 2016</i>	11 Ionawr 2016	<i>Chwefror</i>	28 Chwefror 2016	<i>Ebrill</i>	24 Mawrth 2016

Diweddarwyd 26/03/2015 SLW

Council Work Programme.doc

Mae tudalen hwn yn fwiadol wag